

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Ionawr 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddEconomi](https://twitter.com/SeneddEconomi)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Ionawr 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru

Cymerodd yr aelodau a ganlyn o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ran yn yr ymchwiliad hefyd.



Llyr Gruffydd AS
Plaid Cymru



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	9
Argymhellion	12
1. Cyflwyniad.....	16
Cylch gorchwyl.....	17
Dull gweithredu'r Pwyllgor	17
Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil	18
2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	19
Cefndir y Bil	19
Trosolwg o'r Bil	19
Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael.....	20
Yr angen am ddeddfwriaeth.....	21
Cwmpas a hygyrchedd y ddeddfwriaeth	22
Barn y Pwyllgor	24
Safonau Gofynnol Cenedlaethol.....	25
Barn y Pwyllgor	27
Rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ac Ymwahanu	28
Cynnwys asesiadau o effaith ar hawliau dynol ac ar gydraddoldeb	30
Diwygio Tir Comin.....	30
Ynni adnewyddadwy	32
Goblygiadau ariannol a chostau	33
3. Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy.....	34
Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 1 yn ei wneud	34
Y Fframwaith a'r diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy	35

Iechyd a Lles Anifeiliaid o fewn y fframwaith	38
Barn y Pwyllgor	38
Yr Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 1)	39
Yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	40
Amcan cyntaf: Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy	41
Ail amcan: Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd	42
Trydydd amcan: Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu	42
Pedwerydd amcan: Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd	43
Barn y Pwyllgor	45
Y Ddyletswydd i gyflawni Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 2)	46
Barn y Pwyllgor	47
Dangosyddion a Thargedau (Adran 4)	48
Paratoi ac adolygu dangosyddion a thargedau (Adran 5)	49
Barn y Pwyllgor	50
Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 6)	51
Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiadau (Adran 7)	52
4. Rhan 2- Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth ac ati.....	53
Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth	53
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 2 yn ei wneud	53
Trosolwg	54
Cymorth ar gyfer Gweithgareddau Ategol (Adran 8(1) ac Adran 49)	55
Ystyr "gweithgareddau ategol" (Adran 49)	56

Barn y Pwyllgor.....	57
Rhestr o Ddibenion (Adran 8).....	58
Barn y Pwyllgor.....	60
Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid, olyniaeth a chynlluniau bwyd cymunedol	60
Sefydlogrwydd incwm a diogelwch bwyd	61
Barn y Pwyllgor.....	63
Darpariaeth bellach – yn enwedig Cynlluniau Trydydd Parti (Adran 9)	64
Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth (Adran 10).....	64
Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gwirio cymhwysedd ar gyfer gymorth, ac ati (Adran 11)	65
Monitro ac Adrodd ar Gymorth (Adrannau 12-14)	65
Pennod 2 – Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall (Adrannau 15 -19)	66
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 2 Rhan 2 yn ei wneud.....	66
Cynlluniau pontio a darpariaeth 'machlud'	67
Pennod 3 – Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol.....	69
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 3 Rhan 2 yn ei wneud.....	69
Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol	71
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 4 Rhan 2 yn ei wneud.....	71
Barn y Pwyllgor.....	74
5. Rhan 3 - Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol	76
Pennod 1 – Casglu a rhannu data	76
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 3 yn ei wneud.....	76
Trosolwg.....	77

Gorfodi gofynion gwybodaeth (Adran 31)	78
Barn y Pwyllgor	79
Pennod 2 – Safonau Marchnata: Cynhyrchion amaethyddol	80
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 2 Rhan 3 yn ei wneud	80
Pennod 3 – Dosbarthiad carcasau penodol etc.	80
Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 3 Rhan 3 yn ei wneud	80
6. Rhan 4 – Coedwigaeth	83
Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 4 yn ei wneud	83
Trosolwg	84
Amodau amgylcheddol trwyddedau cwmpo coed (Adran 35)	86
Monitro ac adrodd ar effaith cydsyniadau cwmpo coed	88
Diwygio trwyddedau cwmpo coed drwy gytundeb (Adran 36)	88
Amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed (Adran 37)	89
Digollediad (Adran 38) ac Apelau (Adran 39)	90
Cosb am gwmpo coed heb drwydded (Adran 40)	90
Coetir Hynafol a Choed Hynod	90
Barn y Pwyllgor	91
7. Rhan 5 – Bywyd gwyllt	93
Trosolwg	93
Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn ei wneud	93
Trosolwg a chrynodeb o dystiolaeth	94
Maglau	96
Gwarchod ac adfer Rhywogaethau â Blaenoriaeth	97
Cefnogaeth i ddull trwyddedu dros waharddiad	98
Cynigion i ymestyn y gwaharddiad i gynnwys meddiant, gweithgynhyrchu neu werthu	101
Ymestyn y gwaharddiad i fathau eraill o drapiau	102

Geiriad darpariaethau yn adrannau 43-45	103
Diffiniad o 'fagl'	103
Cosbau	105
Barn y Pwyllgor	105
Trapiau glud	106
Awgrym o system drwyddedu amgen at ddefnydd proffesiynol	108
Barn y Pwyllgor	110
8. Rhan 6 - Cyffredinol	111
Diffiniad o amaethyddiaeth.....	112
Atodlenni	113
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	114
Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	117
Gwybodaeth ychwanegol.....	119

Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Bil hwn yn arwydd o foment bwysig i amaethyddiaeth Cymru, yr amgylchedd ac economi Cymru. Ar ôl ymadael â'r UE, dyma'r tro cyntaf i'r Senedd ystyried deddfwriaeth ar gyfer polisi amaethyddol 'a wnaed yn gyfan gwbl yng Nghymru', y bwriedir iddi bara am flynyddoedd lawer i ddod.

Mae'r Bil yn arwydd o ddull polisi newydd ar gyfer rheoli tir yn gynaliadwy, a bydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gefnogi ffermwyr o dan gynllun a ddatblygwyd yn gyfan gwbl yng Nghymru, ar gyfer Cymru.

Mae'r Bil yn ceisio deddfu ar gyfer pwerau i gefnogi ffermwyr Cymru a'u teuluoedd i aros ar y tir. Rhaid i'r cymorth hwnnw gydbwyso'r angen i ddiogelu a hyrwyddo: cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy a chadwyni cyflenwi lleol; economïau gwledig cryf a bywiog a chymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith; a thirweddau gwerthfawr Cymru, ein hamgylchedd naturiol a bioamrywiaeth, yn wyneb argyfyngau hinsawdd a natur. Bu cyfranogiad aelodau Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn gymorth mawr i waith craffu'r Pwyllgor ar y Bil. Mae eu mewnbwn amhrisiadwy i'w weld yn y cofnod o'r trafodion ac yn yr adroddiad hwn.

Bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil fframwaith hwn yn disodli cymalau yn Neddf Amaethyddiaeth y DU 2020 a ddylai ddod i ben o dan gymal 'machlud' ar ddiwedd 2024. Fodd bynnag, mae cwmpas y Bil yn arbennig o eang ac mae'n cyflwyno elfennau newydd sylweddol. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau a allai, er eu bod yn amaethyddol eu natur, fod wedi cael eu deddfu ar wahân. Mae'r Pwyllgor wedi craffu hyd eithaf ei allu ar bob agwedd ar y Bil yn yr amser sydd ar gael, gan gynnwys y darpariaethau i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud yng Nghymru, a phwerau dros drwyddedau cwmpo coed mewn coedwigoedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o ddatblygu'r Bil hwn, gyda nifer o ymgynghoriadau a phroses 'cyd-ddylunio' dros y blynyddoedd diwethaf. Felly, roedd yn syndod i'r Aelodau i ddechrau bod rhai agweddau sylfaenol ar y Bil yr oedd gan rhanddeiliaid safbwyntiau eithaf gwahanol yn eu cylch o hyd. Mae'r diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy wedi bod yn faen tramgwydd, ac

mae adroddiad y Pwyllgor hefyd yn nodi dadleuon cryf dros sut y gellid cryfhau amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y Bil, a'r rhestr o ddibenion ar gyfer cymorth. Mae anniddigrwydd ynghylch y cynnig i ganiatáu i'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' gael ei ddiwygio drwy is-ddeddfwriaeth, ac rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r agwedd hon ar y Bil.

Ymddengys bod diffyg eglurder, neu ddiffyg dealltwriaeth gan randdeiliaid, ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru gyda rhai o'r darpariaethau. Mae hyn yn arbennig o wir am gymorth ar gyfer gweithgareddau ategol a sut y gallai hyn fod o fudd i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Roedd disgwyl yn gyffredinol hefyd y byddai Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn nodwedd o'r ddeddfwriaeth hon, ac mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn nodi'n glir ei bwriadau ar gyfer y llinell sylfaen reoleiddiol ar gyfer y sector yn y dyfodol, a hefyd yn rhoi ystyriaeth bellach i les anifeiliaid yn y fframwaith ddeddfwriaethol newydd.

Roedd yn amlwg bod angen gwneud mwy o waith i fynd i'r afael â phryderon ffermwyr tenant a'r rhai sy'n ffermio ar dir comin, gan sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad llawn at y cymorth sydd ar gael o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, ac i gefnogi newydd-ddyfodiaid i'r sector. Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i'r gwaith pellach hwn.

Bydd monitro effeithiolrwydd ac effaith y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn hanfodol. Gan adlewyrchu barn rhanddeiliaid, mae'r 30 o argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynnwys rhai gwelliannau a awgrymir i ddarpariaethau adrodd y Bil, ac argymhellion i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd ynghylch darpariaethau casglu data. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru dros safonau marchnata, a chododd ein hymchwiliad gwestiynau pwysig ynghylch gwahaniaethau ar ôl ymadael a'r UE a rôl y Fframweithiau Cyffredin – rydym yn gwneud argymhelliad ynghylch asesu effaith cytundebau masnach ar sector amaethyddol Cymru.

Yng Nghyfnod 1 y broses graffu, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae'r adroddiad yn nodi, mewn perthynas â Rhan 5 y Bil, bod mwyafrif clir o'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau i wahardd defnyddio maglau, er bod cefnogaeth gan ddau Aelod i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i system drwyddedu hynod reoledig. Can ystyried yr ystod o dystiolaeth a gyflwynwyd inni, a'n 30 o argymhellion, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) hwn a'i fod yn symud ymlaen i'r ail gyfnod diwygio.

Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb sydd wedi ymwneud â gwaith craffu'r Pwyllgor ar y Bil hyd yma. Edrychwn ymlaen at ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad, ac rydym yn ei gymeradwyo i'r Senedd.

Paul Davies AS

Cadeirydd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Bod y Senedd, gan ystyried y dystiolaeth eang a gyflwynwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1 a'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

..... Tudalen 25

Argymhelliad 2. Bod y Gweinidog yn ystyried priodoldeb adran 50 sy'n caniatáu i ddiffiniadau yn y Bil gael eu diwygio gan is-ddeddfwriaeth, a pha fesurau y gellid eu cyflwyno i leddfu pryderon ynghylch y ddarpariaeth hon, gan gynnwys y cynnig am ddyletswydd i ymgynghori..... Tudalen 25

Argymhelliad 3. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad pellach – y tu hwnt i'r Opsiynau a'r Costau a'r Manteision a nodir ym Mhennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol – o'r rhesymeg dros gynnwys darpariaethau Rhannau 4 a 5 o'r Bil yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) hwn, yn hytrach na bod y darpariaethau hynny yn destun gwaith craffu mewn deddfwriaeth ar wahân..... Tudalen 25

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i sut y mae bwriad y polisi ynghylch Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael ei gyfleu i randdeiliaid fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai'r Gweinidog gadarnhau i'r Pwyllgor ei bwriadau o ran y Safonau, gan gynnwys a fydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Dylai ystyriaeth y Gweinidog gynnwys amseriad adolygiad Llywodraeth Cymru o'r llinell sylfaen reoleiddiol bresennol, a sut y caiff y llinell honno ei chyfleu i'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru, pa un a ydynt yn ffermwyr sy'n debygol o gael cymorth yn y dyfodol ai peidio.

..... Tudalen 27

Argymhelliad 5. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld y Gweinidog yn rhoi mwy o eglurder ynghylch rôl y milfeddyg fferm o ran monitro amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Bil, ac ymgynghori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid o dan y fframwaith newydd o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

..... Tudalen 27

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyflwyno cynigion penodol i fynd i'r afael â phryderon cominwyr ynghylch gorfodi a mynediad at gynlluniau cymorth, boed hynny drwy welliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 neu ymrwymadau cadarn eraill sy'n deillio o waith y gweithgor tir comin. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld y Gweinidog yn adrodd yn ôl ar y cynigion sy'n deillio o waith y grŵp hwnnw a sut y cânt eu datblygu..... Tudalen 32

Argymhelliad 7. Gwahoddir y Gweinidog i ystyried y dadleuon a nodir yn adroddiad y Pwyllgor dros newidiadau i eiriad yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Bil, ac i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, neu i nodi ei sail resymegol dros beidio â gwneud hynny.....Tudalen 39

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ystyried diwygio'r trydydd amcan yn adran 1 ar gynnwys adferiad byd natur yn fwy penodol yn y Bil, yn unol ag argymhelliad RSPB Cymru i gynnwys geiriad newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, cyn belled ag y gall y Gweinidog, ochr yn ochr â hyn, roi sicrwydd y bydd yr amcan hwn yn cysylltu'n agos â'r camau gweithredu sydd i'w cefnogi yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac yn ei barn hi na fydd newid o'r fath yn arwain at unrhyw wroddi wrth fwriad polisi'r Bil.Tudalen 45

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder ynghylch sut y bydd caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol yn cael eu cefnogi gan y Bil.....Tudalen 46

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i gryfhau'r pedwerydd amcan, fel bod pwyslais mwy penodol yn cael ei roi ar y bwriad polisi i gefnogi cymunedau gwledig cryf a ffyniannus ac i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid.Tudalen 46

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gryfhau ei ddarpariaethau ar gyfer cynnal a hybu'r Gymraeg; gall hyn gynnwys drwy ei hychwanegu at y rhestr o ddibenion yn adran 8, ac ymrwymo i gynnwys dangosyddion a thargedau penodol er mwyn mesur canlyniadau yn well.Tudalen 46

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 2 i: a) ei gwneud yn gliriach nad oes hierarchaeth i'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a bod yn rhaid eu cyflawni mewn ffordd gytbwys er mwyn cyflawni'r nodau polisi trosfwaol o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy a b) wrth ddiwygio adran 2, dylai ystyried y geiriad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyfrannu i'r eithaf ac i gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny.Tudalen 47

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer adroddiadau interim sy'n ystyried yr amser a gymerir i gyflawni amcanion gwahanol, ac ystyried hefyd a ddylid diwygio geiriad adran 6 i'w gwneud yn ofynnol i adroddiadau amlinellu pam y mae canlyniadau llwyddiannus wedi'u cyflawni, yn hytrach na dim ond pam nad ydynt wedi'u cyflawni (adran 6(4) ac adran 6(5)).Tudalen 51

Argymhelliad 14. Dylai'r Gweinidog ystyried sut mae'r amserlenni adrodd yn cyd-fynd â chylchoedd adrodd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chyflwyno unrhyw welliant angenrheidiol i adran 6 o'r Bil i gyfrif am hyn..... Tudalen 51

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i eiriad adran 7 – fel y cynigiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad – i sicrhau bod cwmpas llawn yr ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r adroddiadau ar gyflwr adnoddau naturiol (SoNaRR) wrth baratoi'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
..... Tudalen 52

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o eglurder ynghylch cwmpas y cymorth ar gyfer "gweithgaredd ategol" fel y'i diffinnir yn adran 49 o'r Bil, er budd y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amaethyddiaeth ac yn anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Dylai'r Gweinidog hefyd gadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliant/gwelliannau i eiriad adran 8(1) a/neu'r diffiniad o "weithgaredd ategol" yn adran 49, er mwyn gwella dealltwriaeth ac er mwyn osgoi amheuaeth..... Tudalen 58

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog adolygu geiriad 'gweithredu ar dir' yn adran 49 a chyflwyno unrhyw welliant angenrheidiol i osgoi unrhyw ddryswch neu faterion sy'n deillio o ddiffyg statws â deddfwriaeth berthnasol arall..... Tudalen 58

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch hepgoriadau o'r rhestr o ddibenion yn adran 8, neu ddarparu sail resymegol dros beidio â chynnwys elfennau ychwanegol..... Tudalen 60

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ystyried anghenion newydd-ddyfodiaid, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gamau eraill a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i waith y gweithgor newydd-ddyfodiaid.
..... Tudalen 61

Argymhelliad 20. Gwahoddir y Gweinidog i ystyried y dystiolaeth gan randdeiliaid i'r Bil gael ei gryfhau ymhellach i hyrwyddo garddwriaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i arallgyfeirio, ac i ystyried sut y mae amcanion y Bil yn cyd-fynd â barn rhanddeiliaid ar y Bil Bwyd (Cymru)..... Tudalen 63

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog ystyried diwygio'r Bil i gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau unrhyw Adroddiad Effaith a gaiff ei baratoi o dan adran 13 o'r Bil..... Tudalen 66

Argymhelliad 22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut yr eir i'r afael â phryderon ffermwyr tenant ynghylch y darpariaethau datrys anghydfod yn y Bil.

Dylai hyn gynnwys cadarnhau a yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwelliant/gwelliannu i Bennod 4 o'r Bil, neu fel arall ymgynghori â'r Pwyllgor ar ei sail resymegol ar gyfer dull arall. Tudalen 74

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog nodi'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch y darpariaethau casglu data yn Rhan 3 o'r Bil, a chadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'n glir yr holl reolwyr a phroseswyr ar gyfer unrhyw ddata a gesglir o dan y Bil, er mwyn sicrhau tryloywder o ran y broses ar gyfer ffermwyr. Tudalen 79

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon diwygio'r Bil i gynnwys ymrwymiad i adolygiad o weithrediad y drefn casglu data o dan ddarpariaethau'r Bil, ar ôl pum mlynedd. Tudalen 79

Argymhelliad 25. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ymrwymo Gweinidogion Cymru i gynnal asesiadau o effaith cytundebau masnach yn y dyfodol ar amaethyddiaeth Cymru. Tudalen 82

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth barhau i gydweithio ar ganllawiau a chyd-ddealltwriaeth ynghylch y pwerau newydd a nodir yn Rhan 4 o'r Bil. Tudalen 92

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n gweld yr eir i'r afael â'r materion eraill o ran rheoli coetiroedd a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, gan gynnwys mwy o amddiffyniadau i goetiroedd hynafol a choed hynod. Tudalen 92

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru weithio'n gyflym i nodi a chytuno ar y data y bydd angen eu casglu i asesu effeithiolrwydd y darpariaethau newydd yn Rhan 4 o'r Bil. Tudalen 92

Argymhelliad 29. Mae mwyafrif clir o'r Pwyllgor yn cefnogi darpariaethau Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio maglau, er bod cefnogaeth gan ddau Aelod i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i system drwyddedu hynod reoledig. Tudalen 106

Argymhelliad 30. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio trapiau glud. Tudalen 110

1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") ar 26 Medi 2022. Casglodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i lywio ei waith craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Mae Pwyllgorau eraill y Senedd hefyd wedi cynnal gwaith craffu ar agweddau ariannol a chyfansoddiadol y Bil.

1. Ar 26 Medi 2022, cyflwynodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ("y Gweinidog") y **Bil** a'r **Memorandwm Esboniadol** cysylltiedig. Cyhoeddwyd **Datganiad o Fwriad Polisi** hefyd ar gyfer y Bil. Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Medi 2022. Wrth gyflwyno'r Bil, eglurodd y Gweinidog:

"Mae'r Bil yn ganlyniad i flynyddoedd o waith polisi, cyd-ddylunio, ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Canlyniad hyn yw darn o ddeddfwriaeth uchelgeisiol a thrawsnewidiol sy'n diwygio degawdau o gymorth ffermio'r UE, gan ddatgan newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn cefnogi'r sector amaethyddol yma yng Nghymru. Dyma Fil amaethyddol cyntaf Cymru, y tro cyntaf i Lywodraeth Cymru gael cyfle i ddod â deddfwriaeth gerbron y Senedd i ddeddfu ar gyfer ein sector amaethyddol, ac yn arwyddocaol, mae'r Bil yn cynnwys diffiniad modern a chynhwysfawr o amaethyddiaeth, gan adlewyrchu amaethyddiaeth yn yr unfed ganrif ar hugain."

2. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud:

"Dyma'r fframwaith polisi cyntaf i'w wneud yng Nghymru sy'n cydnabod amcanion ategol o gefnogi ffermwyr i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, ochr yn ochr â gweithredu i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, gan gyfrannu at gymunedau gwledig ffyniannus a chadw ffermwyr ar y tir."

3. Ar 20 Medi 2022, **cytunodd** Pwyllgor Busnes y Senedd i gyfeirio'r Bil at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ("y Pwyllgor") er mwyn iddo

ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad erbyn 27 Ionawr 2023.

Cylch gorchwyl

4. Cytunodd y Pwyllgor ar ei ddull craffu ar 29 Medi. Roedd y cylch gorchwyl y cytunwyd arno yn cynnwys ystyried y canlynol:

- Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd. Wrth ddod i farn, ystyriodd y Pwyllgor y Rhannau unigol o'r Bil:
 - Rhan 1: Rheoli Tir yn Gynaliadwy
 - Rhan 2: Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth etc.
 - Rhan 3: Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol
 - Rhan 4: Coedwigaeth
 - Rhan 5: Bywyd gwyllt
 - Rhan 6: Cyffredinol
- Unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried (gan gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ac unrhyw gyfraith ryngwladol);
- Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'u nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; a
- Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Dull gweithredu'r Pwyllgor

5. Cyflwynodd y Pwyllgor alwad agored am sylwadau ar y Bil. Cynhaliwyd yr **ymgyngghoriad** am chwe wythnos, o 30 Medi i 11 Tachwedd 2022, a chyhoeddwyd 55 o ymatebion. Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol gan swyddogion

Llywodraeth Cymru ar 29 Medi, a chynhaliodd ddeg sesiwn tystiolaeth lafar. Mae rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ar gael yn Atodiad A, ac mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael yn Atodiad B. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ddarparu tystiolaeth a briffio i'r Aelodau i lywio eu gwaith craffu.

Trafodaethau Pwyllgorau eraill ar y Bil

6. Mynegodd aelodau Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y gwaith craffu ar y Bil, a buont mewn sesiynau craffu yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

7. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Gweinidog ar **9 Tachwedd**. Yn dilyn y sesiwn hon, aeth y Gweinidog ati i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid, a **ddaeth i law** ar 8 Rhagfyr. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar y Bil erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 27 Ionawr 2023.

8. Trafododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a swyddogion ar **21 Tachwedd** ac **ysgrifennodd** at y Gweinidog gyda chwestiynau dilynol, ac yn gofyn am **ymateb** erbyn 8 Rhagfyr. Rhoddir ystyriaeth i ymateb y Gweinidog yn yr adroddiad hwn. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad ar y Bil erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 27 Ionawr 2023.

2. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

Cefndir y Bil

9. Cyn y Bil cafwyd nifer o ymgynghoriadau a Phapur Gwyn, ac mae wedi bod yn destun proses gydgyllunio gyda rhanddeiliaid cyn ei gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu cynigion ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol ers refferendwm yr UE. Cyhoeddodd ddau ymgynghoriad: **Brexit a'n Tir (2018)** a **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir (2019)**. Arweiniodd hyn at **Bapur Gwyn** ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ym mis Rhagfyr 2020, i osod fframwaith cymorth ar gyfer y 15-20 mlynedd nesaf. Cafodd crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad i'r Papur Gwyn, casgliadau'r gwaith cyd-ddylunio ac ymateb polisi Llywodraeth Cymru eu cyhoeddi ar **21 Medi 2021**.

Trosolwg o'r Bil

10. I grynhoi, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer y canlynol:

- Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac mae hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch cymorth ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru neu mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth yng Nghymru;
- Caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau cymorth amaethyddol i ffermwyr yn ystod cyfnod pontio (nodir cynigion polisi ynghylch pontio yng nghyhoeddiad y **Cynllun Ffermio Cynaliadwy**);
- Diwygio **Deddf Daliadau Amaethyddol 1986** i ddarparu llwybr i denantiaid i ddatrys anghydfod mewn rhai amgylchiadau;
- Disodli'r pwerau amser cyfyngedig a gymerwyd ar gyfer Gweinidogion Cymru yn Atodlen 5 i **Ddeddf Amaethyddiaeth 2020**, sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2024;
- Diwygio **Deddf Coedwigaeth 1967** i roi pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru ychwanegu amodau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed er mwyn atal cwmpo coed a fyddai'n gwrth-ddweud deddfwriaeth amgylcheddol arall; a
- Gwahardd defnyddio maglau a thrapiau glud.

Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

- 11.** Nodir diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddo ei chael ar dudalennau 10-12 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae'n nodi'r cyfraniad pwysig y mae ffermwyr Cymru yn ei wneud i'r economi, yr amgylchedd naturiol a'n cymunedau gwledig drwy weithio eu tir.
- 12.** Mae'r Memorandwm yn nodi goblygiadau gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a fframwaith ariannu a rheoleiddio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, a sut mae hyn yn cyflwyno cyfle i "greu polisi amaethyddol sy'n adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd unigryw sy'n benodol i Gymru". Mae'r Memorandwm yn nodi sut mae'r heriau newydd sy'n wynebu Cymru, y DU ac Ewrop wedi golygu bod cefnogaeth i amaethyddiaeth yn gynyddol gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae hefyd yn tynnu sylw at siociau diweddar i'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth o ganlyniad i COVID-19, yr argyfyngau dosbarthu a'r rhyfel yn Wcráin, gan dynnu sylw at bwysigrwydd cadwyni cyflenwi gwydn a bwyd a gynhyrchir yn lleol.
- 13.** Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl allweddol y sector amaethyddiaeth i gyfansoddiad diwylliannol a chymdeithasol Cymru, ac wrth helpu i gyflawni nodau llesiant, newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd cyrraedd targedau lleihau allyriadau Cymru "yn mynnu mwy o ymdrech gan bob sector allyriadau, gan gynnwys amaethyddiaeth." Mae'n egluro rôl y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig sydd â'r nod o "wobrwyo ffermwyr am ddarparu ystod o ganlyniadau a hynny yn sgil ac yr un pryd â chynhyrchu bwyd":
- "Mae diwygio amaethyddiaeth ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn heriau hir dymor. Mae sector amaeth cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau heddiw ac yfory'n allweddol er mwyn cyflawni ein hymrwymiad i sicrhau Cymru sero net erbyn 2050 ac i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn hanfodol i gyflawni'r nodau hyn, ac yn pennu cyfeiriad ein polisi am y pymtheg i ugain mlynedd nesaf."*
- 14.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru feddwl yn fwy hirdymor, a bod yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r saith Nod Llesiant yn y Ddeddf yn darparu "fframwaith i'r Llywodraeth allu gwneud penderfyniadau y bydd yn rhaid i'n hagwedd newydd at reoli tir eu hadlewyrchu."

Yr angen am ddeddfwriaeth

- 15.** Fel yr amlinellwyd uchod, bydd y Bil yn disodli'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer polisi a chymorth amaethyddol y DU ers ymadael â'r UE, sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn Neddf Amaethyddiaeth 2020. Mae'r Bil yn gosod fframwaith polisi a chyfeiriad teithio newydd, ar gyfer dull 'gwnaed yng Nghymru' o roi cymorth yn y dyfodol i'r sector amaethyddiaeth a bwyd-amaeth.
- 16.** Roedd ymadael â'r UE yn golygu gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Er mwyn caniatáu i daliadau i ffermwyr barhau ar ôl 2020, rhoddodd y Senedd ganiatâd i'r Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 gynnal (ac addasu) y system Polisi Amaethyddol Cyffredin yng Nghymru. Mae hyn wedi cadw'r *status quo* i raddau helaeth cyn trosglwyddo i gynlluniau'r dyfodol. Nid yw Deddf Amaethyddiaeth 2020 yn cynnwys pwerau ar gyfer cynlluniau cymorth newydd i Gymru.
- 17.** Mae Deddf Amaethyddiaeth 2020 hefyd yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol; wrth gasglu a rhannu data; o ran safonau marchnata a dosbarthu carcasau; a diogelu data. Pwerau trosiannol yw'r rhain, sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, yn ddarostyngedig i gymal machlud, a byddant yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2024.
- 18.** Felly, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Bapur Gwyn ar gyfer y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ar ddiwedd 2020, a chrynodeb o ymatebion ac ymateb polisi Llywodraeth Cymru yn 2021. Mae'r Bil fframwaith sy'n deillio o hynny yn sefydlu pwerau galluogi lefel uchel i Weinidogion Cymru. Mae'n disodli Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 y DU ac yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth (gan gynnwys o dan gynllun), gan ganiatáu pontio o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Bil hefyd yn sefydlu prosesau datrys anghydfod i denantiaid amaethyddol i'w galluogi i gael cymorth gan y cynllun(iau) newydd i Gymru.
- 19.** Fel y nodir yn yr adran trosolwg uchod, mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer diwygiadau i Ddeddf Coedwigaeth 1967, gan roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwmpo coed, a galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau; a diwygio Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 i wahardd defnyddio maglau (a chyfyngiadau cebl eraill) a thrapiau glud.
- 20.** Mae'r Bil wedi'i groesawu gan yr undebau ffermio fel cyfle unwaith mewn cenhedlaeth ar gyfer polisi 'a wnaed yng Nghymru', a chan sefydliadau amgylcheddol fel yr ased unigol mwyaf arwyddocaol y bydd gan y Chweched

Senedd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur¹. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn dweud ei bod yn anodd gorbwysleisio'r angen am ddiwygio brys er mwyn yr economi wledig, diwylliant Cymru a'r amgylchedd. Mae Cynghair Gweithwyr Tir Cymru yn croesawu'r cyfeiriad teithio cyffredinol: mae'n hen bryd i ffermwyr gael eu gwobrwyo ar sail sut y maent yn ffermio; nid dim ond faint o dir sydd ganddynt.²

Cwmpas a hygyrchedd y ddeddfwriaeth

21. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn egluro mai amcan polisi cyffredinol y Bil yw *"rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru roi egwyddorion SLM ar waith a'u cefnogi, drwy bwerau i gefnogi'r sector amaethyddol trwy gynllun neu gynlluniau cymorth, neu fathau eraill o gymorth."* (Tudalen 13 o'r Memorandwm). Mae paragraff 3.20 yn nodi'r cynigion i gyflawni hyn, sydd wedi'u cynnwys yn Rhannau 1-3 a 6 o'r Bil. Mae paragraff 3.21 o'r Memorandwm Esboniadol yn mynd ymlaen i egluro y *"bydd y Bil hefyd yn diwygio deddfwriaethau eraill sy'n ymwneud â thenantiaethau amaethyddol, Coedwigaeth, Maglau a Thrapiau Glud"*, ac yn manylu ar y darpariaethau hynny sydd yn Rhannau 4 (Coedwigaeth) a 5 (Bywyd Gwyllt) o'r Bil. Er y gellir dadlau bod y darpariaethau olaf hyn yn rhai 'amaethyddol' eu natur, nid ydynt yn ganolog i ddarparu cymorth i'r sector, ond mae'r Bil yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng deddfwriaethol i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas â thrwyddedau cwmpo coed³, ac i fodloni ymrwymiad y **Rhaglen Lywodraethu** i wahardd maglau.

22. Mae'r Bil felly yn Fil Fframwaith gyda manylion cyfyngedig ar wyneb y Bil ynglŷn â sut y bydd y pwerau i ddarparu cymorth yn cael eu harfer. I gyd-fynd ag agwedd cymorth amaethyddol y Bil mae cynigion cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sy'n destun cyd-ddylunio, ond lle rydym yn dal i aros am ragor o fanylion. Gellir dadlau y gallai'r darpariaethau yn Rhannau 4 a 5, sydd wedi ennyn llawer o ddiddordeb, fod wedi cael eu datblygu ar wahân i'r Bil fframwaith hwn a bod yn destun gwaith craffu ar wahân. Mae'r Pwyllgor wedi gorfod cydbwysu'n ofalus yr amser sydd ar gael i graffu ar bob agwedd ar egwyddorion cyffredinol y Bil hwn yng Nghyfnod 1.

23. Enw byr y Bil yw'r 'Bil Amaethyddiaeth (Cymru)' ac mae'r diffiniad o amaethyddiaeth wedi'i nodi yn adran 48 o'r Bil. Fodd bynnag, mae adran 50 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad hwnnw drwy reoliad. Felly gallai holl gwmpas y Bil fframwaith hwn ar gyfer polisi amaethyddiaeth Cymru

¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 352-362

gael ei newid gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol drwy is-ddeddfwriaeth. Ni waeth beth fo barn rhanddeiliaid ar y diffiniad presennol yn adran 48 fel y'i drafftiiwyd, mynegodd rhanddeiliaid bryderon cryf ynghylch priodoldeb y diffiniad hwn o "amaethyddiaeth" yn cael ei ddiwygio gan is-ddeddfwriaeth. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr y dylai fod dyletswydd i ymgynghori ar adran 50⁴, a dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru:

*"any amendment to the definition of agriculture must be subject to intense scrutiny in order to ensure that genuine active farmers are not excluded and that peripheral activities are not encompassed in a manner which would reduce the funding available for grass roots farming activities and food production."*⁵

24. Cyfiawnhaodd y Gweinidog y ddarpariaeth yn adran 50 i ganiatáu ar gyfer arloesi. Dywedodd wrth y Pwyllgor, gan y cred y bydd y Bil hwn yma am o leiaf gwpl o ddegawdau, ei bod yn bwysig iawn diogelu'r Bil at y dyfodol, ac y gellir addasu yn ogystal â myfyrio ar unrhyw newidiadau a gyflwynir, yn arbennig ym maes technoleg, gan fod y maes hwnnw'n symud mor gyflym bob amser.⁶

25. Mae hefyd yn bwysig ystyried hygyrchedd y Bil hwn, gan ei fod yn cynnwys nifer o bwerau gwneud is-ddeddfwriaeth ar draws ystod o feysydd polisi, gan gynnwys galluogi diwygio deddfwriaeth hŷn, iaith Saesneg yn unig. Byddai angen i ddarllenydd sy'n nodi'r Bil ar ôl Cydsyniad Brenhinol hefyd gyfeirio at is-ddeddfwriaeth amrywiol, deddfwriaeth tenantiaeth amaethyddol, deddfwriaeth coedwigaeth, deddfwriaeth bywyd gwyllt a chefn gwlad, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, darpariaeth ar safonau gofynnol cenedlaethol, deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, a mwy. Er bod angen clir am Fil i ddarparu ar gyfer cymorth amaethyddiaeth yng Nghymru, ac i ganiatáu ar gyfer is-ddeddfwriaeth angenrheidiol yn deillio ohono, mae'n werth nodi hygyrchedd y Bil, a'r deddfwriaeth ehangach yn y maes hwn.

26. Ymatebodd y Gweinidog i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y pwynt hwn, gan ddweud:

"Mae'r Bil yn diwygio rhai trefniadau statudol sydd wedi hen ennill eu plwyf, fel y rhai yn Neddf Coedwigaeth 1967 a Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Byddai ceisio cyflawni'r polisi

⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR38 (Saesneg yn unig)

⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 177

*trwy ddarpariaethau annibynnol mewn Mesur Senedd Cymru
wedi arwain at broblemau hygyrchedd a chymhlethdod
diangen.”⁷*

Barn y Pwyllgor

27. Mae'r Pwyllgor yn croesawu dull Llywodraeth Cymru o ddatblygu fframwaith polisi amaethyddiaeth newydd 'Gwnaed yng Nghymru' mewn ymgynghoriad agos â rhanddeiliaid. Mae'n werth nodi, er y broses 'gyd-ddylunio' hon, bod rhai agweddau eithaf sylfaenol ar y Bil o hyd lle nad yw'r undebau ffermio a sefydliadau amgylcheddol yn cytuno, yn enwedig ynghylch diffiniad ac amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae safbwyntiau'r ddwy ochr yn ddilys ac yn bwysig i'w hystyried, wedi'u hysgogi fel ag y maent gan awydd am fframwaith polisi cadarn sy'n cyflawni i bawb.

28. Mae'r gallu i ddiwygio'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' drwy reoliad, o dan adran 50, yn codi pryderon ynghylch cwmpas yn y dyfodol, a rôl rhanddeiliaid a'r Senedd o ran craffu ar gamau gweithredu Gweinidogion Cymru yn y dyfodol. Mae'n arbennig o berthnasol wrth ystyried mai Bil fframwaith ydyw, gyda'r bwriad o roi pwerau i ddarparu cymorth amaethyddol am flynyddoedd lawer i ddod. Anogir y Gweinidog i ystyried y pryderon hyn a sut y gellir eu lleddfu, gan gynnwys drwy ystyried cynnig Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ar gyfer dyletswydd i ymgynghori.

29. Codwyd materion o ran diffyg eglurder ynghylch rhai agweddau ar y Bil, megis y darpariaethau ar gyfer gwahanol fathau o denantiaethau amaethyddol ac a yw'r Bil yn cydraddoli'r darpariaethau. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymgysylltiad uniongyrchol Llywodraeth Cymru â ffermwyr tenant, newydd-ddyfodiaid, a chominwyr, i fynd i'r afael â'u pryderon penodol.

30. Mae pryderon y diwydiant coedwigaeth ynghylch sut y bydd y pwerau yn Rhan 4 o'r Bil yn cael eu gweithredu gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn bwysig i'w nodi, a bydd deialog barhaus gyda'r sector coedwigaeth yn hollbwysig. Mae'r Pwyllgor wedi nodi awgrymiadau nad yw'r holl ddarpariaethau coedwigaeth arfaethedig yn cael eu hystyried yn angenrheidiol nac yn ddefnyddiol, a hefyd bod y Rhan hon o'r Bil wedi denu galwadau am ehangu'r cwmpas, er enghraifft i gydnabod yr angen am 'ddiogelwch coed' ochr yn ochr â 'sicrwydd bwyd' ac i edrych ar amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol a choed hynod.

⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022, Papur 28

31. Mae Rhan 5 o'r Bil – ar wahardd y defnydd o faglau a thrapiau glud – wedi denu safbwyntiau cryf o blaid ac yn erbyn. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y rhan hon o'r Bil wedi bod yn destun gwaith drafftio gofalus iawn, ac mae'r Pwyllgor yn yr un modd wedi rhoi ystyriaeth ofalus iawn i bwysau a chydbwysedd y dystiolaeth a ddaeth i law. Mae gan yr Aelodau farn wahanol ar y darpariaethau yn y rhan hon o'r Bil, ond mae'r adroddiad Cyfnod 1 hwn yn ceisio cyflwyno ystyriaeth deg a chytbwys o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn yr amser sydd ar gael, a gwneud argymhellion pendant yn seiliedig ar hynny.

Argymhelliad 1. Bod y Senedd, gan ystyried y dystiolaeth eang a gyflwynwyd i ni fel rhan o'n gwaith craffu yng Nghyfnod 1 a'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn, yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Argymhelliad 2. Bod y Gweinidog yn ystyried priodoldeb adran 50 sy'n caniatáu i ddiffiniadau yn y Bil gael eu diwygio gan is-ddeddfwriaeth, a pha fesurau y gellid eu cyflwyno i leddfu pryderon ynghylch y ddarpariaeth hon, gan gynnwys y cynnig am ddyletswydd i ymgynghori.

Argymhelliad 3. Bod y Gweinidog yn rhoi eglurhad pellach – y tu hwnt i'r Opsiynau a'r Costau a'r Manteision a nodir ym Mhennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol – o'r rhesymeg dros gynnwys darpariaethau Rhannau 4 a 5 o'r Bil yn y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) hwn, yn hytrach na bod y darpariaethau hynny yn destun gwaith craffu mewn deddfwriaeth ar wahân.

Safonau Gofynnol Cenedlaethol

32. Cafwyd galwadau cryf gan randdeiliaid am i Safonau Gofynnol Cenedlaethol, yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn, gael eu cyflwyno o dan y Bil neu ar yr un pryd ag ef, i fod yn sail i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy y bydd y pwerau yn y Bil yn cael eu rheoleiddio ar eu cyfer. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cydgrynhoi'r linell sylfaen reoleiddiol (h.y. y Safonau Gofynnol Cenedlaethol) yn ddiweddarach yn hytrach na defnyddio'r Bil. Bydd y Safonau yn ffurfio'r mesurau sylfaenol, y bydd ffermwyr yn cael eu gwobrwyo am ragori arnynt drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

33. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth sylweddol ar y pwynt hwn, a chodwyd y mater gyda'r Gweinidog. Roedd amgylcheddwyr, undebau ffermio, RSPCA Cymru, ac academyddion o'r farn bod risg pe na bai'r Safonau ar waith mewn pryd ar gyfer lansiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy os bydd angen deddfwriaeth bellach. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru a Coed Cadw yn argymhell gosod dyletswydd yn y Bil hwn i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno'r Safonau mewn pryd ar

gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ym mis Ionawr 2025. Roedd rhanddeiliaid amgylcheddol, yr undebau ffermio, a Chymdeithas Milfeddygon Prydain i gyd yn galw am ymgynghoriad ystyrlon ar ddatblygu'r Safonau. Cred Cymdeithas Milfeddygon Prydain y dylai milfeddygon, fel arbenigwyr mewn iechyd a lles anifeiliaid ac eiriolwyr y syniad 'o'r fferm i'r fforc', fod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn lleihau'r risg o niwed i les anifeiliaid ac yn sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu diogelu'n briodol.⁸ Pwysleisiodd y Gymdeithas hefyd rôl bwysig y milfeddyg o ran monitro a chyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Bil.

34. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

*"The absence of any commitment in the Bill to regulatory reform (introduction of National Minimum Standards and Civil Sanctions) as outlined in the White Paper is likely to place additional burdens on current financial and regulatory tools to secure essential outcomes required to deliver against the Climate and Nature Emergencies that have been declared in Wales."*⁹

35. Eglurodd y Gweinidog nad oedd Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn rhan o'r Bil hwn ac nad oedd y pwynt allweddol yn y Papur Gwyn ar Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ymwneud â chyflwyno safonau newydd, ond ynghylch ymarfer cydgrynhoi ar gyfer y llinell sylfaen reoleiddiol bresennol. Dywedodd y gofynnwyd i swyddogion edrych i weld a oedd angen pwerau sylfaenol drwy Safonau Gofynnol Cenedlaethol neu sancsiynau sifil, ond yr hyn yr oedd ei angen oedd cyfleu'r llinell sylfaen reoleiddiol bresennol yn well a sicrhau bod ffermwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau. Ar 16 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

"National minimum standards already exist within lots of, well, numerous regulations, I would say, and so we've got that regulatory baseline for all farmers in Wales, not only those who are participating in a scheme. I appreciate concerns that NMS do not form part of this Bill. I have asked officials to consider whether further primary powers are required for Welsh Ministers to appropriately regulate the agriculture environment in the

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR04 (Saesneg yn unig)

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

future through either NMS or civil sanctions. So, officials are looking to see if we do need further primary powers.”¹⁰

36. Ymddangosodd y Gweinidog hefyd gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 21 Tachwedd, a dywedodd wrth yr Aelodau y gallai'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol gael eu cyflwyno o bosibl mewn deddfwriaeth sylfaenol ar amaethyddiaeth yn y dyfodol pe bai'n cael ei asesu bod angen deddfwriaeth o'r fath.¹¹

Barn y Pwyllgor

37. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r lefel uchel o ddisgwyliad gan randdeiliaid y dylid cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol ochr yn ochr ag unrhyw gynllun cymorth amaethyddol newydd yng Nghymru, er mwyn helpu i'w gyflawni. Er bod yr Aelodau'n cydnabod safbwynt y Gweinidog ar y pwynt hwn, ymddengys bod diffyg eglurder ac efallai rhywfaint o gamddealltwriaeth ymhlith rhanddeiliaid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi, ar gyfer ffermwyr sy'n dewis peidio â defnyddio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn y dyfodol fel y cynllun i gymryd lle Cynllun y Taliad Sylfaenol, beth fydd y gosb, felly, am beidio â chydymffurfio â'r llinell sylfaen reoleiddiol? Tra bod rheoliadau fel Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 er enghraifft, yn rhan o'r gofynion trawsgydymffurfio presennol, a bod cosbau ynghlwm wrthynt am beidio â chydymffurfio, nid yw diffyg eglurder ynghylch canlyniadau peidio â chydymffurfio â safonau amgylcheddol yn y dyfodol yn ddefnyddiol.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i sut y mae bwriad y polisi ynghylch Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael ei gyfleu i randdeiliaid fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Dylai'r Gweinidog gadarnhau i'r Pwyllgor ei bwriadau o ran y Safonau, gan gynnwys a fydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Dylai ystyriaeth y Gweinidog gynnwys amseriad adolygiad Llywodraeth Cymru o'r llinell sylfaen reoleiddiol bresennol, a sut y caiff y llinell honno ei chyfleu i'r sector amaethyddiaeth yng Nghymru, pa un a ydynt yn ffermwyr sy'n debygol o gael cymorth yn y dyfodol ai peidio.

Argymhelliad 5. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gweld y Gweinidog yn rhoi mwy o eglurder ynghylch rôl y milfeddyg fferm o ran monitro amcanion Rheoli Tir yn Cynaliadwy yn y Bil, ac ymgynghori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid o dan y fframwaith newydd o ran Rheoli Tir yn Cynaliadwy.

¹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 339

¹¹ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 21 Tachwedd 2022, paragraffau 176-184

Rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ac Ymwahanu

38. O ystyried natur gydgyssylltiedig y diwydiant bwyd a ffermio a'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth yn y DU, roedd pwysigrwydd mecanweithiau cydgysylltu â gwledydd eraill y DU, gan gynnwys mewn perthynas â safonau ac amddiffyniadau ar gyfer y sector amaethyddol, hefyd yn thema gref a ddaeth i'r amlwg o waith craffu'r Pwyllgor.

39. Gall darpariaethau penodol yn y Bil gynnwys Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, a sefydlodd reolau newydd ar gyfer rheoleiddio nwyddau ledled y DU. Sefydlodd yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol. Mae hyn yn darparu, os yw nwydd yn cydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â'i werthu yn y rhan o'r DU lle cafodd ei gynhyrchu neu ei fewnforio, y gellir ei werthu mewn unrhyw ran arall o'r DU heb orfod bodloni'r safonau yn y rhannau eraill hynny, hyd yn oed os ydynt yn wahanol.

40. Gall hyn fod yn berthnasol mewn perthynas ag adran 32 o'r Bil sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch safonau marchnata (gan gynnwys gofynion labelu) ar gyfer cynhyrchion amaethyddol. Er enghraifft, pe bai rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol, yn ddamcaniaethol, i wyau a werthir yng Nghymru gael eu stampio, ond na osodwyd unrhyw gyfyngiad cyfatebol ar fusnesau yn Lloegr, byddai Deddf Marchnad Fewnol y DU yn caniatáu i wyau heb eu stampio o Loegr gael eu gwerthu'n gyfreithlon yng Nghymru. At hynny, gall unrhyw wahaniaethau yn nosbarthiadau carcasau rhwng Cymru a gweddill y DU o dan adran 33 o'r Bil hefyd gynnwys yr egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol.

41. Cododd yr undebau ffermio y mater o wahaniaethau mewnol o ran safonau a rôl Deddf Marchnad Fewnol 2020. Dywedodd Huw Thomas o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru:

"Obviously, Welsh Ministers can increase standards here....but, of course, products produced elsewhere, perhaps to lower standards in some of the other home nations, can still come in and they won't be able to prevent that happening. So, we could be undermined from within the home nations, but, of course, as has been said, with imports coming in as well. Once imports enter the UK, they will be in free circulation and Welsh Ministers won't be able to keep them out despite insisting on higher standards, perhaps, for our own domestic producers. So, it's just worth being mindful of that—as proud as we are of the

standards, producing to that standard is something that can be undermined by actions taken elsewhere.”¹²

42. Cododd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad hefyd y mater o sut y byddai Deddf Marchnad Fewnol 2020 yn effeithio ar effeithiolrwydd darpariaethau’r Bil. Dyma ymateb y Gweinidog:

“Bydd Cymru’n cael llunio ei safonau ei hun y mae’n rhaid i’r cynhyrchion amaethyddol a restrir yn atodlen 1 i Ddeddf Marchnad Fewnol y DU gydymffurfio â nhw pan gânt eu marchnata yng Nghymru, a chategoreiddio, adnabod a chyflwyno carcasau gwartheg, moch a defaid. Yn yr un modd, bydd gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon y pŵer i wneud eu darpariaethau eu hunain yn y materion hyn.

Fel sy’n wir o ran Bil Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru), rydym yn glir bod Senedd Cymru’n cael deddfu heb orfod ystyried gofynion UKIMA. Felly, bydd y safonau ar gynhyrchion amaethyddol sy’n cael eu marchnata yng Nghymru’n berthnasol waeth o ble yn y DU y daw’r cynhyrchion hynny.”¹³

43. Nododd yr undebau ffermio bwysigrwydd peidio â chael gormod o wahaniaethau mewn polisiau a rôl hanfodol y Fframweithiau Cyffredin i osgoi gwrthdaro trawsffiniol tra’n parchu polisi datganoledig. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ei bod yn bwysig bod ffermydd trawsffiniol yn cael eu cynnwys hefyd. Ar ddechrau gwaith craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor dywedodd y Gweinidog nad oedd yn credu y byddai gwahaniaethau mewn polisiau ledled y DU - roedd gwledydd yn cyd-fynd â mesurau amgylcheddol - er iddi nodi newid cyfeiriad posibl yn Lloegr yn ei sesiwn dystiolaeth gyntaf ar 5 Hydref. Dywedodd Dr Dobbs wrth y Pwyllgor y bydd gwahaniaeth rheoleiddiol ar ryw adeg¹⁴, a dywedodd Dr Petetin mai’r hyn yr oedd busnesau am ei gael oedd safonau tebyg er mwyn masnachu’n haws, ond tynnodd sylw at feysydd fel golygu genynnau a’r Bil bridio manwl arfaethedig yn Lloegr.¹⁵ Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd y Fframweithiau Cyffredin ar gyfer safonau marchnata oherwydd natur integredig y cyflenwad bwyd.¹⁶ O ran ymyrraeth yn y farchnad, nododd y Gweinidog rôl grŵp

¹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraff 97

¹³ LJC633-22 – 12 Rhagfyr 2022 – Papur 28 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

¹⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 322

¹⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 324

¹⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 114

monitro marchnad amaethyddiaeth y DU a'r grŵp cydweithredu polisi a dywedodd fod y mecanweithiau hyn wedi'u profi ac wedi gweithio'n dda yn ystod y pandemig.

44. Tynnodd yr academyddion a roddodd dystiolaeth sylw at y diffyg tryloywder gyda'r Fframweithiau Cyffredin, a'r gweithgorau lluosog sy'n gweithredu oddi tanynt, gydag ychydig iawn o ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn broblem. Dywedodd Dr Dobbs na fyddai ymrwymiad unochrog yn ymwneud â mecanwaith cydgysylltu yn ddefnyddiol, ond awgrymodd efallai y dylid cynnwys cyfeiriad at yr ymrwymïadau o dan fframweithiau cyffredin i ymgysylltu ac ymgynghori.¹⁷

Cynnwys asesiadau o effaith ar hawliau dynol ac ar gydraddoldeb

45. Gall darpariaethau'r Bil ddefnyddio dwy hawl berthnasol a sefydlwyd gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, sydd wedi'u hymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sef: Erthygl 8 (parch at fywyd preifat a theuluol) ac Erthygl 1, Protocol 1 (gwarchod eiddo). Gallai'r darpariaethau yn y Bil sy'n cynnwys pwerau mynediad, a phwerau i ofyn am wybodaeth neu ddogfennau gynnwys Erthygl 8. Caiff y darpariaethau sy'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed, a thenantiaethau amaethyddol, i gyd gynnwys Erthygl 1, Protocol 1 (A1P1).

46. Nid yw Memorandwm Esboniadol y Bil yn trafod hawliau dynol yn fanwl, ac eithrio sôn yn fyr am A1P1 yng nghyd-destun iawndal am ddirymu neu ddiwygio trwydded cwmpo coed a roddwyd eisoes. Nid oedd yn glir i'r Pwyllgor i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wrth ddrafftio'r Bil. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd o fod yn hollol hyderus bod cymalau'r Bil yn cydymffurfio â hawliau'r confensiwn, a dywedodd eu bod yn angenrheidiol iawn, yn dilyn nod cyfreithlon ac yn gymesur. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at yr asesiad effaith integredig llawn, gan gynnwys yr effaith ar hawliau'r plentyn, cydraddoldeb a hawliau dynol, ond mewn ymateb i gwestiwn ar gyllidebu ar sail rhywedd, ni chredai fod asesiad llawn o'r effaith ar sail rhywedd wedi'i wneud.¹⁸

Diwygio Tir Comin

47. Mae cynrychiolwyr tir comin yn poeni'n fawr am fynediad at gynlluniau yn y dyfodol ac yn ystyried y Bil yn gyfle wedi'i golli.¹⁹ Cydnabu'r undebau ffermio y

¹⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 313-317

¹⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraffau 169-172

¹⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraffau 341-346

problem a dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru y byddai'n darparu rhagor o fanylion mewn ymateb i ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.²⁰ Mae tystion yn pwysleisio bod tir comin yn cyfrif am o leiaf 10 y cant o fâs tir Cymru, ond mai dyma 'berthynas dlawd' y byd amaeth. Dywedodd Eleanor Jarrold o Gymdeithas Cominwyr Mynydd Eglwysilan Mynydd Meio a Chraig-Evan-Leyshon wrth yr Aelodau:

*"I want the common land of the country, but certainly the common land of south Wales, to be in situ, to be environmentally friendly, to be accessible for my, dare I say it, great-grandchildren. And surely, that's what this is all about; it's looking to the future."*²¹

48. O dan Cynllun y Taliad Sylfaenol mae hawlwyr yn cael eu trin fel unigolion wrth wneud eu cais. Fodd bynnag, o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, byddai ffermwyr yn dibynnu ar eraill yn ffermio'r tir hwnnw i gyflawni'r camau gweithredu ar y cyd, ac felly'r taliadau. Dywedodd fod cyfle i rai elfennau wrthod mynediad i gynlluniau ac yna pawb ar eu colled o'r budd hwnnw²². Codwyd yr angen am strwythur llywodraethu gwell. Awgrymwyd y gallai'r Bil rymuso hwylusydd allanol i ddod â phobl at ei gilydd a'u dwyn i gyfrif o ran cytundebau.²³

49. Dywedodd tystion nad yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn addas ar gyfer ffermwyr tir comin sydd â hawliau pori yn unig ar y tir comin, gan na fyddent yn gallu cyflawni'r camau cyffredinol angenrheidiol i gael cymorth. Roedd yr Aelodau'n croesawu'r Gweinidog yn cadarnhau ar 16 Tachwedd bod gweithgor tir comin wedi'i sefydlu a'u bod am gael sicrwydd y byddai'n cynnwys tîrfeddianwyr. Yn dilyn hynny, cadarnhaodd y Gweinidog fod gwahoddiadau wedi'u rhoi i amrywiaeth o randdeiliaid sydd â diddordeb ac arbenigedd mewn gweinyddu rhaglenni amaethyddol ar dir comin, gan gynnwys yr undebau ffermio a rhai cymdeithasau tiroedd comin unigol, i sicrhau mewnbwn uniongyrchol gan borwyr.

50. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r grŵp i ddechrau yn ystyried yr elfennau gweinyddol o weithio gyda phorwyr unigol a grwpiau o borwyr sydd â hawliau pori, ac sy'n dibynnu ar dir comin, a byddai cylch gwaith manylach yn cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid ychwanegol yn cael eu gwahodd wrth i'r gweithgor

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

²¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 345

²² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 322

²³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 323

fynd rhagddo, os canfu Llywodraeth Cymru nad oedd yr holl fuddiannau perthnasol yn cael eu cynrychioli.

51. Ychwanegodd y Gweinidog mai diben y gweithgorau oedd archwilio'r cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n cael eu datblygu a'r berthynas â thir comin, i sicrhau bod y Cynllun yn ymarferol ac yn hygyrch, a bydd allbwn yn cael ei ddefnyddio i fireinio cynigion y Cynllun mewn pryd ar gyfer yr ymgynghoriad terfynol ar y cynllun yn 2023.

52. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau ar 16 Tachwedd ei bod yn gobeithio y byddai'n llywio a oes angen i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw beth pwrpasol a pha hyblygrwydd y maent yn meddwl y bydd ei angen arnynt. Dywedodd ar gyfer cominwyr sydd â hawliau pori yn unig na fydd hynny'n rhwystr iddynt gael mynediad at gymorth, ond cydnabu fod llawer o gymhlethdodau.²⁴ Hyd nes y gellir mynd i'r afael â rhwystrau i gydweithredu, gan gynnwys bod yn glir pwy sy'n cymryd cyfrifoldeb dros orfodi, yna ni fydd rhai materion tir comin anhydrin yn cael eu datrys. Nododd yr Aelodau y dylai fod lle ar y gweithgor hwnnw nid yn unig i ffermwyr ond hefyd i fyrddau cadwraethwyr sy'n cynrychioli perchnogion hanesyddol a allai fod yn hollbwysig i oresgyn y cyfyngder hwn. Er bod gweithgor i lywio datblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy i'w groesawu, mae'n anffodus na ddechreuwyd ar y gwaith hwn yn gynharach er mwyn llywio gwaith datblygu'r fframwaith polisi yn y Bil ei hun.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyflwyno cynigion penodol i fynd i'r afael â phryderon cominwyr ynghylch gorfodi a mynediad at gynlluniau cymorth, boed hynny drwy welliannau i'r Bil yng Nghyfnod 2 neu ymrwymadau cadarn eraill sy'n deillio o waith y gweithgor tir comin. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld y Gweinidog yn adrodd yn ôl ar y cynigion sy'n deillio o waith y grŵp hwnnw a sut y cânt eu datblygu.

Ynni adnewyddadwy

53. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn siomedig bod y ffocws ar gyfraniad ffermwyr yn y maes hwn yn ddiffygiol, er bod cynyddu ynni adnewyddadwy yn 'Flaenoriaeth Genedlaethol' yn y Polisi Adnoddau Naturiol ochr yn ochr â'r nod sero net. Dywedodd y dylai cynlluniau cymorth yn y dyfodol archwilio'r potensial ar gyfer ynni adnewyddadwy ar ardaloedd tir anghyngyrrchriol, toeau adeiladau diwydiannol, siediau fferm neu bob datblygiad adeiladu newydd.²⁵ Darparodd Solar Energy UK dystiolaeth hefyd ar sut y gallai technolegau solar helpu i gyflawni

²⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 290

²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chefnogi hyfywedd y sector amaethyddol.²⁶ Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y cyfle pwysig hwn i ffermwyr fel rhan o gynlluniau cymorth yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol a chostau

54. Roedd consensws cyffredinol y dylai cyllideb flaenorol y Polisi Amaethyddol Cyffredin fod yr isafswm, o ystyried uchelgeisiau eang y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a'r dull wedi'i deilwra, o'i gymharu â Chynllun y Taliad Sylfaenol. Roedd undebau ffermio o'r farn y dylid dyrannu'r gyllideb yn bennaf i ffermwyr actif, ac mae ganddynt bryderon y gallai costau gweinyddol wanhau'r cyllid hwn. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn galw am gapio taliadau er mwyn sicrhau bod yr arian yn mynd i ffermydd teuluol.²⁷ Gofynnodd RSPB Cymru a oedd goblygiadau ariannol y Bil yn adlewyrchu'n llawn gostau monitro, adrodd, buddsoddi mewn cyngor, canllawiau a chymorth priodol i gyflawni'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn llwyddiannus ac effaith costau cynyddol.²⁸

55. Galwodd RSPB Cymru²⁹, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru³⁰ a Dr Petetin³¹ ar i'r Bil gynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru baratoi cynllun cymorth ariannol amlflwydd i gynorthwyo ffermwyr sy'n cyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Cyfeiriodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru at adran 4 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 ar gynlluniau cymorth ariannol amlflwydd. Dywedodd y Gweinidog nad oedd unrhyw bosibilrwydd iddi wneud unrhyw ymrwymiad ar y pwynt hwn heb gyllideb wedi'i chadarnhau, a'i bod yn gweithio gydag amcangyfrifon cost yn seiliedig ar y dybiaeth o'r amlen o £278 miliwn a glustnodwyd hyd at ddiwedd y senedd bresennol.³² Rhoddwyd y neges hon hefyd i'r Pwyllgor Cyllid yn ei waith craffu ar y Bil.

²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR48 (Saesneg yn unig)

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

³¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 275

³² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 374-376

3. Rhan 1 – Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae Rhan 1 o'r Bil yn sefydlu pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu at eu cyflawni, ac yn darparu ar gyfer trefn fonitro ac adrodd, gan gynnwys pennu dangosyddion a thargedau ar gyfer amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy i "asesu ei weithrediad, darparu sylfaen dystiolaeth bwysig, a hwyluso craffu ac atebolrwydd."³³

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 1 yn ei wneud

56. Mae adran 1 yn sefydlu pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy:

- cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy;
- lliniaru ac addasu i newid hinsawdd;
- cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r buddion y maent yn eu darparu; a
- gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Cymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

57. Mae adran 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer rhai swyddogaethau mewn perthynas ag "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" (a ddiffinnir yn adrannau 48 a 49, yn y drefn honno) yn y modd y maent yn ystyried sy'n cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae adran 3 yn darparu ar gyfer eithriadau cyfyngedig i'r ddyletswydd yn adran 2.

58. Mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi dangosyddion a thargedau a ddefnyddir i fesur cynnydd tuag at

³³ Memorandwm Esboniadol

gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae adran 5 yn nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion a thargedau.

59. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac mae'n nodi'r hyn y dylai'r adroddiadau hynny ei gynnwys a'r amserlen ar eu cyfer. Diben yr adroddiadau hyn yw monitro cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy gan ddefnyddio'r dangosyddion a'r targedau.

60. Mae adran 7 yn nodi'r adroddiadau, y polisiâu a materion eraill y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth lunio'r adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Y Fframwaith a'r diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy

61. Y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw **ymateb Llywodraeth Cymru** i fframwaith deddfwriaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Cyflwynodd **ymgyngoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir** (2019) y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy fel y prif nod polisi amaethyddol a chymorth yn y dyfodol.

62. Roedd yr **ymatebion** i'r Papur Gwyn yn cefnogi symud y ffocws o gynhyrchu i ddarparu nwyddau cyhoeddus. Daeth y gefnogaeth gryfaf i'r cynigion gan grwpiau amgylcheddol neu'r rhai sydd â diddordeb mewn rheoli tir yn gynaliadwy; Amlygodd rhai bwysigrwydd amcanion diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd. Teimlai rhai nad oedd y cynigion yn mynd yn ddigon pell i gefnogi cynhyrchu bwyd.

63. Yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, mynegwyd gwahaniaethau barn sylweddol ynghylch sut y dylid diffinio Rheoli Tir yn Gynaliadwy, yr hyn y dylai'r amcanion ei gynnwys, a chydbwysedd y pwyslais ar wahanol amcanion polisi. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru ymhlith y rhai a ddywedodd y byddai'r Bil yn elwa o ddiffiniadau llymach.

64. Mynegodd undebau ffermio bryderon ynghylch cydbwysedd cyllid rhwng gweithgareddau 'amaethyddol' ac 'ategol' yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, y ffocws ar gymorth i ffermwyr actif, a oes digon o bwyslais ar gynhyrchu bwyd a sicrwydd bwyd, a lles economaidd a chymdeithasol teuluoedd a chymunedau ffermio. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn cyfeirio at amcanion Deddf Amaethyddiaeth 1947 wreiddiol Tom Williams, fel y'u hamlygwyd yng

Nghytuniad Rhufain 1957, gan gydnabod yr angen am sectorau amaethyddol hyfryw a chyflenwadau sefydlog o fwyd fforddiadwy.³⁴

65. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru fod diffiniad y Cenhedloedd Unedig a nodir ym mharagraff 3.38 o'r Memorandwm Esboniadol (tudalen 18), y datblygir yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ohono, yn rhy gyfyng. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn dweud nad yw'n cydnabod nac yn mynd i'r afael â'r cyd-destun ehangach y mae ffermio yn gweithredu ynddo ac yn cyfrannu ato.

"Defnyddio adnoddau tir, gan gynnwys priddoedd, dŵr, anifeiliaid a phlanhigion, ar gyfer cynhyrchu nwyddau i ddiwallu anghenion cyfnewidiol dyn, ond gan ddiogelu potensial tymor hir yr adnoddau hyn a chadw eu buddion amgylcheddol yr un pryd."

Diffiniad y Cenhedloedd Unedig o Reoli Tir yn Gynaliadwy

66. Roedd y ddau undeb ffermio eisiau diffiniad Banc y Byd yn hytrach na diffiniad y Cenhedloedd Unedig a ddefnyddir yn y Memorandwm Esboniadol, gan fod Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn dweud ei fod yn ychwanegu pwysigrwydd cynhyrchu bwyd a chymunedau gwledig o fewn y diffiniad hwnnw.

"Gweithdrefn yn seiliedig ar wybodaeth sydd yn cynorthwyo integreiddiad rheolaeth tir, dŵr, bioamrywiaeth a'r amgylchedd i fodloni'r galw cynyddol am fwyd a ffibr tra'n cynnal gwasanaethau ecosystem a bywoliaethau."

Diffiniad Banc y Byd

67. Profwyd y cynnig hwn gyda thystion eraill. Mae grwpiau amgylcheddol yn cefnogi diffiniad y Cenhedloedd Unedig – galwodd RSPB Cymru am iddo gael ei gynnwys ar wyneb y Bil³⁵ ac roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn synnu nad oedd eisoes wedi'i gynnwys³⁶. Roedd nifer o randdeiliaid³⁷ hefyd yn galw am gyfeirio'n benodol at ddiffiniad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (sy'n cynnwys 9 egwyddor). Mae Cyswllt Amgylchedd

³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

³⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR02; AGR43; AGR53 (Saesneg yn unig)

Cymru hefyd wedi nodi **chwe phrawf** o lwyddiant y Cynllun Ffermio Cynaliadwy sy'n deillio o'r Bil.³⁸

68. Roedd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Cymru³⁹, Cyngrhair Gweithwyr Tir Cymru⁴⁰ a Dr Dobbs eisiau ystyried **10 elfen agroecoleg y Cenhedloedd Unedig**, gan amlygu ymagwedd a oedd yn fwy cyfannol ac uchelgeisiol⁴¹. Y 10 egwyddor hyn yw amrywiaeth, rhannu gwybodaeth, meithrin synergeddau, effeithlonrwydd adnoddau, ailgylchu, gwytnwch, gwerth dynol a chymdeithasol, diwylliant a thraddodiadau bwyd, llywodraethu cyfrifol, ac economi gylchol.

69. Roedd cynrychiolwyr y gadwyn cyflenwi bwyd o blaid diffiniad y Cenhedloedd Unedig ond maent wedi galw am gynnwys cadwyni cyflenwi cydnerth.⁴² Dywedodd Simon Wright na ddylem fod yn chwilio am y diffiniadau sy'n galluogi dod yn agosach at fusnes fel arfer. Dywed ei bod yn broses o newid a thrawsnewid ac mae angen diffinio'r cyfeiriad hwnnw yn y Bil ac mae angen i'r diffiniadau wneud y gwaith hwnnw.⁴³ Awgrymodd Gwyn Howells o Hybu Cig Cymru ei fod yn gyfle a gollwyd i beidio â chael diffiniad Cymraeg pwrpasol ar wyneb y Bil a oedd yn caniatáu i bobl yng Nghymru gysylltu â'r weledigaeth.⁴⁴

70. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi diffiniad statudol yn y Bil, gyda diffiniad y Cenhedloedd Unedig fel man cychwyn, ond yn gwbl gyson â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn Neddf yr Amgylchedd 2016. Dywed y byddai cryfhau'r amcanion i sicrhau bod y ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cynnwys pob agwedd ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn gwarantu bod y ddwy ddeddfwriaeth yn gyson ac yn darparu ar gyfer pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol.⁴⁵ Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn dweud y byddai diffiniad statudol yn osgoi risg o lithro posibl yn y ddyletswydd Rheoli Tir yn Gynaliadwy dros amser.

71. Wrth gael ei holi eto ar 16 Tachwedd ynghylch y diffiniad o Reoli Tir yn Gynaliadwy, nododd y Gweinidog a swyddogion fod ymgynghoriad yn 2019 wedi dechrau gyda diffiniad y Cenhedloedd Unedig fel fframwaith. Fodd bynnag, roedd y Gweinidog o'r farn bod y diffiniad a'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodir yn y Bil yn ymgorffori diffiniadau'r Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd, ac yn

³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR51 (Saesneg yn unig)

⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

⁴¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 253-257

⁴² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 12

⁴³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 14

⁴⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 16

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

gyffredinol byddai'n cyflawni'r nod canolog o 'gadw ffermwyr ar y tir'. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd yr amcan trosfwaol olaf hwn ar wyneb y Bil.⁴⁶

72. Cydnabu'r Gweinidog i ba raddau yr oedd rhanddeiliaid wedi codi'r mater o ran y diffiniad Rheoli Tir yn Gynaliadwy wrth gasglu tystiolaeth, yn enwedig o ystyried faint o ymgynghori a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil – dywedodd ei bod wedi'i synnu.

Iechyd a Lles Anifeiliaid o fewn y fframwaith

73. Mae Cymdeithas Milfeddygol Prydain yn cefnogi'r dull Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Bil fel modd o gymell budd y cyhoedd, ond galwodd am fwy o eglurder ar iechyd a lles anifeiliaid y tu hwnt i'r llinell sylfaen gyfreithiol a dywedodd fod y bwyslais a roddir yn annigonol o ystyried y gyfran o ffermio da byw yng Nghymru. Mae'r Cymdeithas am sicrhau nad oes unrhyw 'dyllau' yn y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid a gynigir.⁴⁷ Tynnodd y Gweinidog sylw at y cynigion yn Rhan 5 a sicrhodd yr Aelodau mai iechyd a lles anifeiliaid oedd y llinyn sy'n rhedeg drwy'r holl bolisiau.⁴⁸ Cadarnhaodd fod y cynllun llwybr milfeddygol yn Lloegr yn rhywbeth i'w efelychu i'w gynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Nododd un Aelod hefyd fod gweledigaeth hirdymor ar gyfer dileu TB mewn gwartheg yng Nghymru yn flaenoriaeth ond ni chrybwyllwyd y mater hwnnw'n benodol yn unman ar wyneb y Bil.

74. Mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain hefyd yn cynnig y dylid sefydlu corff ar gyfer y DU gyfan i gydgyssylltu polisi iechyd a lles anifeiliaid ar draws pedair gweinyddiaeth y DU a hwyluso gweithio mewn partneriaeth rhwng diwydiant a'r llywodraeth i fynd i'r afael â chlefydau endemig a heriau o ran iechyd a lles anifeiliaid. Cyfeiriodd y Gweinidog at y Fframwaith Cyffredin ar Iechyd a Lles Anifeiliaid fel y mecanwaith ar gyfer ymdrin â'r hyn y mae Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn ei gynnig.⁴⁹

Barn y Pwyllgor

75. Aeth y Pwyllgor ar drywydd y mater o ran diffiniad Rheoli Tir yn Gynaliadwy gydag amrywiaeth o randdeiliaid a chyda'r Gweinidog. Mae'r Bil yn cynnwys adrannau neu eiriad sy'n egluro ystyr "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" ar wyneb y Bil, ond nid oes unrhyw adran na geiriad ar wyneb y Bil i egluro'n

⁴⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 17-19

⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGRO4 (Saesneg yn unig)

⁴⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 140

⁴⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 140

benodol i'r darllenydd mai'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy hyn yw'r diffiniad cyfan o "Rheoli Tir yn Gynaliadwy" at ddibenion darpariaethau'r Bil. Mae'r Memorandwm Esboniadol (tudalennau 14 a 17) hefyd yn nodi bod y Bil yn "pennu pedwar amcan ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy" ond nid yw'n nodi diffiniad clir o Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Roedd mwyafrif yr Aelodau'n fodlon ar ymateb y Gweinidog a chytunwyd mai'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n ffurfio'r diffiniad cyffredinol o Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod rhai rhanddeiliaid o'r farn bod y Bil yn gyfle i ddatblygu diffiniad Cymraeg 'pwrpasol' o Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Roedd pwysigrwydd yr amcanion yn cysylltu'n ôl yn glir ag egwyddorion polisi cydnabyddedig a deddfwriaeth gysylltiedig – gan gynnwys Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 – yn thema gref yn y dystiolaeth a ddaeth i law. Dylid nodi hefyd fod yr adroddiad hwn yn manylu ar nifer o ddadleuon rhesymegol penodol dros newidiadau pellach i eiriad amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy sy'n ffurfio'r diffiniad o'r term. Bydd yn bwysig bod amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ddigon manwl a phenodol i gyflawni holl amcanion polisi'r Bil.

Argymhelliad 7. Gwahoddir y Gweinidog i ystyried y dadleuon a nodir yn adroddiad y Pwyllgor dros newidiadau i eiriad yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn y Bil, ac i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, neu i nodi ei sail resymegol dros beidio â gwneud hynny.

Yr Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 1)

76. Roedd croeso cyffredinol i'r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy a nodir yn adran 1 o'r Bil, ond gyda rhanddeiliaid yn awgrymu rhai gwelliannau ac amcanion ychwanegol. Galwodd undebau ffermio am gyfeiriad penodol at wydnwch economaidd a hyfywedd ffermio, a chydabyddiaeth o gostau cyfalaf ffermio. Mae ymateb Undeb Amaethwyr Cymru i'r ymgynghoriad yn nodi bod y diffyg cyfeiriad at fywoliaethau ffermwyr yn golygu nad yw'r Bil yn mynd i'r afael â'r gost ariannol o fod yn ecosystem well gydag ôl troed carbon isel ac yn fferm gyda chynnydd mewn bioamrywiaeth.⁵⁰

77. Mae Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd y DU⁵¹ a Confor ill dau yn cefnogi'r amcanion, gyda'r olaf yn dweud eu bod yn nodi'n glir y potensial o ran rôl rheolwr tir a'i bod yn hanfodol bod ysbryd y gweithrediadau hyn yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.⁵²

⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR16 (Saesneg yn unig)

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

78. Cyfeiriodd Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, at yr amcanion fel rhai ‘eithaf amwys, gan ddweud nad oes gweledigaeth glir ar gyfer y diwydiant bwyd.⁵³ Cytunodd Simon Wright gan ddweud bod angen i’r Bil bennu cyfeiriad teithio clir a bod angen i Lywodraeth Cymru wybod beth mae’n ei fesur.⁵⁴ Ymatebodd y Gweinidog i hyn ar 16 Tachwedd, gan ddweud bod gweledigaeth ar gyfer bwyd a diod, a bod y Bil yn cysylltu’r sectorau ffermio a bwyd mewn ffordd na welwyd o’r blaen, o dan Amcan 1 ac yn y cymorth i weithgareddau ategol a nodir yn adran 49(b).⁵⁵

79. Er nad manylion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yw ffocws y gwaith craffu ar y Bil, mynegodd Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru bryderon ynghylch ffermydd sydd â modelau busnes anghynaliadwy a dim llwybr pontio sy’n gallu bodloni’r gofynion i gael taliadau gweithredu cyffredinol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, tra gallai ffermydd ‘hynod gynaliadwy’ eraill gael eu heithrio oherwydd maint. Dywedodd Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru os yw Llywodraeth Cymru o’r farn bod y cynigion yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn gydnaws â’r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, fel y’u drafftwyd ar hyn o bryd; er eu bod yn parhau i ganiatáu unedau da byw dwys; yna mae’n amlwg bod angen cryfhau’r diffiniadau.⁵⁶

Yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

80. Mae’r cysylltiad rhwng yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a darpariaethau **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015** wedi’u nodi’n glir yng ngeiriad adran 1 o’r Bil. Mae adran 1 yn nodi pob un o’r pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy i’w cyflawni, ac ar gyfer pob un mae’n gofyn:

“, ac wrth wneud hynny” –

- a. diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a*
- b. cyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).*

⁵³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 38

⁵⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 44

⁵⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 60

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

81. Dywed Cynghair Gweithwyr Tir Cymru fod gormod o le i ddehongli, yn enwedig gyda'r amcan cyntaf; y dylid ei gwneud yn glir beth mae geiriad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu'n ymarferol; a bod targedau ar gyfer lliniaru ac addasu i newid hinsawdd; gwelliannau bioamrywiaeth; a dylid cyfeirio at ostyngiadau mewn llygredd nitrogen, ffosfforws a phlâladdwyr. Cododd Undeb Amaethwyr Cymru⁵⁷ hefyd gwestiynau am y cysylltiad rhwng nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac egwyddor Rheoli Tir yn Gynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Amcan cyntaf: Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy

82. Hoffai'r undebau ffermio a Hybu Cig Cymru i'r amcan hwn gydnabod cyfrifoldeb Cymru yn fyd-eang i gynnal a gwella cynhyrchiant bwyd.⁵⁸ Roedd Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru yn croesawu cynnwys bwyd a gynhyrchir mewn modd cynaliadwy fel amcan y mae wedi dadlau drosto drwy gydol y broses ymgynghori yn arwain at gyhoeddi'r Bil.⁵⁹ Mae sawl rhanddeiliad, gan gynnwys RSPB Cymru⁶⁰ a Cyswllt Amgylchedd Cymru⁶¹ eisiau mwy o eglurder ar y diffiniad o gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Awgrymodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur⁶² a chynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd y dylid cyfeirio at y gadwyn gyflenwi bwyd ehangach i hyrwyddo cadwyni cyflenwi byrrach a sofraniaeth bwyd.⁶³ Dywedodd Cynghair Gweithwyr Tir Cymru nad oes cyfeiriad at y system fwyd yn gyffredinol, mynediad at fwyd iach, ffyniant cymunedol na sofraniaeth bwyd. Aiff ymlaen i ddweud os ydym am sicrhau cynaliadwyedd gwirioneddol, yna mae angen i'r Bil naill ai gynnwys amcanion sy'n cyfeirio at bolisi cynllunio; datblygu'r farchnad leol; mynediad at fwyd; defnydd a iechyd maethol; ac effaith dramor; neu dylai gyfeirio at ddeddfwriaeth arall sy'n cwmpasu'r materion hyn.⁶⁴ Awgrymodd Simon Wright amcan ar gyfer ffyniant cymunedol drwy ddarparu bwyd maethlon gan gyfeirio at iechyd cymunedol.⁶⁵ Dywedodd y Gweinidog ar 16 Tachwedd fod amcanion y Bil, y rhestr o ddibenion a chefnogaeth ar gyfer gweithgareddau ategol yn darparu digon o fecanweithiau i gefnogi'r nodau bwyd hyn.⁶⁶

⁵⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

⁵⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraff 18

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR50 (Saesneg yn unig)

⁶⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR51 (Saesneg yn unig)

⁶³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 32

⁶⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraffau 30-32

⁶⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 29

83. Croesawodd Confor gynnwys ‘nwyddau eraill’, ond nododd rywfaint o amwysedd o ran maint a phwysigrwydd posibl y cynhyrchion hynny, sy’n cynnwys pren a ffibr pren.⁶⁷

Ail amcan: Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd

84. Dywedodd Parciau Cenedlaethol Cymru ei bod yn bwysig peidio â cholli’r gorgyffwrdd rhwng adferiad byd natur a newid hinsawdd.⁶⁸ Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur fod yn rhaid i’r ddau fynd law yn llaw.⁶⁹ Galwodd rhanddeiliaid, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol Cymru, RSPB Cymru, Cyswllt Amgylchedd Cymru a Dr Petetin am iaith fwy eglur ynghylch bioamrywiaeth, cynefinoedd rhywogaethau ac adferiad natur yn y Bil. Gweler hefyd isod o dan adran 8 o’r Bil – Rhestr o Ddibenion ar gyfer cymorth amaethyddol – am ragor o fanylion am y dystiolaeth hon gan dystion.

85. O ran sut mae’r amcanion yn rhyngweithio â’i gilydd, roedd y Pwyllgor am weld cydnabyddiaeth nad yw camau gweithredu i liniaru ac addasu i newid hinsawdd o reidrwydd bob amser yn fuddiol i gyflawni nodau bioamrywiaeth. Gall rhai gweithredoedd hinsawdd, megis ynni adnewyddadwy, effeithio’n negyddol ar fioamrywiaeth - mae’n bwysig bod y rhain yn cael eu rhoi ar yr un sail.⁷⁰ Roedd ymateb RSPB Cymru yn galw am alinio dangosyddion a thargedau bioamrywiaeth a newid hinsawdd ag ymrwymïadau statudol Cymru.⁷¹

Trydydd amcan: Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a’r buddion y maent yn eu darparu

86. Cynigiodd grwpiau amgylcheddol y dylid cryfhau’r amcan hwn er mwyn cyflawni ymrwymiad bioamrywiaeth. Mae RSPB Cymru yn awgrymu aralleirio: *“adfer, cynnal a gwella bioamrywiaeth (gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd a ddynodir ar gyfer natur) a gwytnwch ecosystemau”*⁷². Cy nghorwyd croesgyfeirio at yr egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy hefyd. Mae Solar Energy UK yn argymhell yn gryf bod y Bil yn mynd ymhellach i wneud y mwyaf o fioamrywiaeth ochr yn ochr â datgarboneiddio.⁷³

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

⁶⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 77

⁶⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 81

⁷⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 80

⁷¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR48 (Saesneg yn unig)

87. Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Chynghrair Gweithwyr Tir Cymru, mewn perthynas â'r trydydd amcan a'r rhestr o ddibenion yn adran 8, y gallai'r Bil wneud cyfeiriad penodol at y dull DECCA o ddiffinio'r priodolddau gwytnwch ecosystemau a ddefnyddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, sef: amrywiaeth, maint, cysylltedd, cyflwr a'r gallu i addasu. Dywedodd y Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru y byddai hyn yn cysylltu'r Bil yn well â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur wrth y Pwyllgor y gallai cyfeiriad mwy penodol at hynny dawelu rhai o'r pryderon a allai fod yn bodoli, a dod â mwy o reolaeth ansawdd i'r agweddau ar adferiad byd natur.⁷⁴

88. Dywedodd rhanddeiliaid na ddylai bioamrywiaeth fod yn gefnder tlawd i newid hinsawdd. Pwysleisiodd RSPB Cymru wrth yr Aelodau: "Dyma ein un cyfle ni."⁷⁵ Tynnodd Parciau Cenedlaethol Cymru sylw hefyd at yr heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu gyda newid hinsawdd, megis mwy o sychder a llifogydd yn lleihau eu gwytnwch, a dywedodd fod angen mwy o ddealltwriaeth o bŵer gwirioneddol adfer ecosystemau wrth wraidd ffermio sefydlog, gwydn.⁷⁶

Pedwerydd amcan: Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd

89. Roedd undebau ffermio yn dadlau o blaid mwy o bwyslais ar y rhan annatod y mae ffermwyr yn ei chwarae, a'u cefnogi i gyflawni'r amcanion hynny. Roedd yr undebau ffermio eisiau amcan i gydnabod pwysigrwydd ffermydd teuluol a chymunedau ffermio ffyniannus (drwy weithgarwch economaidd).

90. Mae Cerddwyr Cymru yn cefnogi'n llwyr y syniad o gynnwys mynediad y cyhoedd yn benodol, gan fod gan y Bil ran bwysig i'w chwarae o ran goresgyn materion sy'n cynrychioli rhwystrau sylweddol i gynyddu cysylltiad y cyhoedd â'r amgylchedd naturiol, a'u dealltwriaeth ohono.⁷⁷ Dywedodd y Gweinidog fod mynediad y cyhoedd yn rhan fawr o'r pedwerydd amcan, ac mai'r bwriad oedd i'r pwerau yn Rhan 2 o'r Bil roi cymorth i wella mynediad,⁷⁸ gan nodi hefyd y cyfle i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gydag unrhyw bryderon. Nododd y Gweinidog hefyd ei chefnogaeth i ffermwyr gael eu gwobrwyo am eu rôl mewn addysg gyhoeddus.

⁷⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 73

⁷⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 75

⁷⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 83

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR43 (Saesneg yn unig)

⁷⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 54

91. Roedd CLA Cymru o'r farn y dylai rheolwr tir ddarparu unrhyw fynediad cyhoeddus ychwanegol gwirfoddol, cymhellol, hyblyg, a chaniataol ac ni ddylai greu unrhyw hawl mynediad parhaol newydd. Dywedodd y dylai'r diffiniad o fynediad y cyhoedd gynnwys mynediad newydd a gwell i dir ac i ddŵr drwy gytundebau mynediad gwirfoddol a mynediad arall sy'n fwy seiliedig ar ardal. Tynnodd sylw at bwysigrwydd seilwaith i gefnogi mynediad y cyhoedd, a mesurau i weddu i amgylchiadau lleol. Roedd CLA Cymru yn croesawu cynnwys cymorth i dreftadaeth yn y Bil.⁷⁹

92. Mynegodd RSPB Cymru bryder bod gan yr amcan hwn, fel y'i cynigiwyd, y potensial i dorri ar draws ystyriaethau amgylcheddol oherwydd y gall gweithgareddau i warchod/gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol gynnwys arferion sy'n niweidiol i'r amgylchedd e.e. lefelau pori amhriodol neu losgi llystyfiant rhostir ac ati.⁸⁰ Argymhellodd RSPB Cymru y dylai Llywodraeth Cymru ailymweld â'r amcan hwn i sicrhau nad yw'n arwain at ganlyniadau negyddol anfwriadol a fyddai'n gweithio yn erbyn cyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

93. Mae'r pedwerydd amcan yn cyfeirio at bwysigrwydd cynnal, hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd tystiolaeth gan Ddirprwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio at ffigurau'r Cyfrifiad Cenedlaethol a oedd yn dangos bod 43 y cant o weithwyr amaethyddol yn siarad Cymraeg, o gymharu â 19 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol.⁸¹ Mae gwybodaeth fwy diweddar o Gyfrifiad Cenedlaethol 2021, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, wedi dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg fesul ardal awdurdod lleol, ond nid yw ffigurau ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru wedi'u cyhoeddi eto. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru wedi mynegi pryder nad yw'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn benodol yn y rhestr o ddibenion yn adran 8 o'r Bil. Galwodd Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg am wneud tri pheth yn orfodol yn y Bil:

- gosod dangosyddion a thargedau penodol i'r Gymraeg, a fydd yn plethu ag amcanion strategaeth Cymraeg 2050;
- casglu data ynglŷn â'r Gymraeg er mwyn gallu dadansoddi sefyllfa'r iaith yn y sector amaethyddol; a
- chynnwys y Gymraeg yn y rhestr o ddibenion y caiff Gweinidogion Cymru bŵer i ddarparu cymorth ar eu cyfer.

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR50 (Saesneg yn unig)

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR26

94. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn cynnal trafodaethau gyda'i chydweithwyr yn y cabinet ar agweddau'n ymwneud â'r Cymraeg, ac roedd yn cydnabod cyfran y siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau gwledig a ffermio.

95. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn galw am bumed amcan i adlewyrchu pwysigrwydd sector ffermio ffyniannus, economaidd weithgar. Dylai geisio diogelu bywoliaethau a chymunedau gwledig, gan gydnabod pwysigrwydd busnesau ffermio cynaliadwy a hyfyw a chynhyrchiant amaethyddol i'r economi wledig. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru yn cytuno y dylid ychwanegu pumed ran sy'n ceisio'n benodol sicrhau sefydlogrwydd economaidd teuluoedd ffermio. Dywedodd y Gweinidog fod sicrhau cymunedau ffermio ffyniannus a chadernid economaidd wrth wraidd y Bil, a nododd drafodaethau parhaus gyda Phlaid Cymru o dan y Cytundeb Cydweithio ar hyn. Dywedodd y byddai'n agored i'r posibilrwydd o ychwanegu neu fireinio'r geiriad yn y maes hwn, ac i ystyried barn y Pwyllgor yn ei adroddiad.

Barn y Pwyllgor

96. Er bod cynnwys cynhyrchu bwyd 'cynaliadwy' yn yr amcan cyntaf i'w groesawu, mae safbwynt bod yr amcan fel y'i drafftwyd yn rhy amwys, ac mae'n broblematic nad oes diffiniad o'r hyn y mae "mewn modd cynaliadwy" yn ei olygu. Nodwyd hefyd nad yw'r amcanion yn crybwyll nac yn cydnabod y gall ac y dylai cynhyrchiant ysgogi enillion amgylcheddol a lles anifeiliaid.

97. Mae'r cynnig gan RSPB Cymru i ddiwygio geiriad y trydydd amcan yn cael ei gefnogi gan y Pwyllgor cyn belled â'i fod yn dod â gwarant y bydd yn gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac nad yw'n arwain at ymwahanu oddi wrth fwriad polisi y Bil.

Argymhelliad 8. Dylai'r Gweinidog ystyried diwygio'r trydydd amcan yn adran 1 ar gynnwys adferiad byd natur yn fwy penodol yn y Bil, yn unol ag argymhelliad RSPB Cymru i gynnwys geiriad newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, cyn belled ag y gall y Gweinidog, ochr yn ochr â hyn, roi sicrwydd y bydd yr amcan hwn yn cysylltu'n agos â'r camau gweithredu sydd i'w cefnogi yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac yn ei barn hi na fydd newid o'r fath yn arwain at unrhyw wroddi wrth fwriad polisi'r Bil.

98. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Bil yn cael mwy o eglurder ynghylch rôl caffael lleol a sut y bydd darpariaethau'r Bil yn cefnogi cadwyni cyflenwi lleol, gan y cafwyd tystiolaeth gref gan randdeiliaid a oedd yn awgrymu bod yr agwedd hon ar fwriad polisi'r Bil yn aneglur o'r amcanion fel y'u drafftwyd.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog roi mwy o eglurder ynghylch sut y bydd caffael lleol a chadwyni cyflenwi lleol yn cael eu cefnogi gan y Bil.

99. Mae'r galwadau cryf gan randdeiliaid i'r Bil roi pwyslais mwy penodol ar gefnogi cymunedau ffermio cryf a ffyniannus wedi'u nodi gan yr Aelodau. Tra bod y Gweinidog wedi nodi'n glir mai dyma yw ei bwriad polisi gyda'r Bil, gellid adolygu geiriad adran 1 i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn llawer mwy eglur ar wyneb y Bil. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Gweinidog wedi dweud bod trafodaethau'n parhau ynghylch y mater hwn fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru. Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor yn bwriadu cefnogi ychwanegu pumed amcan ar wahân, cyn belled ag y gellir cryfhau'r pedwerydd amcan i fynd i'r afael yn llawn â phryderon rhanddeiliaid.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i gryfhau'r pedwerydd amcan, fel bod pwyslais mwy penodol yn cael ei roi ar y bwriad polisi i gefnogi cymunedau gwledig cryf a ffyniannus ac i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid.

100. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cwestiynau allweddol gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Dylai diogelu a hyrwyddo'r Gymraeg fod yn amlwg drwy'r Bil hwn, ac mae'r Pwyllgor am weld hyn yn cael ei blethu'n glir drwy'r ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i gryfhau ei ddarpariaethau ar gyfer cynnal a hybu'r Gymraeg: gall hyn gynnwys drwy ei hychwanegu at y rhestr o ddibenion yn adran 8, ac ymrwymo i gynnwys dangosyddion a thargedau penodol er mwyn mesur canlyniadau yn well.

Y Ddyletswydd i gyflawni Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 2)

101. Mae adran 2 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru mewn perthynas ag Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac o ran sut y mae'n rhaid iddynt arfer y swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 2(2) (h.y. swyddogaethau i ddarparu cymorth ar gyfer amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol, ac i reoleiddio gweithgareddau o'r fath. Mae adran 3 o'r Bil yn darparu ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd honno, sy'n eithrio'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag addasu deddfwriaeth ar gyfer taliadau o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin a Chynllun y Taliad Sylfaenol.

102. Roedd galwadau cryf am i'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy gael eu cyflawni gyda'i gilydd, ac na ddylai fod dim dewis⁸². Cafwyd galwadau gan nifer o

⁸² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 17

randdeiliaid ar i Weinidogion fod â dyletswydd i gyflawni'r amcanion mewn ffordd gytbwys⁸³ gyda'r geiriad a awgrymir i: "exercise the function in the way that best contributes to achieving those objectives (**taken together**)".⁸⁴ Dywedodd y Gweinidog fod yr amcanion yn 'gyflenwol' ac aeth ymlaen i ddweud y bydd yn bosibl gwneud cyfraniad sylweddol at un ohonynt wrth wneud ychydig o gyfraniad – neu, yn wir, dim cyfraniad o gwbl - at y rhai eraill.⁸⁵

103. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi galwadau gan sefydliadau amgylcheddol i dynhau'r diffiniadau yn y rhan hon o'r Bil, ac i fenthycu o ddull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i Weinidogion Cymru gyfrannu i'r eithaf ac i gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny.⁸⁶

Barn y Pwyllgor

104. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried barn rhanddeiliaid ar y ddyletswydd i gyflawni'r amcanion. Mae'n nodi pryderon na ddylai fod unrhyw risg yn y dyfodol o 'ddewis' yr amcanion. Mae'r Aelodau'n cytuno na ddylai fod unrhyw hierarchaeth rhwng y gwahanol amcanion, a'r nod yw eu hystyried i gyd gyda'r un pwyslais er mwyn cyflawni pob un ohonynt.

Argymhelliaid 12. Dylai'r Gweinidog ddiwygio adran 2 i: a) ei gwneud yn gliriach nad oes hierarchaeth i'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, a bod yn rhaid eu cyflawni mewn ffordd gytbwys er mwyn cyflawni'r nodau polisi trosfwaol o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy a b) wrth ddiwygio adran 2, dylai ystyried y geiriad o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyfrannu i'r eithaf ac i gymryd pob cam rhesymol i wneud hynny.

105. Mae Confor yn cefnogi'r ddyletswydd, ond yn nodi yr ymddengys bod y swyddogaethau'n eithrio cyflawni targedau coedwigaeth a choedwigo cynaliadwy. Awgrymodd Confor ddiwygio 2(1) i gynnwys swyddogaeth:

*"(b) (iii) agro forestry, afforestation on farm as part of or ancillary to the operation of the agricultural holding and management of existing woodland and forestry."*⁸⁷

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR02; AGR43 (Saesneg yn unig)

⁸⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, Eitem 3, Cyswllt Amgylchedd Cymru – Papur Briffio

⁸⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 22, paragraff 8

⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

Dangosyddion a Thargedau (Adran 4)

106. Mae RSPB Cymru eisiau eglurder ar wyneb y Bil ar y dangosyddion a'r targedau hyn – cred fod y mathau o ddangosyddion yn hollbwysig.⁸⁸ Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylent gynnwys (ymhlith pethau eraill) allyriadau nwyon tŷ gwydr sectoraidd, cyflwr a graddau rhywogaethau, cyfrifoldeb byd-eang, dal a storio carbon.⁸⁹ Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn rhaid i'r dangosyddion a'r targedau fod yn uchelgeisiol er mwyn sicrhau bod cymorth ariannol yn cael ei warantu a chyllidebau'n cael eu sicrhau ar ôl ymadael â'r UE. Wrth eu hadolygu rhaid ystyried dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r adroddiad diweddaraf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Dywedodd:

“the current approach outlined, of at least one indicator and target per objective of SLM, means that the relationship between SLM, Environment (Wales) Act and 2016 and Well-being of Future Generations Act (2015) and wider agendas for Wales will be tenuous.”⁹⁰

107. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn pryderu bod y dull presennol o weithredu yn peri risg o ganlyniadau wedi'u gwyro neu ganlyniadau diffygiol oherwydd ffactorau allanol. Cododd CLA Cymru y pwynt hwn hefyd. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru o'r farn, os defnyddir adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, yna dylai fod yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i roi'r un hygyrdded i adroddiadau ar gynhyrchu a diogelwch bwyd, megis Adroddiad Diogelwch Bwyd y DU – er mwyn osgoi anghydbwysedd adrodd sy'n arwain at gamau gweithredu sy'n methu â diogelu hyfywedd a chynaliadwyedd teuluoedd fferm.⁹¹

108. Amlygodd Parciau Cenedlaethol Cymru fod angen dangosyddion lluosog ar gyfer y trydydd amcan sy'n gymhleth. Rhaid cael dangosyddion dŵr yn ogystal ag iechyd tir o leiaf. Cred fod angen cael dangosydd sy'n ymwneud â phob un o'r pum elfen hynny, os am olrhain cynnydd yn effeithiol.⁹² Cefnogwyd y pwynt hwn yn gryf hefyd gan Dr Petetin a Dr Dobbs. Dywedodd Dr Dobbs y byddai cyfyngu ar nifer y dangosyddion fesul amcan hefyd yn lleihau'r potensial i graffu ar gynnydd.⁹³

⁸⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 58

⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

⁹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

⁹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 62

⁹³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 265

Pwysleisiodd Dr Petetin hefyd bwysigrwydd casglu data lleoledig, nid dim ond Cymru gyfan.⁹⁴

109. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau ar 5 Hydref y byddai gormod o ddangosyddion a thargedau yn golygu y byddai'n mynd yn 'anhylaw' ac yn colli ystyr.⁹⁵

110. Roedd undebau ffermio a Pharciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno â phwynt RSPB Cymru bod angen i rai dangosyddion fod yn rhai tymor hwy. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylent fod yn realistig a chyraeddadwy o fewn yr amserlen ddiffiniedig.⁹⁶ Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ei bod yn hanfodol bod dangosyddion a thargedau'n cael eu dewis mewn ymgynghoriad â diwydiant, ac yn deillio o wyddoniaeth gadarn.⁹⁷ Dywedodd Confor fod yn rhaid i dargedau fod yn briodol ac ystyried dylanwadau rhanbarthol allanol sy'n effeithio ar gydymffurfiaeth.⁹⁸

111. Galwodd Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg am gynnwys dangosydd a thargedau yn y Bil i fesur cynnydd gyda'r pedwerydd amcan (Y Gymraeg): *"Heb y manylder angenrheidiol yn y Bil, mae risg o golli ffocws ar gynaliadwyedd y Gymraeg yn y dyfodol, o ddibynnu ar ddisgresiwn Gweinidogion."*⁹⁹

112. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch amseriad y datganiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy, dywedodd y Gweinidog fod yr amseriad arfaethedig wedi'i bennu ar gyfer 31 Rhagfyr 2025 er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghoriad ac ystyriaeth briodol ar y dangosyddion a'r targedau.¹⁰⁰

Paratoi ac adolygu dangosyddion a thargedau (Adran 5)

113. Mae adran 5 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth baratoi neu adolygu datganiad ar ddangosyddion a thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy, roi sylw i ddangosyddion cenedlaethol penodol eraill, a rhaid iddynt ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac "unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol" (adran 5(3)(b)).

114. Mae'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a Cyswllt Amgylchedd Cymru eisiau ymgynghori ag ystod ehangach o randdeiliaid, nid Comisiynydd Cenedlaethau'r

⁹⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 263-266

⁹⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 17

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

⁹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR26

¹⁰⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 66

Dyfodol yn unig, gan dynnu sylw at y llwyddiant wrth gydgyhyrchu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.¹⁰¹ Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru fod angen ymgynghori â'r sector ffermio.¹⁰²

115. Gofynnodd Confor pam nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol.¹⁰³ Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn ymgynghorai statudol, a dywedodd Cerddwyr Cymru hefyd fod cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwysig ar gyfer ei rôl gynghori mewn perthynas â mynediad y cyhoedd, ynghyd ag ymgynghori ag awdurdodau lleol drwy CLILC.¹⁰⁴

116. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei fod yn benderfyniad i Weinidogion Cymru, ond mae'n nodi ei rôl o ran cynghori Llywodraeth Cymru, gan ddweud y byddai'n ymddangos yn ddarvoudus i ymgynghori ag ef ar adolygu dangosyddion a thargedau.¹⁰⁵ Dywedodd y Gweinidog y byddai Gweinidogion yn cymryd cyngor fesul achos ond ei bod yn bwysig cynnal hyblygrwydd, gan fod dyletswydd y mae'n RHAIID i Weinidogion Cymru adrodd arni, a gallai ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a chael cyngor ganddynt newid. Nid oedd y dangosyddion a'r targedau yn sefydlog ac roeddent yn debygol o newid dros amser. Fodd bynnag, roedd yn hapus i egluro y byddai undebau ffermio, sefydliadau amgylcheddol a gweithwyr tir amaethyddol ymhlith y rhai a gaiff eu cynnwys yn yr ymgynghoriad o dan adran 5(3)(b).¹⁰⁶

117. Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur y dylai adrodd yn erbyn amcanion gael ei ategu gan fonitro ar lawr gwlad, sydd wedi bod yn ddiffygiol mewn cynlluniau presennol. Roedd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ac RSPB Cymru yn annog meincnodi, gan gynnwys perfformiad bioamrywiaeth a charbon. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod hyn yn hollbwysig.¹⁰⁷ Croesawodd Confor y dyletswyddau, ond gofynnodd beth yw rôl y Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd o ran monitro ac adrodd.¹⁰⁸

Barn y Pwyllgor

118. Mae'r Pwyllgor yn deall y galwadau i ymgynghoreion statudol eraill gael eu cynnwys ar wyneb y Bil, gan mai dim ond Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cael ei enwi ar hyn o bryd, a gall Gweinidogion wedyn ddewis ymgynghori ag

¹⁰¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraffau 52-59

¹⁰² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁰³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR43 (Saesneg yn unig)

¹⁰⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

¹⁰⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 63-64

¹⁰⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraffau 52-59

¹⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

“unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.” Mae’r Aelodau’n derbyn pwynt y Gweinidog y bydd gofynion ar gyfer ymgynghori a chyngor yn newid dros amser, ond maent yn croesawu’r cofnod o’i hymrwymiad y dylid ymgynghori â grwpiau penodol ac y bydd hynny’n digwydd, fel y dangoswyd yn y broses o ddatblygu’r Bil a’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy hyd yma. Dylid nodi bod y Bil hwn yn deddfu ar gyfer fframwaith cymorth hirdymor, ac efallai y bydd y dull a ddefnyddir gan Weinidog(ion) y dyfodol yn wahanol. Er bod ymrwymïadau o’r fath i ymgynghori i’w croesawu, nid ydynt yn gyfreithiol rwymol ar y Gweinidog, nac unrhyw Weinidog olynol.

Adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (Adran 6)

119. Mae adrannau 6(8) a 6(9) yn darparu ar gyfer cyhoeddi adroddiad cyntaf (llinell sylfaen) Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar gyfer cyfnod adrodd yn rhedeg o’r dyddiad dod i rym ar gyfer adran 2 hyd at 31 Rhagfyr 2025, gydag adroddiadau dilynol bob pum mlynedd. Mae’r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur yn cefnogi hyn i ddangos gwerth am arian ac ar gyfer tryloywder, fodd bynnag fel y nodwyd eisoes mae hefyd yn galw am well monitro ar y fferm. Awgrymodd Dr Dobbs y byddai adroddiadau interim yn ddefnyddiol, gan fod cydnabyddiaeth y bydd yn cymryd amser hir iawn i ddangos rhai canlyniadau. Argymhellodd Confor rwymedigaeth i adrodd ar pam mae canlyniadau llwyddiannus wedi’u cyflawni, a dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylid ystyried sut mae amserlenni ar gyfer adrodd yn cyd-fynd â chylchoedd adrodd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae’r Aelodau’n cefnogi’r argymhelliad i adroddiadau interim gael eu darparu.

Argymhelliad 13. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i ddarparu ar gyfer adroddiadau interim sy’n ystyried yr amser a gymerir i gyflawni amcanion gwahanol, ac ystyried hefyd a ddylid diwygio geiriad adran 6 i’w gwneud yn ofynnol i adroddiadau amlinellu pam y mae canlyniadau llwyddiannus wedi’u cyflawni, yn hytrach na dim ond pam nad ydynt wedi’u cyflawni (adran 6(4) ac adran 6(5)).

Argymhelliad 14. Dylai’r Gweinidog ystyried sut mae’r amserlenni adrodd yn cyd-fynd â chylchoedd adrodd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chyflwyno unrhyw welliant angenrheidiol i adran 6 o’r Bil i gyfrif am hyn.

Camau i'w cymryd wrth lunio adroddiadau (Adran 7)

120. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn lle ystyried yr adroddiad diweddaraf ar gyflwr adnoddau naturiol, y dylid ystyried newid y geiriad yn adran 7 i gyfeirio at yr Asesiad Presennol o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Dywedodd:

“The Current Assessment includes information published in previous versions of the State of Natural Resources Reports where the body of evidence has not changed during reporting periods. This will ensure that Welsh Ministers have regard for the current state of Natural Resource and not limiting their scope to those areas covered in the most recent State of Natural Resources report.”¹⁰⁹

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i eiriad adran 7 – fel y cynigiwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei ymateb i'r ymgynghoriad – i sicrhau bod cwmpas llawn yr ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r adroddiadau ar gyflwr adnoddau naturiol (SoNaRR) wrth baratoi'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

¹⁰⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

4. Rhan 2- Cymorth ar gyfer amaethyddiaeth ac ati

Mae Rhan 2 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth i'r sector amaethyddiaeth ac yn nodi rhestr o'r dibenion y gellir darparu'r cymorth hwnnw ar eu cyfer, gan gynnwys ar gyfer "gweithgareddau ategol". Mae'n rhoi pwerau i addasu'r ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer cymorth amaethyddol, gan osod meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth yn y dyfodol, ac ar gyfer ymyrraeth yn y farchnad. Byddai'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adrodd ar effeithiolrwydd unrhyw gymorth a roddir. Mae darpariaeth hefyd ar gyfer datrys anghydfod gyda'r nod o helpu rhai ffermwyr tenant i gael cymorth.

Pennod 1 – Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 2 yn ei wneud

121. Mae adran 8 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'n nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o 'ddibenion' y gellir darparu cymorth o'r fath ar eu cyfer, y gellir ei diwygio drwy reoliadau. Nod y dibenion yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Gellir darparu cymorth ar ffurf cynllun, neu drwy ddull arall.

122. Mae adran 9 yn rhoi mwy o fanylion am y cymorth y gellir ei roi o dan adran 8. Mae'n nodi y gellir darparu'r cymorth hwnnw'n ariannol neu fel arall, a gellir ei ddarparu i unigolyn neu sefydliad sydd wedi sefydlu neu sy'n gweithredu cynllun trydydd parti (h.y. cynllun nad yw'n cael ei wneud gan Weinidogion Cymru).

- 123.** Mae adran 10 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth a ddarperir o dan adran 8. Er enghraifft, gwybodaeth ynghylch y rhai sy'n derbyn unrhyw gymorth a ddarperir.
- 124.** Mae adran 11 yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth ynghylch gwirio a yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth o dan adran 8 yn cael eu bodloni. Mae'n darparu ar gyfer gorfodi cydymffurfiaid a monitro i ba raddau y mae diben y cymorth wedi'i gyflawni, ac ymchwilio i droseddau a amheuir.
- 125.** Mae adran 12 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio adroddiad blynyddol ynghylch y cymorth ariannol a chymorth arall a ddarperir o dan adran 8 yn ystod pob blwyddyn ariannol.
- 126.** Mae adran 13 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Adroddiad Effaith bob pum mlynedd er mwyn asesu effaith ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir o dan adran 8.
- 127.** Mae adran 14 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i rai materion wrth lunio Adroddiad Effaith.

Trosolwg

128. Mae undebau ffermio yn pwysleisio pwysigrwydd targedu cymorth at ffermwyr actif. Cadarnhaodd y Gweinidog y dylai cyllid fod ar gyfer ffermwyr actif o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.¹¹⁰ Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn feirniadol bod y rhestr o ddibenion cymorth yn adran 8 o'r Bil yn amgylcheddol yn bennaf a dywedodd ei bod yn anghywir tybio y gall cefnogi ffermwyr i gyflawni canlyniadau amgylcheddol yn unig sicrhau canlyniadau ehangach i gymdeithas. Mewn tystiolaeth lafar galwodd yr Undeb am bŵer ychwanegol i gefnogi bywiogrwydd gwledig, sicrwydd bwyd, a chynhyrchiant fferm.¹¹¹ Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru y bydd llwyddiant y Bil Fframwaith yn dibynnu ar p'un a yw cynlluniau'n ddigon deniadol i bob sector, ardal a math o fferm ac wedi'u hariannu'n ddigonol.¹¹²

¹¹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 54, 16 Tachwedd 2022, paragraff 94

¹¹¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraffau 36-37; Tystiolaeth ysgrifenedig AGR37 (Saesneg yn unig)

¹¹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraff 45; Tystiolaeth ysgrifenedig AGR27 (Saesneg yn unig)

129. Dywedodd Confor fod coedwigaeth angen cyfran deg o'r gyllideb os yw targedau coedwigo i'w cyrraedd. Roedd yn croesawu'r cyfeiriad at sicrhau cymaint â phosibl o atafaelu a storio carbon. Mae angen eglurder ynghylch y system gyfeirio neu fesur a ddefnyddir i asesu hyn. Dywed ei bod yn bosibl y bydd rhai cynhyrchion yn gadael gât y fferm ac yn para am oes hir fel deunydd dan glo ac nid yw'r rhain yn cael eu cydnabod yn y systemau cyfrifo carbon presennol.¹¹³

130. Holwyd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynghylch y gwersi a ddysgwyd o brosiect Llŷn a Glastir am y cyngor a'r cymorth i'w darparu i ffermwyr i gael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cred yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mai'r swyddogaeth cymorth cynghori o fewn y cynllun a sut mae'r Bil yn galluogi sy'n hollbwysig.¹¹⁴

Cymorth ar gyfer Gweithgareddau Ategol (Adran 8(1) ac Adran 49)

131. Croesawodd nifer o randdeiliaid bwerau yn adran 8(1) i Weinidogion Cymru gynorthwyo gweithgareddau ategol i wella'r gadwyn gyflenwi ehangach a helpu ffermwyr i fynd â'u cynhyrchion i'r farchnad. Roedd cadwyni cyflenwi byrrach a sofraniaeth bwyd yn fanteision a nodwyd.

132. Roedd y ddau undeb ffermio yn pryderu y gallai ehangder y pwerau cymorth ategol o dan adran 49(a) gyfeirio cymorth oddi wrth ffermwyr actif. Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru eisiau i gwmpas y diffiniad gael ei gulhau i gynnwys '*cynhyrchwyr cynhyrchion amaethyddol*' yn unig, a thynhau'r dosbarth o weithgareddau atodol yn adran 49(b) fel bod y cynhyrchion y cyfeirir atynt yn deillio o amaethyddiaeth Cymru yn hytrach nag '*amaethyddiaeth*' yn unig.¹¹⁵ Roedd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn bryderus ynghylch ehangder y diffiniad a'r posibilrwydd o'i ehangu ymhellach o dan adran 50.¹¹⁶

133. Fodd bynnag, roedd Coed Cadw yn cresawu'r pŵer hwn i ymestyn y cymorth i gadwraeth natur ehangach ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth. Dywedodd fod llawer o'r gweithgareddau ategol hyn yn angenrheidiol i gynnal cynaliadwyedd cynhyrchu amaethyddol.¹¹⁷

134. Galwodd cynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd am ddull cytbwys o gynorthwyo cynhyrchwyr bwyd a'r rhai y tu hwnt i gât y fferm i sicrhau system

¹¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹¹⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 296

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR02 (Saesneg yn unig)

fwyd-amaeth gynaliadwy, ac na chynghorir gwahanu'r gwahanol elfennau. Awgrymodd Simon Wright fod 'cyflenwol' yn air gwell nag 'ategol':

*"Because what we're talking about here is creating the right legislative economic context for agriculture to be able to fulfil these objectives, but also to survive and thrive economically. That's the purpose of these ancillary aspects. I think it's important that they're not seen as divorced. I know that there's some comment about how many resources will be given to ancillary and how many will be given directly to farmers, but it's part of the same picture. What we're trying to do is create an economically sustainable environment for this going forward. So, I think that's quite important."*¹¹⁸

135. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau y byddai'n rhaid i gymorth ar gyfer gweithgareddau ategol ychwanegu gwerth at fusnesau fferm ac nid oedd eisiau dargyfeirio cymorth draw oddi wrth y ffermwyr.

Ystyr "gweithgareddau ategol" (Adran 49)

136. Mae adran 49 yn diffinio "gweithgaredd ategol" at ddibenion y Bil. Yn yr ail sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 16 Tachwedd, gwnaeth y Gweinidog yn glir bod cefnogaeth i raddau helaeth i ffermwyr actif o dan y diffiniad yn adran 49(b), i beidio â thynnu arian allan o'r gronfa ar eu cyfer, ac roedd llawer o ffermwyr yn chwilio am gefnogaeth i arallgyfeirio. Eglurodd y Gweinidog a swyddogion, fel y nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol, y dylid ystyried ystyr 'amaethyddiaeth' ac ystyr 'gweithgaredd ategol' gyda'i gilydd, nid ar eu pen eu hunain, fel mai dim ond i ffermwyr sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a gweithgareddau ategol y byddai cymorth yn cael ei ddarparu. Cafodd y Pwyllgor wybod:

*"The policy intent is that the farmer would have to be involved in that processing, packaging, marketing and branding etc."*¹¹⁹

137. Er nad yw'r Bil yn atal hyn, nid oes dim yn y gwaith drafftio adrannau 8 a 49(b) i dargedu neu gyfyngu ar y cymorth yn unol â bwriad y polisi. Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Tachwedd, awgrymwyd bod y Gweinidog yn ystyried adolygu geiriad yr agwedd hon ar y Bil i gael gwared ar y dryswch ynghylch agwedd sylfaenol ar y darpariaethau cymorth. Gallai'r diffiniad culach hefyd godi pryderon i gynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi bwyd a oedd wedi

¹¹⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 61

¹¹⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 96

ystyried bod cwmpas y cymorth sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau y tu hwnt i gât y fferm yn ehangach.

138. Roedd Confor eisiau i bren a ffibr pren gael ei gynnwys yn y diffiniad o weithgaredd ategol oherwydd o ran diogelwch bwyd, rydym wedi parhau i beidio â siarad am ddiogelwch pren. Mae'r cynhyrchion hyn yr un mor allweddol yn ein bywyd bob dydd â bwyd ond mewnforir 85 y cant o'r pren a ddefnyddir yn y wlad hon.¹²⁰ Gwrthododd y Gweinidog hyn – dywedodd nad oedd y Bil yn Fil Coedwigaeth – roedd y sector pren a choedwigaeth ehangach y tu allan i gwmpas y Bil, ond roedd yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng deddfwriaethol ar gyfer darpariaethau penodol ar bwerau trwyddedu cwmpo coed. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod pwynt Confor yn un dilys a phwysig, ond mae'n ei ystyried yn fater i'w godi gyda'r Gweinidog y tu allan i gwmpas y Bil hwn.

139. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd y gallai'r geiriad ynglŷn â 'gweithredu ar dir' achosi dryswch, gan nodi diffyg statws diffiniadau'r Bil mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth megis coedwigaeth, cynllunio a thenantiaeth. Dywedodd mewn llawer o achosion, nad yw gweithredu ar dir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth i greu a rheoli cynefinoedd, neu at ddibenion eraill sy'n ymwneud â chadwraeth natur, yn ogystal â chynnal a gwella gwytnwch ecosystemau, o reidrwydd yn gofyn am newid defnydd tir ond ar ba raddfa y cyflawnir gweithgareddau cyfredol. Dywedodd fod cynnwys y rhain fel 'gweithgaredd ategol' yn gwahanu dibenion integredig yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac yn cynnal deuoliaeth naill ai cynhyrchu bwyd neu reoli amgylcheddol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol (tudalen 51, paragraff 3.159) y cyfeirir at reoli tir amgylcheddol fel gweithgaredd nad yw'n amaethyddol lle mae mewn llawer o achosion yn 'amaethyddiaeth', er ar raddfa neu lefel ehangach.¹²¹

Barn y Pwyllgor

140. Mae'r Aelodau'n cwestiynu a yw ystyr cefnogaeth i weithgareddau ategol wedi'i wneud yn ddigon clir yn y Bil, o ystyried pryderon a fynegwyd gan randdeiliaid er eu bod wedi bod yn rhan o'r gwaith cyd-ddylunio. Yn ystod sesiynau tystiolaeth, gyda chynrychiolwyr y gadwyn cyflenwi bwyd er enghraifft, roedd rhagdybiaeth y byddai'r cymorth hwn yn cael ei ddarparu y tu hwnt i gât y fferm, i'r rhai sy'n ymwneud â phrosesu, pacio a dosbarthu cynhyrchion, ond nad oeddent yn ffermwyr eu hunain. Mae'n bwysig bod "gweithgareddau ategol" yn

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

cael eu diffinio'n glir yn y Bil fel rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth os mai dyna yw bwriad y polisi.

Argymhelliad 16. Dylai'r Gweinidog roi rhagor o eglurder ynghylch cwmpas y cymorth ar gyfer "gweithgaredd ategol" fel y'i diffinnir yn adran 49 o'r Bil, er budd y rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag amaethyddiaeth ac yn anuniongyrchol yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Dylai'r Gweinidog hefyd gadarnhau a yw'n bwriadu cyflwyno gwelliant/gwelliannau i eiriad adran 8(1) a/neu'r diffiniad o "weithgaredd ategol" yn adran 49, er mwyn gwella dealltwriaeth ac er mwyn osgoi amheuaeth.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog adolygu geiriad 'gweithredu ar dir' yn adran 49 a chyflwyno unrhyw welliant angenrheidiol i osgoi unrhyw ddryswch neu faterion sy'n deillio o ddiffyg statws â deddfwriaeth berthnasol arall.

Rhestr o Ddibenion (Adran 8)

141. Byddai adran 8 y Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag, amaethyddiaeth yng Nghymru a gweithgareddau ategol sy'n cael eu cynnal yng Nghymru. Mae'r rhestr o ddibenion y gellir darparu cymorth ar eu cyfer wedi'i nodi yn adran 8(2). Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth helaeth ynghylch y rhestr o ddibenion, gan gynnwys sut y maent yn cysylltu'n ôl â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn adran 1 o'r Bil.

142. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai cynnwys addasu i newid hinsawdd gael ei ystyried yn arbennig o bwysig i gyflawni'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.¹²²

143. Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur fod angen tynhau'r amwysedd ynghylch y diffiniad o gynhyrchu bwyd cynaliadwy. Dywedodd hefyd y dylai gynnwys cymorth ariannol ar gyfer seilwaith, peiriannau ac offer sy'n cysylltu â'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy, gan fod ffermio yn ddiwydiant cyfalaf-ddwys.¹²³ Roedd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur a chynrychiolwyr y gadwyn cyflenwi bwyd hefyd eisiau taliadau posibl i ffermwyr ar gyfer addysg yn ymwneud ag o ble ddaw bwyd, sut mae'n effeithio ar natur a hinsawdd a'i rôl wrth gefnogi cymunedau gwledig bywiog.¹²⁴

144. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylid diwygio adran 8(2)(a) i "*annog cynhyrchu bwyd mewn modd sy'n amgylcheddol, economaidd,*

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

¹²³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 65

¹²⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 65

gymdeithasol a diwylliannol gynaliadwy", ac y dylid ymgynghori ar unrhyw reoliadau i ddiwygio'r rhestr o ddibenion (a wneir o dan adran 8(4)).¹²⁵

145. Nododd Confor hefyd mai "*cynhyrchu bwyd*" a ddefnyddir yn adran 8(2)(a) ("*annog cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy*"), tra mewn mannau eraill yn y Bil caiff ei gyfuno fel "*cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill*".¹²⁶

146. Dywedodd RSPB Cymru ei fod yn fframwaith eithaf cynhwysfawr ond mae'n dibynnu ar sut mae'n trosi i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd RSPB Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru yn cytuno'n gryf fod yn rhaid rhestru adfer byd natur fel blaenoriaeth a'i gynnwys ar wyneb y Bil. Dywed fod angen cyfeirio'n uniongyrchol at adfer natur a bioamrywiaeth fel diben. Roedd grwpiau amgylcheddol yn galw am ddull ecosystem 'DECCA': amrywiaeth, maint, cysylltedd, cyflwr a'r gallu i addasu.

147. Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru yn pryderu nad yw'r rhestr o ddibenion, fel y'i hysgrifennwyd, yn addas ar gyfer y dyfodol ac nad yw'n cefnogi perchnogaeth gymunedol.¹²⁷ Hoffai WWF weld 'gwella mynediad y gymuned at nwyddau lleol' yn cael ei ychwanegu, i gefnogi datblygiad Amaethyddiaeth a Gefnogir gan y Gymuned.¹²⁸

148. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant ac undebau ffermio yn teimlo bod y rhestr yn canolbwyntio'n rhy gul ar ddibenion amgylcheddol a bod angen cynnwys meini prawf sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd economaidd ac effaith gymdeithasol/diwylliannol. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylid cynnwys bywiogrwydd gwledig a diogelwch bwyd.¹²⁹

149. Galwodd Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru am gyfeirio at rôl arloesedd yn y modd mae cadwyni cyflenwi a thir yn cael eu rheoli.¹³⁰

150. Dywedodd Cerddwyr Cymru ar adran 8(2)(h) - 'cynnal' mynediad y cyhoedd - y dylai cydymffurfiaeth tiffeddianwyr â gofynion Deddf Priffyrdd 1980 fod yn rhan o'r llinell sylfaen reoleiddiol a'r gwiriadau cymhwysedd i fod yn gymwys i gael cymorth.¹³¹

¹²⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraff 37

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹²⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 68

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR32 (Saesneg yn unig)

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹³⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 75

¹³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR43 (Saesneg yn unig)

151. Nid yw'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y rhestr o ddibenion ac mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru ymhlith y rhai sy'n galw am ei chynnwys, gan nodi mai'r sector amaethyddiaeth sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Wrth gyflwyno'r Bil, dywedodd y Gweinidog mai ei bwriad oedd unioni hyn drwy welliant.

152. Dywedodd y Gweinidog nad oedd y rhestr o ddibenion yn hollgynhwysfawr ac y gellid ei diwygio dros amser drwy reoliadau. Dywedodd James Owen y byddai'r rhestr yn dod yn fyw yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, er enghraifft i gefnogi prosiectau seilwaith cyfalaf ac arloesedd. O ran y galwadau am roi'r un pwyslais i adferiad byd natur â darpariaethau'r hinsawdd, dywedodd y Gweinidog ei fod ymhlyg wrth gyflawni pob un o'r pedwar amcan mewn ffordd gyfannol, gan nad oedd hierarchaeth, gyda dull 'fferm gyfan'. Er bod y Gweinidog hefyd yn cydnabod y gallai mesurau gweithredu ar yr hinsawdd weithiau weithio yn erbyn nodau bioamrywiaeth.

Barn y Pwyllgor

153. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r galwadau cryf gan randdeiliaid am rai diwygiadau i'r rhestr o ddibenion, ac yn gwahodd y Gweinidog i ystyried y dadleuon hyn yn ofalus gyda golwg ar gyflwyno gwelliannau i fynd i'r afael â'u pryderon. Yn benodol, mae'r Pwyllgor o'r farn bod 'arloesedd' yn hepgoriad sylweddol o'r rhestr, fel y mae'r Gymraeg, a'i fwriad yw cefnogi cynnwys mynediad y gymuned ac addysg am systemau bwyd yn y rhestr. Mae'n bwysig bod yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn adran 1 o'r Bil yn cyd-fynd yn llawn ac yn benodol â'r rhestr o ddibenion a nodir yn adran 8.

Argymhelliaid 18. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor ynghylch hepgoriadau o'r rhestr o ddibenion yn adran 8, neu ddarparu sail resymegol dros beidio â chynnwys elfennau ychwanegol.

Cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid, olyniaeth a chynlluniau bwyd cymunedol

154. Roedd nifer o randdeiliaid o'r farn bod diffyg darpariaeth yn y Bil fel y'i drafftwyd i gynorthwyo olyniaeth, newydd-ddyfodiaid a modelau perchnogaeth gymunedol amgen. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer cydweithredu cymunedol a chefnogi cynhyrchu bwyd lleol a busnesau lleol.¹³² Awgrymodd Cyswllt Amgylchedd Cymru y dylai'r Bil roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnwys y rhain wrth ddylunio cynlluniau. Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru

¹³² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 70

hefyd y dylai'r Bil gefnogi atal y broblem o dir yn cael ei werthu i'r cynigydd uchaf. Mae'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur yn galw am well cymorth ariannol i newydd-ddyfodiaid mewn diwydiant cyfalaf-ddwys ac ymdrechion i ddeall pam mae olyniaeth yn broblem. Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn ceisio cynnwys cynhyrchiant ar y fferm a helpu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant yn adran 8 o'r Bil. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn edrych ymlaen at weld syniadau gan y gweithgor ar newydd-ddyfodiaid ar sut i'w cefnogi.

155. Cafodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru ei siomi o weld nad oedd cyfeiriad at Ystadau Tyddyn y Cynghorau Sir, er gwaethaf y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn aml yn siarad am eu pwysigrwydd a'u pryder ynghylch y graddau maent yn cael eu colli drwy gael eu gwaredu mewn modd amhriodol. Mae o'r farn bod y Tyddynnod Cyngor Sir hyn yn allweddol i newydd-ddyfodiaid, ond nodwyd fod 30 y cant ohonynt wedi cael eu colli yn y 30 mlynedd diwethaf. Cred y dylai'r Bil gynnwys pwerau i Weinidogion graffu ar gynlluniau ystadau gwledig a'u cymeradwyo ar gyfer gwaredu (yn rhannol neu yn eu cyfanrwydd) er mwyn sicrhau'r gwerth gorau. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau:

*"Welsh Ministers have always had a statutory duty in relation to the activities of local authorities and smallholdings...I have to have an annual report from local authorities about their smallholdings, and I think it is fair to say there isn't much of a strategic view across the whole of Wales, so I have asked the [new entrants] working group to have a look at this and see how we can have a much more co-ordinated approach, really, across all the local authorities."*¹³³

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i ystyried anghenion newydd-ddyfodiaid, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar gamau eraill a fydd yn cael eu cymryd o ganlyniad i waith y gweithgor newydd-ddyfodiaid.

Sefydlogrwydd incwm a diogelwch bwyd

156. Yn ôl cynrychiolwyr y gadwyn gyflenwi fwyd ac undebau ffermio, mae angen mwy o bwyslais ar ddiogelwch bwyd yn y fframwaith newydd. Ystyriwyd diogelwch bwyd yn eang, e.e. drwy wella'r amgylchedd a hefyd blaenoriaethu mewnforion/allforion i ychwanegu gwerth. Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru ac Undeb Amaethwyr Cymru y gall cynhyrchiant a chynaliadwyedd gyd-fodoli, er enghraifft drwy wneud systemau'n fwy effeithlon.

¹³³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 156

Roedd yn well gan Cyswllt Amgylchedd Cymru a WWF Cymru y term 'sofraniaeth bwyd' na diogelwch bwyd - gan fynd i'r afael â'r anghyfliniad rhwng cynhyrchu a bwyta yng Nghymru.¹³⁴ Dywedodd Cyswllt Amgylchedd Cymru fod angen mwy o eglurder yn y Bil ynghylch sut mae'r camau gweithredu yn cydgysylltu i ddarparu sefydlogrwydd incwm drwy ffermio sy'n gyfeillgar i natur. Dywedodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur fod y syniad bod ffermio sy'n gyfeillgar i natur yn groes i sicrwydd bwyd yn syniad hen ffasiwn.¹³⁵ Dywedodd RSPB Cymru fod Cynllun y Taliad Sylfaenol mewn gwirionedd wedi lleihau sefydlogrwydd incwm ffermydd, ac y gall dulliau amgylcheddol gyda llai o fewnbynnau (e.e. porthiant, gwrtaith) ei gynyddu.¹³⁶

157. Dywedodd cynrychiolwyr y sector bwyd fod diogelwch bwyd yn fater cymhleth, ond bod cost iechyd cyhoeddus gudd i fwyd â chymhorthdal - roedd Dr Dobbs a Dr Petetin yn cefnogi hyn, gan nodi ei fod yn elfen sydd ar goll o'r Bil.¹³⁷ Rhybuddiodd y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ynghylch diffinio'r hyn a olygir gan 'ddiogelwch bwyd':

*"...We've intensified farming over the last 50 years, and it hasn't solved the food security issue. We've got public health issues in Wales: 60 per cent of adults are overweight or obese; 9 per cent of Wales experiencing low food security; one out of five worrying about food running out. We waste 400,000 tonnes of food every year...one in six wildlife species are threatened with extinction. And for every £1 we spend at the till, there is a hidden cost of £1 as well that we have to then pay through taxpayers' money, mainly due to public health and environmental issues. So, again, this notion that direct income support might lead to cheap food—it's only superficially cheap. We pay for it in hidden ways. So, we shouldn't use the term 'food security' lightly, and we should have a strict definition and principles behind it."*¹³⁸

158. Mae RSPB Cymru, Cynghair Gweithwyr Tir Cymru a Simon Wright i gyd wedi tynnu sylw at gyfleoedd gyda'r Bil Bwyd (Cymru), e.e. ar economïau bwyd cylchol a chaffael cyhoeddus - i ymgorffori egwyddorion ac alinio polisi o ran cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chyflawni'r rhain ochr yn ochr â'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

¹³⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 83

¹³⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 87

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig - AGR45 (Saesneg yn unig)

¹³⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 254 a 257

¹³⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 88

159. Tynnodd Simon Wright sylw at bwysigrwydd garddwriaeth sydd, meddai, angen sylw arbennig, ac sy'n cynnig cyfleoedd enfawr.¹³⁹ Roedd Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru yn cefnogi hyn ond yn mynegi pryderon y gallai ffermydd bach ffrwythau a llysiau golli allan ar gymorth drwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler adran 11 o'r Bil, isod)¹⁴⁰ Roedd RSPB Cymru o'r farn bod llai o gysylltiad rhwng ansicrwydd bwyd a chynhyrchiant, yn hytrach mae'n ymwneud â ffactorau sy'n cynnwys gwastraff bwyd, dewis deiet a thlodi bwyd.¹⁴¹

160. Argymhellodd RSPB Cymru y dylai'r Bil roi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gynnal asesiad diogelwch bwyd rheolaidd, gan gynnwys nodi cyfleoedd i gynhyrchwyr bwyd cynaliadwy o Gymru a helpu ffermwyr i arallgyfeirio.¹⁴² Nodir bod Deddf Amaethyddiaeth 2020 yn cynnwys dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd i Senedd y DU ar sicrwydd bwyd yn y DU.

161. Dywedodd RSPB Cymru fod y sgwrs yng nghyfarfod y Pwyllgor yn tynnu sylw at yr angen am gynllun neu strategaeth bwyd, cynnig a gafodd ei gefnogi gan gynrychiolwyr y gadwyn fwyd.¹⁴³ Mae ymateb Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn galw am fecanwaith ar gyfer adrodd ar gynhyrchu bwyd domestig,¹⁴⁴ ac roedd academyddion hefyd yn cefnogi mwy o ffocws ar sicrwydd a sofraniaeth bwyd yn y Bil.

162. Yn yr ail sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog dywedodd fod y Bil yn cefnogi diogelwch bwyd yn llwyr, yn benodol drwy'r pwerau i gefnogi a thrwy'r amcanion rheoli tir cynaliadwy, a'i fod yn cynnwys digon o fecanweithiau mewn perthynas â sofraniaeth bwyd.¹⁴⁵

Barn y Pwyllgor

163. Mae'r Aelodau'n nodi'r dystiolaeth helaeth a gawsant am y cyfleoedd y mae'r Bil yn eu cyflwyno i gefnogi gweledigaeth ar gyfer cynhyrchu bwyd cynaliadwy a mwy o arallgyfeirio. Bydd y Pwyllgor yn ystyried polisi bwyd ymhellach fel rhan o'i waith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru).

Argymhelliad 20. Gwahoddir y Gweinidog i ystyried y dystiolaeth gan randdeiliaid i'r Bil gael ei gryfhau ymhellach i hyrwyddo garddwriaeth a gwneud y

¹³⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 88

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

¹⁴¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, Papur briffio RSPB

¹⁴² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 91

¹⁴³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraffau 95-98

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁴⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 29

mwyaf o gyfleoedd i arallgyfeirio, ac i ystyried sut y mae amcanion y Bil yn cydfynd â barn rhanddeiliaid ar y Bil Bwyd (Cymru).

Darpariaeth bellach – yn enwedig Cynlluniau Trydydd Parti (Adran 9)

164. Roedd grwpiau amgylcheddol a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur yn croesawu cefnogaeth i gynlluniau trydydd parti. Cyfeiriodd Parciau Cenedlaethol Cymru a'r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur ill dau at rai cynlluniau yn Iwerddon - megis y **Rhaglen Burren** a'r **Prosiect Cregyn Gleision Perlog** - fel enghreifftiau llwyddiannus, ac ystyriodd y Pwyllgor y rhain yn fanylach. Yn ôl bob sôn roedd y cynlluniau wedi cael ymateb da oherwydd bod cyfran uchel o arian yn mynd i'r ffermwyr (dros 80 y cant) gyda gorbenion neu gostau gweithredu cymharol isel. Tynnodd Parciau Cenedlaethol Cymru sylw at y farn y gellid cymhwyso'r cynlluniau hyn ar gyfer tirweddau dynodedig Cymru lle mae cyfle i osod lefelau uwch ar gyfer adferiad natur a chymell ffermwyr yn llawn.¹⁴⁶ Yn y sesiwn Weinidogol gyntaf ar y Bil, dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod hyn yn ymwneud â diogelu at y dyfodol, gan nodi fel esiampl, gynllun lle mae Dŵr Cymru yn gweithio gyda ffermwyr ym Mannau Brycheiniog ar raddfa dalgylch er mwyn gwella ansawdd dŵr.¹⁴⁷

165. Roedd yr undebau ffermio yn fwy gwyliadwrus, gan fynegi pryderon ynghylch diffyg eglurder am y darpariaethau hyn. Nodwyd fod ffermwyr yn ochelgar o gynlluniau trydydd parti, oherwydd yn hanesyddol mae cyfran uwch o gyllid wedi mynd at weinyddu'r cynlluniau hyn yn hytrach na chymorth uniongyrchol. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at y risg o loteri cod post.¹⁴⁸ Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd y gallai cynhyrchwyr bwyd fod yn amharod i ddarparu gwybodaeth fusnes sensitif i weithredwyr trydydd parti. Dywedodd yr Undeb y dylai cyfeiriad at wariant trydydd parti fod yn rhan o'r trefniadau monitro ac adrodd.¹⁴⁹

Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am gymorth (Adran 10)

166. Mae Undeb Amaethwyr Cymru yn credu'n gryf y dylai fod tryloywder llawn o ran y cymorth ariannol a ddarperir gan y Llywodraeth o dan unrhyw gynllun(iau) newydd a'r rhaniadau cyfrannol cysylltiedig sy'n ymwneud â ffactorau megis

¹⁴⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 136

¹⁴⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 181

¹⁴⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Hydref 2022, paragraff 119

¹⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

biwrocratiaeth, gweinyddiaeth a chymorth uniongyrchol.¹⁵⁰ Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn gweld rhinwedd mewn ystyried trothwy *de minimis* o £1,250, gyda gwybodaeth am y rhai sy'n derbyn symiau o dan y trothwy hwn yn cael ei chyhoeddi mewn fformat dienw yn unig.¹⁵¹

Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch gwirio cymhwysedd ar gyfer cymorth, ac ati (Adran 11)

167. Nododd Confor y dylid cyfeirio at 'gymesur a rhesymol' o dan adrannau 11(1)(b) ac 11(1)(c) – ar ganlyniadau anghymwyster a gorfodi cydymffurfiaeth. Dywedodd nad oedd adennill grantiau o dan Glastir yn gymesur nac yn rhesymol, gan achosi i lawer o ffermwyr ddychryn a thynnu'n ôl o brosiectau a oedd yn ymwneud â ffensio oherwydd graddfa bosibl y ddirwy/cosb.¹⁵² Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru na ddylai gwiriadau gael eu cynnal mewn modd ansensitif neu lawdrwm, ac y dylai unrhyw wiriadau a chosbau fod yn gymesur. Pwysleisiodd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd fod yn rhaid iddi ystyried amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y ffermwyr, a byth o ganlyniad i newid polisi ar ôl i gynllun ddod i rym.¹⁵³

168. Cytunodd Cynghair Gweithwyr Tir Cymru mewn egwyddor â'r pwerau ond mae'n pryderu ynghylch y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth yn y dyfodol: bydd gofyniad 3 hectar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn eithrio llawer o ffermydd cynaliadwy rhagorol, yn enwedig ffermydd ffrwythau a llysiau. Dywedodd fod camddealltwriaeth ynghylch costau garddwriaeth a throsiant, gan ddyfynnu ei gwaith ymchwil, ac roedd yn awgrymu bod y Bil yn gofyn am archwiliad a dealltwriaeth o'r holl sectorau amaethyddiaeth, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu tangynrychioli yng Nghymru, megis garddwriaeth.¹⁵⁴

Monitro ac Adrodd ar Gymorth (Adrannau 12-14)

169. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod darpariaethau adrannau 12-14 o'r Bil yn arwyddocaol ar gyfer gwaith craffu a thryloywder, o ystyried ei bryderon blaenorol ynghylch gwerth am arian wrth gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig.¹⁵⁵ Nododd Cyfoeth Naturiol Cymru¹⁵⁶ nad oes amserlen ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau'r adroddiad effaith a allai effeithio ar ôl-weithredu. Wrth adrodd ar

¹⁵⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 ac AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR54 (Saesneg yn unig)

¹⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

effaith cymorth i ffermwyr, awgrymodd un o'r Aelodau y dylai hyn fod yn edrych ar gynhyrchiant, gan gydnabod hefyd fanteision amgylcheddol cynhyrchiant gwell.

170. Nodwyd eisoes o dan adran 4 uchod, bod gan randdeiliaid (undebau ffermio, RSPB Cymru a Pharciau Cenedlaethol Cymru) bryderon ynghylch yr amserlenni ar gyfer adrodd, gan y bydd rhai mesurau yn cymryd mwy o amser i ddangos canlyniadau.

171. Roedd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru o'r farn bod yr Adroddiad Effaith yn cwmpasu'r un maes â'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy, ac felly mai un adroddiad cyffredinol sydd ei angen. Galwodd am gyhoeddi bob tair blynedd (yn lle bob pum mlynedd fel sy'n digwydd gyda'r Adroddiad Effaith). Dywedodd Dr Dobbs fod yr adroddiad effaith, yn y bôn, yn ailadrodd i raddau yr hyn y bydd yr adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn ei wneud - nid yn gyfan gwbl, ond bydd yn bwydo'n uniongyrchol iddo. Awgrymodd hefyd fod angen adroddiadau interim, gan gydnabod bod rhai canlyniadau na fyddant yn dod i'r amlwg o fewn pum mlynedd. Ychwanegodd fod yr adroddiad yn ddefnyddiol; ond y cwestiwn yw beth fydd yn digwydd gydag ef.¹⁵⁷ Roedd yr undebau ffermio yn pryderu y byddai'r gwaith adrodd yn cynnwys costau gweinyddu sylweddol.¹⁵⁸ Nododd y Gweinidog bwysigrwydd yr Adroddiad Effaith fel mecanwaith hanfodol i ddangos lle'r oedd cymorth yn cael ei ddarparu, ac roedd yn fodlon ar yr amserlenni adrodd i fesur cynnydd.¹⁵⁹

Argymhelliaid 21. Dylai'r Gweinidog ystyried diwygio'r Bil i gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu ar ganfyddiadau unrhyw Adroddiad Effaith a gaiff ei baratoi o dan adran 13 o'r Bil.

Pennod 2 – Pwerau i addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ariannol a chymorth arall (Adrannau 15 -19)

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 2 Rhan 2 yn ei wneud

172. Mae adran 15 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu Cynllun y Taliad Sylfaenol (o ran y Polisi Amaethyddol Cyffredin) mewn perthynas â Chymru.

¹⁵⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 310

¹⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 ac AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁵⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 127-130

173. Mae adran 16 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r Polisi Amaethyddol Cyffredin mewn perthynas â Chymru.

174. Mae adran 17 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer gwenynyddiaeth (cadw gwenyn) mewn perthynas â Chymru.

175. Mae adran 18 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig (o ran y Polisi Amaethyddol Cyffredin) mewn perthynas â Chymru.

176. Mae adran 19 yn darparu nad oes dim ym Mhennod 2 Rhan 2 yn effeithio ar bwerau i addasu'r un meysydd (h.y. y Cynllun y Taliad Sylfaenol ac ati) o dan deddfwriaeth ar wahân.

Cynlluniau pontio a darpariaeth 'machlud'

177. Roedd undebau ffermio a sefydliadau amgylcheddol yn cytuno na ddylai fod dim ymyl clogwyn o ran cymorth ariannol. Roedd yr RSPB yn hyrwyddo dull gweithredu graddol, nid y dull llinellol y mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn ei ffafrio yn Lloegr¹⁶⁰, ac yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y gallai'r dull graddol hwn weithio.

178. Cynigiodd rhai grwpiau amgylcheddol ddarpariaeth machlud fel y byddai pwerau i alluogi parhau â thaliadau yn arddull y Polisi Amaethyddol Cyffredin yn dod i ben ar ddiwedd 2029. Byddai hyn yn atal defnydd amhenodol ac yn sicrhau trosglwyddiad llawn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2029. Roedd ymateb ysgrifenedig yr RSPB yn nodi os am drosglwyddo'n llwyddiannus i amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a'u cynnal, mae'n hollbwysig nad yw'r Bil yn sefydlu pwerau i gadw ac addasu deddfwriaeth Polisi Amaethyddol Cyffredin a thaliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol. Cred hefyd y dylai'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â'r Polisi a'r Cynllun ddod i ben pan fydd ffermio yng Nghymru yn trosglwyddo'n llawn i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.¹⁶¹

179. Ar y llaw arall rhybuddiodd yr undebau ffermio yn erbyn darpariaeth machlud, gan dynnu sylw at pa mor bwysig oedd sicrhau bod yr holl adnoddau ar gael i sicrhau sefydlogrwydd rhag ofn y byddai argyfwng yn codi. Dywed Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru na ddylai cynlluniau etifeddol y Polisi

¹⁶⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraffau 108-110

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

Amaethyddol Cyffredin gael eu dirwyn i ben yn raddol hyd nes y gall cynlluniau newydd ddarparu'r un lefel o sefydlogrwydd. Ni fyddai'n cefnogi unrhyw gynnig i ddiwygio'r Bil i osod terfyn amser, ac roedd yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf.¹⁶² Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y ddarpariaeth machlud, dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod wedi'i hystyried ond ei bod wedi penderfynu peidio â'i chynnwys ar y cyfan ac y byddai'n arfer y pwerau pan fyddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn barod, nid cyn 2025.¹⁶³

180. Wrth ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog:

*"Rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad i gadw Cynllun y Taliad Sylfaenol tan 2023 er mwyn rhoi cymorth i ffermwyr wrth i ni gydweithio i newid i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau nes y gallwn fod yn siŵr bod y system newydd wedi'i chynllunio'n ddigonol, ein bod wedi cynnal yr asesiadau effaith perthnasol a'n bod yn hyderus ei bod yn weinyddol ymarferol. Bydd tystiolaeth sy'n cael ei chasglu drwy Gyd-ddylunio yn cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach (ynghyd â ffynonellau tystiolaeth eraill) ac yn ein helpu i ddylunio cynlluniau yn y dyfodol. Byddaf yn ymgynghori ar y cynllun terfynol a'r trefniadau pontio yn 2023. Bydd penderfyniad terfynol ar y cynigion ac felly'r rheoliadau sy'n ffurfio'r cynllun yn cael eu gwneud ar ôl yr ymgynghoriad yn 2023."*¹⁶⁴

181. Nid yw'r Pwyllgor yn argymhell darpariaeth machlud.

182. Galwodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru am bwerau ychwanegol i Weinidogion Cymru gyflwyno taliadau cyfunol Cynllun y Taliad Sylfaenol fel cyfandaliad i helpu ag ymddeol o'r diwydiant. Dywedodd y Gweinidog nad oedd wedi ystyried y defnydd hwn o Gynllun y Taliad Sylfaenol ac nad oedd ganddi unrhyw gynlluniau i'r perwyl hwnnw, er i James Owen nodi y byddai swyddogion yn gallu cynghori'r Gweinidog ar ganlyniadau cynllun cysylltiedig â DEFRA yn Lloegr.¹⁶⁵

¹⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁶³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 207

¹⁶⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022, Papur 28

¹⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 209

Pennod 3 – Ymyrraeth mewn marchnadoedd amaethyddol

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 3 Rhan 2 yn ei wneud

183. Mae adran 20 yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle caiff Gweinidogion Cymru wneud datganiad “amodau eithriadol yn y farchnad” os bydd aflonyddwch dwys mewn marchnadoedd amaethyddol yn gyffredinol, sydd wedi cael effaith andwyol sylweddol, neu sy'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol, ar y prisiau y gellir eu cael ar gyfer cynhyrchion amaethyddol o Gymru.

184. Mae adran 21 yn nodi'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru yn ystod y cyfnod y mae datganiad amodau eithriadol yn y farchnad yn cael effaith. Gall hyn gynnwys cymorth ariannol i gynhyrchwyr amaethyddol yng Nghymru y mae'r amodau eithriadol yn y farchnad a ddisgrifir yn y datganiad wedi cael, yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol ar eu hincwm.

185. Mae adran 22 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat, i'r graddau y mae'n cael effaith o ran Cymru. Ystyr 'ymyrraeth yn y farchnad gyhoeddus' yw prynu, storio ac ailwerthu nwyddau penodol ar ôl i brisiau godi ac ystyr 'cymorth ar gyfer storio preifat' yw talu cynhyrchwyr i storio cynnyrch am gyfnod y cytunwyd arno i'w dynnu oddi ar y farchnad.

186. Roedd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru eisiau sicrwydd y bydd ymyriadau yn y farchnad yn cynnwys ffenomenau naturiol fel sychder, llifogydd a chlefydau yn ogystal â ffenomenau economaidd sy'n effeithio ar farchnadoedd. Dywedodd y dylai gwmpasu nid yn unig galedi 'acíwt' ond hefyd anawsterau hirhoedlog 'cronig' fel clefyd endemig neu newidiadau strwythurol mewn marchnadoedd amaethyddol.¹⁶⁶ Roedd Simon Wright yn bryderus ynghylch sut y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio. Cred, o ystyried yr hyn a welwyd yn ystod y tair blynedd diwethaf, y gallwn fod mewn amodau marchnad eithriadol yn gyson.¹⁶⁷ Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol o'r farn y dylid defnyddio'r pwerau hyn yn gymesur er mwyn osgoi atal ymatebion y diwydiant i risg ac effeithiau anwedddolrwydd neu fethiant y farchnad fwyd a yrrir gan yr hinsawdd.¹⁶⁸

¹⁶⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR01 (Saesneg yn unig)

¹⁶⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 151

¹⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR38 (Saesneg yn unig)

187. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru o'r farn y dylai'r Bil fynnu bod cydgysylltu'n digwydd ar draws y DU ar ymyriadau yn y farchnad, o ystyried y bydd ymwahanu'n ystumio'r farchnad.¹⁶⁹

188. Rhybuddiodd Dr Dobbs yn erbyn unrhyw ofynion unochrog ar Weinidogion Cymru yn y Bil i sicrhau cydgysylltu â gwledydd eraill. Yn hytrach, awgrymodd y gallai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymhwyso prosesau fframwaith cyffredin. Dywedodd y Gweinidog mai'r Fframwaith Cyffredin ar Gymorth Amaethyddol oedd y mecanwaith priodol.¹⁷⁰ Nododd James Owen, mewn perthynas ag anawsterau 'aciwt' a 'chronig', y pŵer ar gyfer 'estyniad treigl' pe bai angen a phwerau eraill y gellid eu defnyddio.¹⁷¹

189. Dywedodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru, Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru, y dylai Gweinidogion Cymru ystyried costau ac argaeledd mewnbynnau, yn ogystal â'r prisiau y gellir eu cyflawni am un math neu ragor o gynnyrch amaethyddol.¹⁷²

190. Dywedodd y Gweinidog y byddai unrhyw aflonyddwch ar fusnes ar raddfa fawr y mae'n amlwg nad yw'n fai ar ffermwyr yn cael ei ystyried ar gyfer ymyriadau, gan gynnwys tywydd eithafol, ac y byddai'n bwysig cydgysylltu â gwledydd eraill y DU.¹⁷³

191. Mae ymateb y Gweinidog¹⁷⁴ i lythyr y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu dod ag Ymyrraeth Gyhoeddus i ben a diwygio cynlluniau Cymorth Storio Preifat yn neddfwriaeth Cymru yn 2023. Mae'n dweud bod cynlluniau Ymyrraeth Gyhoeddus yn ffurf aneffeithlon o ran cymorth marchnad a bod ganddynt gostau cysylltiedig uchel. Mae'n bwriadu dileu'r gofynion i weithredwyr gyflwyno gwarant ar gyfer contractau Cymorth Storio Preifat ac i'r Asiantaeth Taliadau Gwledig gynnal archwiliadau interim o gynhyrchion mewn cynlluniau o'r fath.

¹⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 213

¹⁷¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 215

¹⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR01; AGR27; AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁷³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 5 Hydref 2022, paragraff 62, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 213-214

¹⁷⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2022, Papur i'w nodi 2.6

Pennod 4 – Tenantiaethau amaethyddol

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 4 Rhan 2 yn ei wneud

192. Mae adran 23 yn diwygio adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986). Effaith y diwygiad hwn yw rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gynnig modd i denantiaid amaethyddol penodol ddatrys anghydfodau â landlordiaid ynghylch cymalau cyfyngol yn eu cytundebau tenantiaeth, a allai eu hatal rhag manteisio ar y cymorth ariannol a gaiff ei ddarparu o dan y Bil.

193. Rheolir cyfran sylweddol o dir ffermio yng Nghymru drwy gytundebau tenantiaeth. Mae dau brif fath o denantiaeth amaethyddol:

- Tenantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (Deddf 1986) - y rhai y cytunwyd arnynt cyn 1 Medi 1995; a
- Thenantiaethau Busnes Fferm sy'n cael eu llywodraethu gan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995 (Deddf 1995) - y rhai y cytunwyd arnynt ar ôl 1 Medi 1995.

194. Gallai cymalau cyfyngu mewn rhai cytundebau tenantiaeth atal ffermwyr tenant rhag cael mynediad at gynlluniau cymorth yn y dyfodol. Nid yw Deddf 1986 yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ar gyfer datrys anghydfod sy'n caniatáu i denantiaid o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol herio cymalau cyfyngu.

195. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch diwygio tenantiaethau yn 2019 yn dilyn gwaith y Grŵp Diwydiant Diwygio Tenantiaeth (TRIG), sy'n grŵp cynghori diwydiant. Cyflwynwyd nifer o gynigion drwy Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, ac nid yw'r rhain yn amodol ar ddarpariaeth machlud 2024. Roedd cynnig pellach, a gafodd gefnogaeth yn y gwaith diwygio tenantiaethau, ond nad oedd wedi'i gynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth 2020. Roedd hyn er mwyn galluogi tenantiaid i gyfeirio at geisiadau cyflafareddu neu benderfyniad trydydd parti am ganiatâd y landlord i ymgymryd â gweithgareddau cyfyngedig yn eu cytundeb neu amrywio telerau'r denantiaeth. Y diben perthnasol yw galluogi tenantiaid y Ddeddf Daliadau Amaethyddol i gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig cynlluniau amaethyddol yn y dyfodol. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol bwrw ymlaen â'r cynnig drwy'r Bil. Mae'r **crynodeb o ymatebion** i Bapur Gwyn y Bil yn nodi (tudalen 4):

"Codwyd pwysigrwydd diogelu tenantiaid gan ymatebwyr, gan gynnwys wrth gael mynediad at gymorth a sicrhau eu bod yn

cael eu gwobrwyo'n ddigonol am stiwardiaeth y tir. Roedd thema fwy ymylol yn cynnwys landlordiaid, a fynegodd bwysigrwydd cysoni cefnogaeth a'i wneud yn gydnaws â gofynion penodol y landlord. Roedd cefnogaeth eang, fodd bynnag, i bwysigrwydd a gwerth fframweithiau datrys anghydfod a geir o fewn y cynigion."

196. Roedd tystiolaeth i'r Pwyllgor yn dangos gwahaniaeth barn clir ynghylch a ddylai'r darpariaethau Tenantiaethau Amaethyddol ym Mhennod 4 o'r Bil hefyd fynd i'r afael â Thenantiaethau Busnes Fferm a grëwyd o dan Ddeddf 1995, yn ogystal â thenantiaethau'r Ddeddf Daliadau Fferm o dan Ddeddf 1986.

197. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod cynigion y Bil yn eu ffurf bresennol yn cynrychioli problem benodol ac aciwt i denantiaid nad yw'r Bil yn mynd i'r afael ag ef a bydd yn eu difreinio mewn ffordd sy'n mynd yn groes i'r Ddeddf Llesiant. Roedd yn pryderu y gallai'r pwerau o bosibl achosi anghydfod rhwng tenantiaid a landlordiaid.¹⁷⁵ Roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn croesawu adran 23, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer tenantiaid y Ddeddf Daliadau Fferm, ond roedd yn nodi sylwadau'r aelodau ffermio sy'n denantiaid sy'n credu y dylid gwneud darpariaeth debyg ar gyfer tenantiaid busnes fferm o dan Ddeddf 1995. Dywedodd ei fod yn parhau i fod ag amheuon difrifol ynghylch gallu ffermwyr i gael mynediad at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru hyd yma.¹⁷⁶ Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod cynnwys datrys anghydfod yn gam ymlaen ond mae hefyd yn codi materion ymarferol o ran amseru a chost.¹⁷⁷

198. Pwysleisiodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru ei fod yn hepgoriad o bwys nad yw'r Bil yn ymestyn i Denantiaethau Busnes Fferm i helpu'r ffermwyr tenant hynny i gael mynediad at gymorth yn y dyfodol. Dywedodd fod angen amddiffyn Tenantiaethau Busnes Fferm oherwydd eu natur byrdymor, telerau cyfyngol a rhenti uchel. Tynnodd sylw at y ffaith bod Tenantiaethau Busnes Fferm yn cwmpasu tua hanner y sector tenantiaid ac yn debygol o gyfrif am y mwyafrif o denantiaethau fferm maes o law.¹⁷⁸ Dywedodd Confor hefyd fod Tenantiaethau Busnes Fferm yn gorchuddio tua 300,000 hectar o dir fferm Cymru ac mae'n amryfusedd peidio â'u hystyried fel rhan o'r ddeddfwriaeth hon.¹⁷⁹

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR01 (Saesneg yn unig)

¹⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

199. Mae adran 23 o'r Bil yn diwygio adran 19A o Ddeddf Daliadau Fferm 1986, ond dywedodd Confor fod adran 19a yn methu â mynd i'r afael yn llawn â'r seiliau dros apelio gan y tenant i wrthwynebiad landlord lle mae angen caniatâd ac nid yw'n mynd i'r afael yn llawn â'r rhesymau dros hynny. Er y gallai rhai pryderon gael eu codi ynghylch y ffaith bod llai o dir ar gael i'w osod, dylai'r sefyllfa bresennol fod yn un o allu cyfartal i reoli'r tir ar gyfer canlyniadau rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy.¹⁸⁰

200. Mae Confor yn cefnogi'r broses datrys anghydfod, gan fod llawer o ffermwyr tenant wedi'u heithrio o gynlluniau coedwigo ar hyn o bryd oherwydd telerau eu Tenantiaeth Deddf Daliadau Fferm. Dywedodd Confor:

*"Whilst it may be the case that some landlords will seek to enter into alternative land use schemes, the existing tenanted sector is essential to maintain the cultural, social and farming heritage of Wales. Tenant farmers will still be limited in their ability to engage with the SFS and principally deliver the requirement for 10% tree cover. This feels like a grave oversight in creating opportunities for both Landlords and Tenants to benefit from the SFS and lead in creating partnership models that may be of benefit to the wider industry."*¹⁸¹

201. Yn wahanol i safbwynt yr undebau ffermio, Confor a Cyfoeth Naturiol Cymru, dywedodd y Gweinidog fod mecanweithiau digonol eisoes ar waith ar gyfer Tenantiaethau Busnes Fferm, yn wahanol i Denantiaethau'r Ddeddf Daliadau Fferm y mae'r Bil yn mynd i'r afael â hwy. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Tachwedd eglurwyd yn fanwl sut yr oedd y ddwy ddeddf tenantiaeth yn cael eu llunio'n wahanol a'r rhesymau dros ddiwygio Deddf 1986. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd newidiadau i Ddeddf 1986 yn ei gwneud yn gyson â'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn adran 28 o Ddeddf 1995. Cred fod yr adran honno'n darparu trefniadau digon eang i faterion gael eu cyfeirio at gyflafareddiad.¹⁸²

202. Dywedodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru hefyd fod y diffiniad o 'amaethyddiaeth' yn y Bil ond yn effeithio ar weithrediad mewnol y Bil. Mae o'r farn y dylai'r Bil ddiwygio'r diffiniad o amaethyddiaeth sy'n berthnasol i denantiaethau amaethyddol (tenantiaethau'r Ddeddf Daliadau Amaethyddol a Thenantiaethau Busnes Fferm) drwy ddiwygio diffiniad Deddf 1986. Yn yr un modd mae o'r farn y dylid diweddarau 'rheolau hwsmonaeth dda', sy'n berthnasol i

¹⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

¹⁸² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 266

denantiaethau fferm i gynnal 'safon resymol o gynhyrchu effeithlon', er mwyn sicrhau budd amgylcheddol ehangach neu fudd cyhoeddus i gyd-fynd â'r Bil. Dywedodd y Gymdeithas Ffermwyr Tenant yng Nghymru y byddai'r diwygiadau hyn yn helpu tenantiaid i gael mynediad at gynlluniau newydd.

203. Clywodd yr Aelodau, er bod gweithgor tenantiaeth fferm wedi'i sefydlu, nad oedd wedi'i sefydlu mewn pryd i lywio datblygiad y Bil. Yn hytrach, bydd yn rhan o'r ymgynghori ar welliannau'r Llywodraeth i'r Bil. O ran a fyddai'r diffiniad o amaethyddiaeth yn Neddf 1986 yn rhwstr i fynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad yw'r diffiniad o 'amaethyddiaeth' yn y Ddeddf honno yn hollgynhwysfawr, ac felly nid ystyrir y byddai'n rhwstr i ffermwyr allu cael mynediad.¹⁸³

204. Wrth ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar faterion o ran mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at ganfyddiadau adroddiad gan y Farwnes Kate Rock, Cadeirydd y Gweithgor Tenantiaeth Annibynnol a noddir gan DEFRA, gan ddweud:

*"Rydym yn deall y gallai rhai tenantiaid ei gweld hi'n anodd cynnal y gweithredoedd opsiynol oherwydd telerau eu cytundeb tenantiaeth. Rydym wrthi'n ystyried sut y gallai landlordiaid a thenantiaid gydweithio i lofnodi cytundebau er budd y ddwy ochr, fel yr enghreifftiau yn **Adolygiad Rock**."*¹⁸⁴

Barn y Pwyllgor

205. Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ynghylch a yw darpariaethau'r Bil fel y'i drafftwyd yn ddigonol i ddiwallu anghenion ffermwyr sy'n gweithredu o dan y ddau fath o denantiaeth amaethyddol i gael cymorth yn y dyfodol. Er bod y Pwyllgor yn nodi tystiolaeth y Gweinidog a swyddogion ar y pwynt hwn, a bod proses ymgynghori barhaus gan Lywodraeth Cymru gyda Gweithgor Ffermwyr Tenant, byddai'n dal i groesawu rhagor o eglurhad ynghylch sut mae pryderon ffermwyr tenant o ran cwmplas y darpariaethau ym Mhennod 4 yn cael sylw. Dylai hyn gynnwys a yw'r Gweinidog yn bwriadu iddynt gael sylw drwy ddiwygio'r Bil ymhellach neu drwy ddulliau eraill.

Argymhelliaid 22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut yr eir i'r afael â phryderon ffermwyr tenant ynghylch y darpariaethau datrys anghydfod yn y Bil.

¹⁸³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 233

¹⁸⁴ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022, Papur 28

Dylai hyn gynnwys cadarnhau a yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno gwelliant/gwelliannu i Bennod 4 o'r Bil, neu fel arall ymgynghori â'r Pwyllgor ar ei sail resymegol ar gyfer dull arall.

5. Rhan 3 - Materion sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a chynhyrchion amaethyddol

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer casglu a rhannu data, safonau marchnata a dosbarthu carcasau. Ac eithrio adrannau 26 a 27 newydd, mae'r darpariaethau yn y rhan hon wedi'u cynnwys ar hyn o bryd yn Neddff Amaethyddiaeth 2020, ond byddant yn 'machlud' ar ddiwedd 2024.

Pennod 1 – Casglu a rhannu data

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 3 yn ei wneud

206. Mae adran 24 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sydd mewn "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth", neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn gyflenwi o'r fath, ddarparu gwybodaeth am eu gweithgareddau mewn cysylltiad â'r gadwyn gyflenwi honno.

207. Mae adran 25 yn diffinio "cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth", pobl "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth a phobl sydd â "chysylltiad agos" â chadwyn gyflenwi bwyd-amaeth.

208. Mae adran 26 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i unigolyn sy'n cynnal "gweithgaredd perthnasol" (ac nad yw'n unigolyn sydd "mewn" cadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sydd â "chysylltiad agos" â chadwyn gyflenwi o'r fath) ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwnnw.

209. Mae adran 27 yn diffinio "gweithgaredd perthnasol" at ddibenion Pennod 1.

210. Mae adran 28 yn pennu bod yn rhaid i ofynion gwybodaeth a osodir o dan adrannau 24 a 26 bennu'r dibenion y caniateir prosesu'r wybodaeth ar eu cyfer. Rhoddir rhestr o'r dibenion.

211. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gofyniad ar ffurf drafft cyn iddo gael ei osod.

212. Mae adran 30 yn nodi, pan ddarperir gwybodaeth mewn ymateb i ofyniad, mai dim ond at y dibenion a bennir yn y gofyniad y caniateir i'r wybodaeth gael ei phrosesu.

213. Mae adran 31 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan adran 24 neu 26. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cosbau am beidio â chydymffurfio ac ynghylch apelio.

Trosolwg

214. Mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 3 o'r Bil sy'n ymwneud â chasglu data yn cael eu cario drosodd o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, ac eithrio darpariaeth o dan ddwy adran 26 a 27 newydd. Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â'r pwerau i gasglu tystiolaeth gan y rhai sy'n ymwneud â "gweithgaredd perthnasol" yn y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Diffinnir "gweithgaredd perthnasol" yn adran 27 at y dibenion hyn drwy gyfeirio at y diffiniadau o 'amaethyddiaeth' a 'gweithgaredd ategol' yn adrannau 48 a 49 o'r Bil. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi'r angen am newid trawsnewidiol yn y sector bwyd-amaeth a dywedodd, er mwyn cael atebion effeithiol, bod angen data o bob rhan o'r gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Hoffai weld y gallu i Weinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu i gynorthwyo Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ei ddyletswydd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy ac i ofynion adrodd statudol gael eu cynnwys yn adran 28(4).¹⁸⁵

215. Darparodd Undeb Amaethwyr Cymru ymateb manwl ar fanteision casglu data'n well, llai o ddyblygu, a gwell defnydd o ddata a gasglwyd eisoes, yn ogystal â'r angen am gysondeb rhwng cronfeydd data y DU.¹⁸⁶

216. Mae gan y Pwyllgor bryderon ynghylch sut y gallai gwybodaeth gael ei rhannu â thrydydd partïon a diogelu'r ddeddfwriaeth ar gyfer y dyfodol yn sgil y dymuniad a fynegwyd gan Lywodraeth y DU i ddiwygio deddfwriaeth diogelu data gyfredol yn y DU ("Deddfwriaeth Diogelu Data") - ystyriwyd y goblygiadau i ffermwyr. Mynegodd Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru bryder ynghylch arfer y pwerau, a nodwyd yr hoffent weld mwy o fesurau diogelu data yn y Bil.¹⁸⁷ Dylid nodi nad yw'r darpariaethau ar ddiogelu data yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 (paragraff 19 o Atodlen 5) yn

¹⁸⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

¹⁸⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁸⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27; AGR37 (Saesneg yn unig)

ymddangos yn y Bil. Amlygodd y ddau undeb ffermio hefyd, gan nad yw dyfodol Deddfwriaeth Diogelu Data yn hysbys, fod angen i'r Bil gynnig amddiffyniad, ac mae'n galw am eglurder ar gyrchfan y data. Amlygwyd y pryder ynghylch y posibilrwydd yn y dyfodol i ddata gael eu rhannu'n rhyngwladol i wledydd sydd â safonau diogelu data is.¹⁸⁸

217. Roedd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru o'r farn y gallai digon o ddiogelwch gael ei gynnwys mewn gofynion cyhoeddi data heb 'fframwaith cymhleth' ar wyneb y Bil. Serch hynny, dywedodd y byddai'n hoffi eglurder ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth.¹⁸⁹

218. Ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor ar 24 Hydref i gadarnhau ei barn ar werthu data i drydydd partïon, a dyfodol deddfwriaeth diogelu data yn y DU. Cadarnhaodd fod darpariaethau casglu data'r Bil yn cydymffurfio â GDPR y Deyrnas Unedig a deddfwriaeth diogelu data trosfwaol. Dywedodd y Gweinidog nad oes darpariaeth o fewn y Bil sy'n atal gwerthu gwybodaeth sydd wedi'i chasglu i drydydd partïon (er iddi bwysleisio nad polisi na bwriad Llywodraeth Cymru yw gwerthu data i drydydd partïon). Aeth ymlaen i ddweud bod *"darpariaethau rhannu data yn y Bil yn fanwl iawn ac yn cynnwys nifer o gyfyngiadau a mesurau diogelu sy'n ymwneud â'r dibenion y gellir casglu data ar eu cyfer a sut y mae'r data i'w brosesu."*

219. Mae'r Gweinidog wedi tynnu sylw at y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar unrhyw ofynion gwybodaeth ymlaen llaw, ond mae'n dweud y gallai fod angen data ar gynhyrchiant a phrisiau cynhyrchion ar Lywodraeth Cymru hefyd ar bob cam o'r gadwyn fwyd – mae'n awyddus i helpu'r risg o anweddolrwydd y farchnad. Cadarnhaodd James Owen hefyd y byddai asesiad effaith ynghylch unrhyw effaith ar yswiriant atebolrwydd ffermwyr. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru eisiau casglu a gwirio data sydd eisoes yn cael eu cadw gyda ffermwyr, ac fel rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i ofyn iddynt wneud asesiad carbon ar gyfer data perfformiad yn ymwneud â mynediad i'r cynllun.

Gorfodi gofynion gwybodaeth (Adran 31)

220. Pwysleisiodd rhanddeiliaid na ddylai'r gofyniad i ddarparu data fod yn orfeichus. Roedd rhai, gan gynnwys Undeb Amaethwyr Cymru, o'r farn y dylai ffermwyr ddenu taliad am gasglu'r data hyn. Roedd y Gweinidog yn glir nad yw am roi baich diangen ar ffermwyr gan fod corff enfawr o ddata eisoes yn cael ei

¹⁸⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

¹⁸⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

gasglu. Roedd yn addo na fydd biwrocratiaeth yn cael ei chyflwyno dim ond er mwyn biwrocratiaeth.¹⁹⁰

221. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru ac Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylai cosbau yn gysylltiedig â darparu data fod yn gymesur. Ni ddylai anghywirdebau sy'n deillio o gasglu data awtomataidd (fel delweddau lloeren) arwain at gosbau awtomatig sydd, yn ôl Undeb Amaethwyr Cymru, wedi bod yn broblem gyda Glastir.¹⁹¹ Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai'r darpariaethau yn caniatáu i unrhyw orfodi fod yn gymesur, ac y bydd y rheoliadau'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Cadarnhawyd hefyd i'r Aelodau y byddai'n amlwg pan nad yr unigolyn ond y system oedd ar fai, ac fe'i gwnaed yn glir yn ystod yr ymgynghoriad y byddai'r Bil yn cydnabod pethau a oedd y tu allan i reolaeth ffermwyr.¹⁹²

Barn y Pwyllgor

222. Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog a swyddogion ar 16 Tachwedd, roedd gan yr Aelodau rai pryderon o hyd ynghylch dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o faint y cyfrifoldeb a'r risgiau o roi darpariaethau casglu a rhannu data o'r fath yn y Bil. Mae gofyn i ffermwyr wirio a dilysu data yn feichus o hyd, a byddant yn casglu data amgylcheddol sylfaenol sy'n werthfawr, yn ddadlennol ac yn sensitif yn fasnachol. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd wedi codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog ar ôl iddo graffu ar y Bil.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog nodi'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch y darpariaethau casglu data yn Rhan 3 o'r Bil, a chadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n nodi'n glir yr holl reolwyr a phroseswyr ar gyfer unrhyw ddata a gesglir o dan y Bil, er mwyn sicrhau tryloywder o ran y broses ar gyfer ffermwyr.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog gadarnhau a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon diwygio'r Bil i gynnwys ymrwymiad i adolygiad o weithrediad y drefn casglu data o dan ddarpariaethau'r Bil, ar ôl pum mlynedd.

¹⁹⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 313

¹⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27 (Saesneg yn unig)

¹⁹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 312-324

Pennod 2 – Safonau Marchnata: Cynhyrchion amaethyddol

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 2 Rhan 3 yn ei wneud

223. Mae adran 32 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi'r safonau y mae'n rhaid i rai cynhyrchion amaethyddol gydymffurfio â hwy pan gânt eu marchnata yng Nghymru. Rhestrir y cynhyrchion perthnasol yn Atodlen 1.

224. Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi adolygu'r darpariaethau hyn hefyd, gan nodi'r effaith y gallai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2022 ei chael ar y darpariaethau, a bod mater o ran hygyrchedd hefyd gan fod angen cyfeirio at ddarpariaethau'r UE eu hunain i ddeall y disgrifiad o'r cynhyrchion a gwmpesir gan yr Atodlen.

Pennod 3 – Dosbarthiad carcassau penodol etc.

Beth mae'r darpariaethau ym Mhennod 3 Rhan 3 yn ei wneud

225. Mae adran 33 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch dosbarthiad, dull adnabod a chyflwyniad carcassau penodol gan ladd-dai yng Nghymru.

226. Mae'r darpariaethau ym Mhenodau 2 a 3 wedi'u cynnwys yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 a byddant yn 'machlud' ar ddiwedd 2024. Amlygodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru a'r academyddion y bydd angen i fframweithiau cyffredin ymwneud â'r darpariaethau hyn i sicrhau nad yw Cymru o dan anfantais oherwydd cynhyrchion sydd â safonau is yn dod i mewn i'r farchnad. Yng nghyd-destun darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol 2020, roedd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda gwledydd eraill y DU i wrthsefyll ras i'r gwaelod ar safonau.¹⁹³

227. Dywedodd Cymdeithas y Ffermwyr Tenant yng Nghymru fod yn rhaid i'r Bil gynnwys dyletswydd ar i Weinidogion Cymru, wrth bennu'r safonau hyn, gofio sicrhau nad yw prif gynhyrchwyr yng Nghymru o dan anfantais. Naill ai o gymharu â chynhyrchwyr mewn rhannau eraill o farchnad sengl y DU neu drwy gytundebau masnach Llywodraeth y DU. Awgrymodd RSPB Cymru y dylai'r Bil ymrwymo Gweinidogion Cymru i gynnal asesiadau effaith o gytundebau masnach

¹⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

y dyfodol ar amaethyddiaeth yng Nghymru,¹⁹⁴ ac roedd Dr Petetin a Dr Dobbs yn cytuno.¹⁹⁵

228. Dywedodd y Gweinidog ar 16 Tachwedd fod y pwerau safonau marchnata yn angenrheidiol i ddiweddarau deddfwriaeth, ac felly byddant yn rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru os ydynt yn dymuno i wneud cynhyrchion yn fwy cyson o gymharu â rheolau'r UE gyfan, ac i wneud newidiadau os yw'n briodol sy'n wahanol i rannau eraill o'r DU.¹⁹⁶

229. Dywedodd Hybu Cig Cymru nad yw Atodlen 1 i'r Bil, sy'n rhestru cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i'r darpariaethau safonau marchnata, yn cynnwys cig defaid. Dywedodd Hybu Cig Cymru ei fod yn waith torri a gludo o reoliadau Sefydliad Marchnad Gyffredin yr UE, a dywedodd mai'r diwydiant cig defaid oedd y 'berthynas dlawd' yn yr UE bob amser. Roedd yn gobeithio y byddai'r Bil yn cael ei ailddrafftio i gynnwys cig defaid.¹⁹⁷ Mae Memorandwm Esboniadol y Bil (tudalen 56) yn nodi "Yn fwy diweddar, darparwyd pwerau yng nghyfraith yr UE i wneud darpariaeth ar gyfer cig defaid, er nad yw'r rheoliadau hynny wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru eto."

230. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog ar 28 Tachwedd i ofyn am eglurhad ar y manylion drafftio hyn yn y Bil. Nododd ymateb y Gweinidog ar 19 Rhagfyr 2022 fod y rhestr o gynhyrchion amaethyddol:

"yn ffrwyth blynyddoedd lawer o drafod rhwng sefydliadau Ewropeaidd a'r diwydiant. Er bod y rhestr hon wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth Gymreig, nid yw hynny'n golygu bod y cynnyrch hyn yn bwysicach na chynnyrch eraill nad oes gofyn am safonau marchnata ar eu cyfer."

231. Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i nodi bod y rhestr yn Atodlen 1 y Bil yn fwriadol heb fod yn hollgynhwysfawr er mwyn caniatáu ar gyfer diogelu'r sector amaeth at y dyfodol ac nid yw'n atal cynhyrchion eraill rhag cael eu hychwanegu. Wrth wneud unrhyw newidiadau i reoliadau safonau marchnata nododd y Gweinidog y byddai'n rhaid ystyried y rhain yn ofalus er mwyn osgoi creu rhwystrau i fasnach a'i drafod yn fanwl gyda llywodraethau eraill y DU. Dyma oedd ymateb y Gweinidog:

¹⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

¹⁹⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 299-301

¹⁹⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 335

¹⁹⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 139

“Mae gwledydd y DU wrthi’n gweithio gyda’i gilydd ar reoliadau categoreddio carcassau defaid er mwyn gwneud y safonau’n fwy effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru’n cydweithio â DEFRA a Llywodraeth yr Alban i lunio rheoliadau fyddai’n gwneud y farchnad cig defaid yn fwy effeithlon. Er na fyddai hynny’n effeithio ar safonau marchnata’r cynnyrch terfynol a werthir i’r defnyddiwr, byddai’n golygu y gallai ffermwyr a phroseswyr ddisgwyl pris cyson ar sail ansawdd eu cynnyrch.”¹⁹⁸

Argymhelliad 25. Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i ymrwymo Gweinidogion Cymru i gynnal asesiadau o effaith cytundebau masnach yn y dyfodol ar amaethyddiaeth Cymru.

¹⁹⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2022, Papur i’w nodi 2.15

6. Rhan 4 – Coedwigaeth

Mae Rhan 4 y Bil yn ceisio diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 i greu pŵer i ychwanegu amodau amgylcheddol i drwyddedau cwmpo coed a phwerau i ddiwygio, atal neu ddirymu trwyddedau ar ôl eu cyflwyno. Cyfoeth Naturiol Cymru fyddai'n arfer y pwerau hyn.

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 4 yn ei wneud

232. Rhoddir trosolwg yn adran 34 o sut mae'r rhan hon o'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 mewn perthynas â Chymru. Mae adran 35 yn diwygio adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i'w gwneud yn bosibl i Cyfoeth Naturiol Cymru', sef yr 'awdurdod coedwigaeth priodol' i Gymru, osod amodau ar y broses o roi trwydded cwmpo coed os yw'n ymddangos i Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n hwylus gwneud hynny at ddiben (i) gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu (ii) gwarchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffig, neu gynefinoedd naturiol.

233. Mae adran 36 yn mewnosod is-adran newydd (3A) yn adran 10 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru a deiliad trwydded a roddir o dan yr adran honno i gytuno (ar unrhyw adeg) i ddiwygio'r drwydded cwmpo coed.

234. Mae adran 37 yn mewnosod dwy adran newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwmpo coed o dan amgylchiadau pa fo amodau'r drwydded wedi'u torri, ac amgylchiadau pan nad yw'r amodau wedi'u torri (adrannau newydd 24C a 24D, yn y drefn honno).

235. Mae adran 38 yn mewnosod adran newydd 24E yn Neddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu bod digollediad yn daladwy o dan amgylchiadau penodol ar ôl i hysbysiad gael ei roi o dan adran 24C neu 24D.

236. Mae adran 39 yn mewnosod is-adrannau newydd yn adran 25 o Ddeddf Coedwigaeth 1967, sy'n darparu i apelau gael eu dwyn yn erbyn penderfyniadau a

gymerir i atal, diwygio neu ddirymu trwyddedau o dan adrannau newydd 24C a 24D.

237. Mae adran 40 yn diwygio adran 17 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 i ddarparu mai'r gosb am droseddau a gyflawnir mewn perthynas â thir yng Nghymru yw dirwy ddiderfyn.

238. Mae adran 41 yn gwneud sawl diwygiad canlyniadol i Ddeddf Coedwigaeth 1967. Mae'r diwygiadau hyn o ganlyniad i newidiadau a wnaed i'r Ddeddf honno gan adrannau 35 i 39 o'r Bil.

Trosolwg

239. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli coetiroedd mewn modd cynaliadwy, ac yn egluro nad yw'r Ddeddf Coedwigaeth ar hyn o bryd yn caniatáu ychwanegu amodau at drwyddedau cwmpo coed i sicrhau cyfanrwydd safleoedd gwarchodedig, rhywogaethau a warchodir neu elfennau sensitif eraill o'r amgylchedd. Mae'n dweud y gallai hyn arwain at Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno trwydded a allai gael effaith negyddol ar yr amgylchedd ac a allai fynd yn groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall megis Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

240. Mae rhanddeiliaid y sector coedwigaeth yn croesawu rhai o'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil, ond maent wedi mynegi pryderon ynghylch eraill, yn enwedig adran 35 – y pŵer i osod amodau amgylcheddol ar drwyddedau cwmpo coed – ac adran 37 – lle gall Cyfoeth Naturiol Cymru amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau lle na fu unrhyw doriad. Pan holwyd Confor ynghylch y pwerau ar amodau amgylcheddol, dywedodd wrth yr Aelodau:

*"I do not believe they are proportionate and I do not believe that they are the appropriate way to achieve this outcome."*¹⁹⁹

241. Roedd Confor o'r farn bod y drefn drwyddedu bresennol yn effeithiol o ran ei gweithrediad ac roedd yn cwestiynu'r rhesymeg dros y dull a ddefnyddir yng Nghymru. Cred mai'r broblem benodol yr ymddengys bod y deddfwr yn ceisio mynd i'r afael â hi yw cwmpo coed yn anghymwys neu'n anghyfreithlon. Cred y byddai'n gwbl anghyfiawn cosbi'r diwydiant proffesiynol oherwydd gweithredwyr twyllodrus. Aeth ymlaen i ddweud:

¹⁹⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 166

“Further evidence must be provided by Welsh Government and other stakeholders to detail where the failures are, and whether the current system supported by compliance with the UK Forestry Standard (UKFS) is failing. If licences are subject to uncertainty that will be transferred to commercial contracts with consequences for the timber supply chain which is very much at the heart of Wales’s Green Recovery and the decarbonisation of construction and Housing.”²⁰⁰

242. Dywedodd Confor hefyd ei bod yn hanfodol deall y rhesymau dros ddirwyiad cynefin coetir a byddai gwelliannau cadwraeth a welir drwy ardystiad drwy **Gynllun Sicrwydd Coetir y DU** dan fgythiad oherwydd tynhau trwyddedau cwmpo coed. Byddai’n llawer gwell datblygu atebion cadarnhaol i’r pryderon hyn, megis datblygu cynlluniau rheoli coed ar ffermydd ac mewn trefi sy’n ystyried cynefinoedd pwysig fel coed hynod a gwiwerod coch.

243. Roedd tystiolaeth Confor hefyd yn nodi bod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi creu datgysylltiad pellach rhwng ffermio a choedwigaeth ac mae hyn yn gwaethygu system dwy haen ar gyfer ffermio a choedwigaeth. Dywedodd fod angen mynd i’r afael â hyn ar frys os am lwyddo i ddod â choetiroedd dan reolaeth a chyrraedd y targedau coedwigo.²⁰¹ Dywedodd Confor fod cysondeb o ran gweithredu yn bwysig iawn, a galwodd am fuddsoddiad pellach a llawer mwy o ymgysylltu â’r diwydiant cyn i hyn fynd yn ei flaen.²⁰²

244. Mae’r Gweinidog yn ystyried y Bil fel y cyfle cynharaf i leihau effaith trwyddedau cwmpo coed ar yr argyfwng natur a’r argyfwng hinsawdd.²⁰³ Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi’r darpariaethau fel rhai sy’n darparu’r adnoddau i alluogi cydymffurfiaeth â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a’r angen i ddod â thrwyddedau coedwigaeth yn unol â chylfundrefnau trwyddedu eraill.²⁰⁴ Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi bod y diwydiant coedwigaeth hefyd wedi gofyn am rai o’r newidiadau arfaethedig, megis y gallu i ddiwygio trwyddedau cwmpo coed. Roedd hefyd yn dweud y bydd cynyddu’r ddirwy i ddirwy anghyfyngedig lefel 5 yn cael effaith ataliol.

245. Mae’r Pwyllgor wedi nodi mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n cyflwyno trwyddedau ac mae’n gweithredu fel y rheoleiddiwr, ac mae hefyd yn

²⁰⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²⁰¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²⁰² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 185

²⁰³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 353

²⁰⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

dirfeddiannwr sy'n ddarostyngedig i'w amodau trwyddedu ei hun. Holwyd y Gweinidog ynghylch priodoldeb y trefniant hwn, ac am sicrwydd ynghylch sut y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn arfer ei bwerau'n gymesur. Tynnodd y Gweinidog sylw at y canllawiau lefel uchel yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi'u **cyhoeddi**, a dywedodd ei bod yn gwybod mai cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru oedd cysylltu'n wirioneddol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu harweiniad allanol a mewnol wrth symud ymlaen, ac y byddent yn barod pan ddaw'r pwerau i rym ym mis Ionawr 2024.²⁰⁵

246. Roedd ymateb Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig yn nodi lefel isel o ymddiriedaeth yn y sector coedwigaeth rhwng y sectorau preifat a chyhoeddus a'r rheoleiddwyr. Mae'r Sefydliad yn cefnogi'r Llywodraeth i gyflawni yn erbyn y Bil, ond nodir yn gyffredinol nad yw'r gwaith o gyflawni targedau coedwigaeth a choedwigo cynaliadwy wedi'u hintegreiddio. Mae angen mwy o ffocws hefyd ar ddod â choetiroedd presennol dan reolaeth.²⁰⁶ Cynigiodd y Sefydliad gynnull grŵp cynghori o'i Aelodau yng Nghymru i ymgysylltu ymhellach ar fanylion y cynigion deddfwriaethol.

247. Dywedodd Coed Cadw hefyd y byddai cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn gyfle i egluro rheoleiddio coed ar gyfer amaeth-goedwigaeth. Dywedodd y gallai Gorchmynion Cadw Coed, y Rheoliadau Gwrychoedd, deddfwriaeth gwarchod rhywogaethau, rheoliadau iechyd planhigion a rheoliadau cynllunio i gyd amharu ar reoli neu dynnu coed ar ffermydd – roedd yn argymhell yn gryf nad oes angen gwneud gorchudd coed gwasgaredig ar ffermydd yn ddarostyngedig i reoleiddio o dan Safon Goedwigaeth y DU.

248. Dywedodd Coed Cadw bod angen ailddiffinio'r gwahaniad pendant blaenorol rhwng tir amaethyddol a choetir fel defnyddiau tir ar wahân a chydabod i ba raddau y gall gorchudd coed orgyffwrdd yn sylweddol â defnydd tir amaethyddol.²⁰⁷

Amodau amgylcheddol trwyddedau cwmpo coed (Adran 35)

249. Roedd Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd y DU a'r Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Parhaus (Cymru) yn cefnogi'r darpariaethau hyn, sy'n caniatáu gosod amodau ar drwyddedau cwmpo coed at ddiben gwarchod neu wella harddwch naturiol, neu warchod fflora, ffawna, nodweddion daearegol neu ffisiograffigol,

²⁰⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 349

²⁰⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR42 (Saesneg yn unig)

²⁰⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR02(Saesneg yn unig)

neu gynefinoedd naturiol.²⁰⁸ Credai Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd y DU eu bod yn gyson ag **Egwyddor 6** (Gwerthoedd ac Effeithiau Amgylcheddol) ac **Egwyddor 9** (Gwerthoedd Cadwraeth Uchel).

250. Roedd Coed Cadw yn cefnogi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru osod amodau amgylcheddol ar drwyddedau cwmpo coed, y dywedodd y dylid eu defnyddio mewn ffordd sy'n gymesur â'r risg o niwed cadwraethol, gan adlewyrchu sensitifrwydd y safle ond hefyd, hanes yr ymgeisydd.²⁰⁹ Dywedodd Coed Cadw nad yw'n glir sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r pwerau, fodd bynnag, fel y nodwyd gan y Gweinidog, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi papur ar sut y mae'n bwriadu gweithredu'r pwerau. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai hyn yn rhan o'r datganiad o fwriad polisi ar gyfer y rhan hon o'r Bil yn y dyfodol.

251. Roedd Confor yn gwrthwynebu'r darpariaethau hyn, gan ddweud y byddai'n debygol o wthio perchnogion naill ai i gwmpo coed yn anghyfreithlon neu gefnu ar reoli coedwigoedd yn gyfan gwbl. Dywedodd y gall Llywodraeth Cymru fynd i'r afael yn well â chwmpo coed yn anghyfreithlon ac yn anghymwys drwy'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys, pan fo hynny'n berthnasol, deddfwriaeth gynllunio. Dywedodd Confor hefyd os yw'r newidiadau am ddigwydd, yna dylai Llywodraeth Cymru ac eraill ddarparu tystiolaeth bellach ac y dylid ymdrin â'r mater hwn drwy ddeddfwriaeth ar wahân:

*"The loss of trees and woods to bad practice by developers is of significant concern but this could be addressed through planning legislation far more effectively. Increasing the cost and complexity of all management operations in privately owned woodlands by creating conditioned felling licences (especially where licences are currently only valid for 2 years) is highly likely to push owners into either illegal felling or abandonment of management all together. This would have a highly detrimental effect on habitat and biodiversity outcomes."*²¹⁰

252. Mae Confor yn argymhell yn gryf, os caiff y Bil ei ddeddfu ar ei ffurf bresennol, bod yn rhaid i drwyddedau cwmpo coed ddychwelyd i fod am gyfnod o bum

²⁰⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR16 (Saesneg yn unig)

²⁰⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 27 Hydref 2022, paragraff 168

²¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

mlynedd yn unol â Chymru, Lloegr a'r Alban cyn 2013 a bod yn rhaid adolygu cynlluniau rheoli hirdymor yn sylweddol i'w gwneud yn addas at y diben.²¹¹

Monitro ac adrodd ar effaith cydsyniadau cwmpo coed

253. Roedd Coed Cadw hefyd yn galw am welliant i sicrhau bod monitro ac adrodd ar effaith cydsyniadau cwmpo coed yn cyfateb i'r gofynion ar gyfer adrodd ar gyflawniadau'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac effaith y cynllun cymorth. Ar y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog y byddai angen i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar gydsyniadau a sicrhau bod casglu data yn gyson, yn ogystal â sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau i ymateb i geisiadau am drwydded.

254. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor y byddai adolygiad ôl-weithredu o'r ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal o fewn tair blynedd i'w chychwyn, a bod angen i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid i sicrhau y cytunir ar ffordd ymlaen o ran pa ddata perthnasol sydd eu hangen ac sy'n cael eu casglu. Pwysleisiodd bwysigrwydd cydbwysedd, rhwng monitro a sicrhau bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yr adnoddau i allu ymateb i geisiadau am drwydded cwmpo coed mewn modd amserol.²¹²

Diwygio trwyddedau cwmpo coed drwy gytundeb (Adran 36)

255. Roedd Confor yn cefnogi'r cynigion yn adrannau 36 a 37 yn gyffredinol.

*"The failure to be able to amend felling licences once issued has meant that an external agreement was necessary between the landowner and regulator if an amendment was required. This was generally effective but not an optimum solution where land ownership had changed and the new owners sought to go in a different management direction."*²¹³

256. Roedd y Grŵp Coedwigaeth Gorchudd Parhaus yn cefnogi mwy o hyblygrwydd o ran trwyddedau, at ddibenion adfywio naturiol.²¹⁴

²¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²¹² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 351

²¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR49 (Saesneg yn unig)

Amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed (Adran 37)

257. Mae adran 37 yn mewnosod dwy adran newydd yn Neddf Coedwigaeth 1967 i alluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwydded cwmpo coed o dan amgylchiadau pa fo amodau'r drwydded wedi'u torri, ac amgylchiadau pan nad yw'r amodau wedi'u torri (adrannau newydd 24C a 24D, yn y drefn honno).

258. Yn gyffredinol, roedd Coed Cadw a Confor o blaid y pwerau newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru amrywio, atal dros dro neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed y mae wedi'u cyflwyno'n barod. Fodd bynnag, roedd Confor yn bryderus iawn ynghylch y defnydd o'r pŵer hwn lle na fu unrhyw dor-amod. Dywedodd Confor na ddylai fod yn bosibl i drwydded sydd eisoes wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a rheoleiddiol gael ei hatal oherwydd yr effaith ar nodweddion naturiol neu gorfforol. Roedd Confor o'r farn bod yn rhaid dileu'r categori 'cyffredinol' hwn, oherwydd o ystyried perfformiad anghyson y rheoleiddiwr mae ofn sylweddol y bydd y pwerau hyn yn cael eu camddefnyddio. Rhybuddiodd:

*"This has potential to create a substantial impact to timber harvesting as exemplified by the situation in the Republic of Ireland with the "objection without consequence" which ground the whole Irish forestry and timber sector to a halt and required urgent intervention by the Government."*²¹⁵

259. Roedd Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig hefyd yn cwestiynu'r rhesymeg dros bwerau adran 37. Roedd yn mynegi pryder ynghylch 'hyfywedd gweithredol' a cheisiadau trwyddedu mwy beichus. Dywedodd ei fod yn amau bod y dull o ddiwygio, atal dros dro, neu ddirymu trwyddedau cwmpo coed angen ystyriaeth bellach, gan ymgynghori'n drylwyr â'r sector, er mwyn sicrhau bod y diwygiadau yn cyflawni yn erbyn anghenion ac yn ategu datblygiadau o fewn y sector amaethyddol.²¹⁶

260. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn pwysleisio nad oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau i ddiwygio, atal na diddymu trwydded ar ôl ei rhoi os bydd rhywbeth am y gweithgaredd trwyddedig yn dod yn annerbyniol yn ddiweddarach. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â ffactorau a nodwyd ar ôl caniatáu'r drwydded, fel presenoldeb rhywogaethau a warchodir wedi cael eu hepgor yn ddamweiniol neu'n fwriadol. Neu gallai fod yn achos o newid perchnogaeth yn

²¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR42 (Saesneg yn unig)

arwain at newid amcanion, neu lle mae clefyd yn effeithio ar y dewis o rywogaethau wrth ailstocio.

Digollediad (Adran 38) ac Apelau (Adran 39)

261. Mae'r Bil hefyd yn darparu ar gyfer apelau, ac iawndal mewn cysylltiad ag atal dros dro neu ddirymu trwyddedau. Roedd Confor yn croesawu'r broses apelio a'r ddarpariaeth ddigolledu a nodir yn adran 38, a gyflwynwyd ar gyfer tirfeddianwyr sy'n llwyddo i wrthdroi ataliad neu ddirymiad hysbysiad. Fodd bynnag roedd yn nodi na fydd hyn yn ad-dalu'r tirfeddiannwr am unrhyw ostyngiad mewn gwerth pren o ganlyniad i ataliad amhriodol a allai gymryd misoedd i'w ddatrys. O fewn y farchnad bren eleni gallai hynny adlewyrchu gostyngiad o hyd at 50 y cant ym mhrisiau nwyddau rhyngwladol.²¹⁷

Cosb am gwmpo coed heb drwydded (Adran 40)

262. Mae'r Bil hefyd yn diwygio'r Ddeddf Coedwigaeth i gynyddu'r ddirwy uchaf am dorri coed yn anghyfreithlon o ddirwy lefel 4 (£2,500) i ddirwy lefel 5 (diderfyn). Roedd Confor yn cefnogi'r ddarpariaeth hon. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

*"It is hoped that increasing the fine to a level 5 unlimited fine will have a deterrent effect. It also brings the Forestry Act 1967 in line with other regimes where NRW has a regulatory role e.g. the Wildlife & Countryside Act 1981."*²¹⁸

Coetir Hynafol a Choed Hynod

263. Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru yn croesawu'n gyffredinol y pwerau yn Rhan 4 sy'n dweud y gallent fod o gymorth ar gyfer cadwraeth coetiroedd hynafol ond mae ganddo rai pryderon ynghylch gweithredu. Dywed nad yw'n glir a fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r pwerau newydd arfaethedig i gyflawni hyn nac ym mha ffordd, nac a fydd mecanweithiau cofnodi ac adrodd yn datgelu'r effaith ar gyflwr coetiroedd hynafol.²¹⁹ Roedd Coed Cadw yn cydnabod pwysigrwydd y pwerau mewn perthynas â chadwraeth coetiroedd hynafol, gan nodi bod cryfhau amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd hynafol yn ymrwymiad yn y fersiwn ddiweddaraf o **Raglen Lywodraethu 2021**, ond heb unrhyw ddarpariaeth yn y gyfraith ar hyn o bryd. Dywedodd Coed Cadw wrth y Pwyllgor:

²¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR40 (Saesneg yn unig)

²¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

²¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

“...in theory, it might be useful for us to argue that meeting those statements on ancient woodland would be useful to put in felling licence conditions, except that we’d accept that trying to achieve those objectives through regulation alone is not really realistic. It requires an entire support framework policy, and ancient woodland restoration is a public good, it’s a public benefit, not a commercial benefit, and, if it is going to be required of private owners, that does deserve some public funding. So, it’s a complicated picture. So, it is quite difficult for me to work out how NRW are actually going to progress this and where the felling licence conditioning bit fits in.”²²⁰

264. Roedd RSPB Cymru yn cefnogi pryderon Coed Cadw ynghylch amddiffyniadau ar gyfer coetiroedd lled-hynafol.²²¹ Dywedodd Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd y DU hefyd wrth weithredu’r darpariaethau yr oedd yn gobeithio y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod yr angen i gynnal neu wella meysydd a nodweddion y mae’r Cyngor yn ystyried eu bod o Werth Cadwraeth Uchel, gan gynnwys safleoedd cadwraeth natur statudol, coetiroedd lled-naturiol hynafol, planhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, cynefinoedd â blaenoriaethau eraill, gwasanaethau ecosystem hanfodol, a gwerthoedd diwylliannol.²²² O ystyried bod y Gweinidog wedi nodi’r Bil fel cyfle i wneud darpariaethau deddfwriaethol ar drwyddedau cwmpo coed mewn coedwigoedd, holodd yr Aelodau a ddylai darpariaethau sy’n ymwneud â choetiroedd hynafol a choed hynod fod wedi cael eu hystyried i’w cynnwys hefyd.

Barn y Pwyllgor

265. Mae’r Aelodau’n nodi’r pryderon penodol a fynegwyd gan y sector coedwigaeth fasnachol ar y darpariaethau trwyddedu, ac mae’n ddealladwy y gallai’r sector deimlo rhywfaint o bryder ynghylch y pwerau newydd y bydd y Bil yn eu rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu canllawiau mewnol ac allanol llawn i sicrhau dull cyson a chymesur o weithredu’r pwerau hyn, i’w cyhoeddi i gyd-fynd â dechrau’r darpariaethau. Mae’r Gweinidog hefyd wedi cadarnhau y bydd adolygiad ôl-weithredu o’r ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal o fewn tair blynedd, ac y bydd yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a rhanddeiliaid i gytuno ar gasgliad o ddata perthnasol ar ôl dechrau er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth

²²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR02 (Saesneg yn unig); Cyfarfod 27 Hydref, paragraff 183

²²¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Hydref 2022, paragraff 178

²²² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR16 (Saesneg yn unig)

coedwigaeth o fewn y Bil. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru bwerau i roi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gweithredu'r pwerau hyn os bernir bod angen hynny.²²³

266. Rydym yn croesawu'r canllawiau lefel uchel a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar sut y bydd yn defnyddio ei bwerau newydd. Rydym hefyd yn croesawu'r ymrwymiad y bydd canllawiau mewnol ac ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid yn cael eu cynllunio cyn y disgwylir i'r pwerau ddechrau ym mis Ionawr 2024.

267. Roedd yr Aelodau wedi holi pam mae darpariaethau'n ymwneud â thrwyddedau cwmpo coed wedi'u cynnwys mewn Bil Amaethyddol. Dywedodd y Gweinidog wrthym mai'r Bil yw'r cyfle cynharaf i leihau effaith trwyddedau cwmpo coed ar yr argyfwng natur a'r argyfwng hinsawdd. Holodd rhanddeiliaid hefyd pam nad oedd rhai materion cysylltiedig eraill â choetiroedd, megis mwy o amddiffyniad i goetiroedd hynafol a choed hynod, wedi'u cynnwys yn y Bil. Byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder ynghylch sut y mae'r Gweinidog yn gweld y materion rheoli coetiroedd eraill hyn yn cael sylw.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth barhau i gydweithio ar ganllawiau a chyd-ddealltwriaeth ynghylch y pwerau newydd a nodir yn Rhan 4 o'r Bil.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog nodi sut y mae'n gweld yr eir i'r afael â'r materion eraill o ran rheoli coetiroedd a godwyd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1, gan gynnwys mwy o amddiffyniadau i goetiroedd hynafol a choed hynod.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru weithio'n gyflym i nodi a chytuno ar y data y bydd angen eu casglu i asesu effeithiolrwydd y darpariaethau newydd yn Rhan 4 o'r Bil.

²²³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraffau 359-361; Llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Rhagfyr 2022, Papur 28

7. Rhan 5 – Bywyd gwyllt

Byddai Rhan 5 o'r Bil yn creu troseddau newydd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel bod unigolyn sy'n defnyddio magl i ddal anifail gwyllt, neu unigolyn sy'n defnyddio trap glud i ddal anifail asgwrn cefn, yn cyflawni trosedd.

Trosolwg

268. Mynegwyd safbwyntiau cryf, ac mae gwahaniaeth barn sylweddol ynghylch y darpariaethau i wahardd defnyddio maglau a thrapiau glud. Pe bai'n cael ei basio, Cymru fyddai'r wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gwaharddiad llwyr. Fel y nodwyd ym Memorandwm Esboniadol y Bil, mae DEFRA wedi cyhoeddi y bydd yn ymgynghori ar ddefnyddio maglau i reoli llwynogod, ac mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi ymrwymo i adolygiad o'r defnydd o faglau, gyda gwaharddiad fel un o'r opsiynau i'w hystyried. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi ei bwriad ar gyfer gwaharddiad llwyr ar faglau glud, er ei bod yn aros am ddeddfwriaeth addas i fwrw ymlaen â hyn. Mae'r rhesymeg lawn dros fynd ar drywydd gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio maglau a thrapiau glud yng Nghymru wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r Memorandwm Esboniadol.

269. Cododd y dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor rai cwestiynau pwysig ynghylch goblygiadau posibl gwaharddiad llwyr yn y ddau achos. Ystyriwyd dull arall o drwyddedu i fynd i'r afael â rhai amgylchiadau penodol yn ymwneud â diogelu rhywogaethau â blaenoriaeth yn achos maglau, ac iechyd y cyhoedd yn achos trapiau glud. Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am y pwyntiau hyn a'u codi yn ei sesiwn dystiolaeth derfynol gyda'r Gweinidog.

Beth mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn ei wneud

270. Rhoddir trosolwg yn adran 42 o'r rhesymau pam y mae'r Rhan hon o'r Bil yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("Deddf 1981").

271. Mae adran 43 yn diwygio adran 11(1) o Ddeddf 1981 i wneud y gweithredoedd a ganlyn yn droseddau:

- “set in position in Wales any snare, or other cable restraint, which is of such a nature and so placed as to be likely to cause bodily injury to any wild animal coming into contact with it;
- use in Wales for the purpose of killing or taking any wild animal any snare, or other cable restraint, whether or not of such a nature or so placed as aforesaid;
- set in position in Wales any glue trap which is of such a nature and so placed as to be likely to catch any animal coming into contact with it; and
- use in Wales for the purpose of killing or taking any (non-human vertebrate) animal any glue trap, whether or not of such a nature or so placed as aforesaid”.

272. Mae adran 44 yn diwygio adran 11(2) o Ddeddf 1981 i addasu'r gwaharddiadau ar osod unrhyw fagl neu drap, neu unrhyw ddyfais drydanol ar gyfer lladd neu stynio, neu unrhyw sylwedd gwenwynig, sylwedd a wenwynwyd neu sylwedd llesgáu. Yr effaith yw y bydd y gwaharddiadau'n berthnasol pan fydd eu defnydd yn 'debygol' o niweidio y math o anifail gwyllt a bennir (yn hytrach na phan fyddant yn cael eu defnyddio â'r bwriad o niweidio'r math hwnnw o anifail gwyllt).

273. Mae adran 45 yn gwneud sawl diwygiad canlyniadol i Ddeddf 1981. Mae'r diwygiadau hyn yn gysylltiedig â'r newidiadau a wnaed i'r Ddeddf honno gan adrannau 43 a 44 o'r Bil.

Trosolwg a chrynodeb o dystiolaeth

274. Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil yn cynnwys 23 gan unigolion neu sefydliadau gwirfoddol a oedd yn cefnogi darpariaethau'r Bil ar wahardd defnyddio maglau. Roedd llawer o'r ymatebion unigol hyn yn galw am i'r darpariaethau yn y Bil fynd ymhellach i gynnwys meddiant, gweithgynhyrchu a gwerthu, ac i gynnwys pob magl, gan gynnwys maglau 'trugarog' fel y'u gelwir²²⁴, y pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr na ddylid eu hailfrandio²²⁵ fel ataliadau cebl trugarog. Roedd y sylwadau'n cynnwys fod pob magl yn ddiwahaniaeth²²⁶, ac roedd nifer yn nodi eu bod yn dal rhywogaethau nad ydynt yn darged, gan gynnwys anifeiliaid anwes, yn dweud eu bod yn achosi

²²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR09 (Saesneg yn unig)

²²⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR24; AGR36 (Saesneg yn unig)

²²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR07; AGR34 (Saesneg yn unig)

gormod o ddioddefaint²²⁷, a disgrifiwyd maglau fel pethau hen ffasiwn a barbaraid.²²⁸ Nododd un ymatebwr fod maglau ar werth yn yr ardal leol. Roedd nifer o ymatebion, gan gynnwys gan ganolfan achub anifeiliaid a grŵp cadwraeth moch daear, yn cynnwys delweddau o anifeiliaid marw ac wedi'u hanafu a ddaliwyd mewn maglau.²²⁹

275. Tynnodd Animal Aid sylw at y ffaith bod tua 1.7 miliwn o anifeiliaid yn cael eu dal mewn maglau bob blwyddyn a chanfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan DEFRA nad yw cymaint â 68 y cant o'r anifeiliaid sy'n cael eu dal mewn maglau y targed a fwriadwyd.²³⁰ Roedd tystiolaeth Animal Aid yn nodi rhestr gynhwysfawr o sefydliadau lles anifeiliaid sy'n cefnogi gwaharddiad ar faglau, ac roedd hefyd yn nodi nad yw sawl sefydliad cadwraeth sy'n gyfrifol am ardaloedd helaeth o dir yn defnyddio maglau, gan gynnwys RSPB Cymru, Coed Cadw, ac Ymddiriedolaethau Natur. Mae hefyd o'r farn na all fod unrhyw gyfiawnhad i honiad y diwydiant saethu fod maglau yn arf pwysig wrth reoli adar hela.²³¹

276. Cafodd y Pwyllgor hefyd ymatebion manwl a oedd yn mynegi pryderon ynghylch effaith gwaharddiad llwyr fel y'i cynigir yn y Bil, ac yn hytrach yn cynnig rhywfaint o drwyddedu ar gyfer maglau a/neu drapiau glud, gan gynnwys y Cynghrair Cefn Gwlad, Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt (GWCT), Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain, Cymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu ac UKHospitality Cymru. Ar 9 Tachwedd cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn banel i gasglu tystiolaeth lafar ar agweddau lles anifeiliaid y Bil gan ystod o dystion sy'n cefnogi ac yn gwrthwynebu'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil. Darparodd yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Helwriaeth a Bywyd Gwyllt a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain bapur briffio ysgrifenedig pellach i'r Aelodau gyda safbwyntiau yn herio peth o'r dystiolaeth lafar a glywyd.

277. Roedd tystiolaeth Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn nodi mewn perthynas â maglau a thrapiau glud fel ei gilydd:

“Before lethal control is considered, prevention methods or deterrents should be implemented, and finally, if lethal control of pests is considered necessary, methods that minimise suffering, fear and pain should be used. Both glue traps and

²²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR08; AGR34 (Saesneg yn unig)

²²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR07; AGR10; AGR11 (Saesneg yn unig)

²²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR24; AGR55: Papur tystiolaeth yr Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau (Saesneg yn unig)

²³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR41 (Saesneg yn unig)

²³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR41 (Saesneg yn unig)

snares significantly compromise animal welfare for the period during which animals are trapped, and there are welfare concerns associated with methods of killing of trapped animals. They are also indiscriminate and may capture wild and domestic species for which their use is not intended, resulting in death or significant injury to these animals."²³²

Maglau

278. Gellir prynu maglau dirwyn a'u defnyddio i ddal ac atal anifail yn gyfreithlon, yn aml cyn iddo gael ei ladd gan unigolyn. Fe'u defnyddir yn bennaf gan ffermwyr a chiperiaid i reoli bywyd gwyllt fel llwynogod, cwningod, llygod mawr, gwiwerod llwyd a minc. Maent hefyd yn cael eu defnyddio gan rai i ddal bywyd gwyllt am ei ffwr, neu gwningod am fwyd.

279. Canfu adroddiad gan DEFRA yn 2012 ar unrhyw un adeg, ac yn dibynnu ar y tymor, mae rhwng 17,200 a 51,600 o faglau llwynogod yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Canfuwyd nad yw maglau cwningod yn cael eu defnyddio mor helaeth. Roedd yn nodi bod 60 y cant o ddefnyddwyr maglau wedi dal rhywogaethau nad oeddent yn darged ar ryw adeg.

280. Mae maglau yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd o dan Ddeddf 1981 i gyfyngu ar ddioddefaint yr anifeiliaid sy'n cael eu dal ac i atal rhai rhywogaethau rhag cael eu maglu. Yn 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **God ar yr arfer orau wrth ddefnyddio maglau i reoli cadnoid** - cod statudol o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Fodd bynnag, daeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd i'r casgliad yn ystod ei **waith ar faglau** yn 2017 nad oedd unrhyw sicrwydd fod y Cod wedi'i fabwysiadu'n eang.

281. Mae dwy ddeiseb yn galw am wahardd maglau yng Nghymru wedi cael eu hystyried gan Bwyllgor Deisebau'r Senedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd Deiseb P-06-1159 wedi denu 6,514 o lofnodion a Deiseb P-05-715 wedi denu 1,405 o lofnodion.

282. Mae crynodeb Llywodraeth Cymru o ymatebion i Bapur Gwyn y Bil yn nodi (tudalen 68), "Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylid gwahardd defnyddio maglau'n llwyr." Ymhlith yr ymatebwyr hynny na alwodd am waharddiad llwyr ar faglau, roedd llawer o blaid cyflwyno rheolaethau llymach

²³² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR05 (Saesneg yn unig)

ynghylch eu defnydd. Teimlai nifer fach o ymatebwyr na ddylai'r cynigion amharu ar allu ffermwyr i ddefnyddio maglau fel ffordd o ddiogelu da byw neu reoli plâu.

283. Darparodd GWCT dystiolaeth a data helaeth i'r Pwyllgor ac roedd yn anghytuno'n gryf â'r dystiolaeth a ddarparwyd gan grwpiau lles anifeiliaid. Roedd GWCT yn dadlau bod ataliadau cebl trugarog wedi'u profi'n wyddonol i fod yn drugarog ac yn ddetholus, gan fodloni gofynion y Cytundeb ar Safonau Trapio Dyngarol Rhyngwladol ar gyfer trapiau ffrwyno, pan gânt eu defnyddio yn unol â'r Cod.²³³

Gwarchod ac adfer Rhywogaethau â Blaenoriaeth

284. Roedd GWCT o'r farn y gallai gwahardd y dull hwn o reoli llwynogod beryglu rhywogaethau â blaenoriaeth o dan **adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** (e.e. y rugiar ddu a'r gylfinir). Dywedodd y byddai'r gwaharddiad yn mynd yn groes i'r ddyletswydd yn Neddf yr Amgylchedd 2016 ar i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau â blaenoriaethau yn adran 7. Dywedodd GWCT nad oes unrhyw enghreifftiau o gadwraeth lwyddiannus y gylfinir heb ddefnyddio ataliadau cebl trugarog ac nad oes unrhyw atebion amgen ymarferol ac effeithiol ar gael a allai lenwi'r bwlch a adawyd pe na bai'r ataliadau'n cael eu trwyddedu. Mae'r dystiolaeth yn nodi fel a ganlyn:

*"With afforestation increasing in Wales, it is likely ground nesting Section 7 Priority species will face enhanced predation pressure in the future - making it even harder to effectively reduce that pressure enough to fledge young. The evidence supplied within this paper highlights the role of HCRs in this conservation struggle. Livecapture cage traps have been demonstrated to be ineffective for fox capture in the UK, with severely lower catch success compared to HCRs. Additionally, the other alternative option, WCS collarum live capture fox traps are less successful and less selective. In both cases it is completely unknown whether either option would pass standards set within the AIHTS for restraining traps, and due to their nature it is highly dubious whether they would pass."*²³⁴

285. Yn y cyfamser amlygodd grwpiau lles fod maglau yn dal rhywogaethau â blaenoriaeth yn adran 7, megis y dyfrgi, yr ysgyfarnog a bele'r coed a thrwy beidio

²³³ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR05 (Saesneg yn unig)

²³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR05 (Saesneg yn unig)

â'u gwahardd gallai Gweinidogion Cymru fod yn mynd yn groes i'w dyletswydd.²³⁵ Cyfeiriodd RSPCA Cymru hefyd at wledydd eraill – Iwerddon, Sbaen, Gwlad Pwyl a'r Weriniaeth Tsiec – a oedd wedi gallu gwahardd defnyddio maglau ond sydd hefyd â rhaglen gadwraeth ffyniannus ar gyfer yr anifeiliaid penodol hynny.²³⁶ Nid yw'n credu bod hynny wedi effeithio ar eu materion cadwraeth, ond mae wedi gwella eu lles, a dyna pam mae wedi cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru.²³⁷

Cefnogaeth i ddull trwyddedu dros waharddiad

286. Roedd GWCT, y Gynghrair Cefn Gwlad a Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn cynnig bod ataliadau cebl trugarog yn dod yn drwyddedig, gydag amodau ynghlwm. Nododd GWCT²³⁸ y rhain fel a ganlyn:

- “To receive a licence individuals would complete mandatory training and accreditation allowing them to purchase and use HCRs; and
- Manufacturers should only produce HCRs that conform to the design specified in the CoP [code of practice] (including a built-in breakaway link at the eye and stop set to allow a minimum noose of circumference 26cm).”

287. Roedd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, y Gynghrair Cefn Gwlad, Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain a Chymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu i gyd yn cefnogi cadw maglau neu ‘ataliadau cebl trugarog’ yn y gyfres o fesurau sydd ar gael, fel offeryn defnyddiol ar gyfer rheoli ysglyfaethwyr.²³⁹

288. Roedd GWCT o'r farn y byddai dull trwyddedu yn helpu gorfodi drwy wneud arferion anghyfreithlon yn fwy amlwg, ac roedd o'r farn y byddai ei gwneud yn drosedd i beidio â chydymffurfio â'r Cod presennol yn rhoi awdurdodau mewn sefyllfa llawer cryfach ac yn helpu i osgoi arfer gwael. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwahardd yr hyn sydd eisoes yn weithgarwch anghyfreithlon gan droseddwr a bod Swyddogion Troseddau Bywyd Gwylt sydd ag adnoddau gwell a system drwyddedu sy'n ei gwneud yn haws erlyn gweithgarwch anghyfreithlon yn fwy tebygol o ddod â gweithgarwch troseddol i ben yn llwyddiannus.²⁴⁰ Dywedodd RSPCA Cymru ei fod yn defnyddio trapiau byw pan oedd angen dal

²³⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 63

²³⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 64

²³⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 70

²³⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR05 (Saesneg yn unig)

²³⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 135

²⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR05 (Saesneg yn unig)

llwynogod, ac nad oedd yn cefnogi dull trwyddedu ar gyfer maglau, gan ei weld fel bwlch a fyddai'n gwneud gorfodi'n fwy anodd.²⁴¹

289. Nododd tystiolaeth GWCT, er bod Papur Gwyn y Bil yn nodi bwriad i reoleiddio maglau, na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ar yr ymrwymiad diweddarach i gyflwyno gwaharddiad, a chred ei bod yn ymddangos bod tystiolaeth o'r 887 o ymatebion i ymgyrch gyhoeddus y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon dros waharddiad yn pwysu'n annheg ar y ddadl. Disgrifiodd y ddau bwynt hyn fel rhai sy'n peri pryder mawr. Nododd yr ymateb hefyd faterion yn ymwneud â diffyg hyfforddiant i ffermwyr i gydymffurfio â'r Cod, gan gofio mai'r ddadl dros gyflwyno gwaharddiad yw diffyg cydymffurfio ag ef.

290. Mae'r Gynghrair Cefn Gwlad hefyd yn annog gwahardd maglau nad ydynt yn cydymffurfio â'r cod a mabwysiadu ataliadau cebl trugarog sy'n cydymffurfio'n llawn â Safonau Trapio Dyngarol Rhyngwladol. Gofynnwyd i'r Gynghrair nodi effaith y gwaharddiad arfaethedig ar faglau ar gymunedau gwledig, yr amgylchedd a busnesau, a dywedodd:

*"The value really in monetary value, we're looking at shooting being worth £75 million to the rural economy in Wales and shooting provides a 365-day-a-year tourism opportunity for Wales. The sheep sector's worth some £270 million to the Welsh economy and the poultry sector is worth some £95 million."*²⁴²

291. Aeth y Gynghrair ymlaen i ddweud bod pryder ynghylch yr effaith ar fioamrywiaeth y tu hwnt i werth ariannol, a thrwy ddileu'r offeryn hanfodol hwn yn y blwch ar gyfer rheoli ysglyfaethwyr gellir wynebu trychineb:

*"So, there is a monetary value; there is more so an environmental value, and if we're looking at Wales from a green tourism aspect—for example, people come to Wales to see our wildlife and to see our birds, and the threat of the curlew extinction should not be taken lightly."*²⁴³

292. Roedd y Gynghrair Cefn gwlad yn gryf o'r farn y cedwir at y Cod. Er yn amlwg bod lle i wella, cred y Gynghrair fod lefel y gydymffurfiaeth yn uchel iawn,²⁴⁴ ac oherwydd COVID-19 nid oedd wedi cael digon o amser i sefydlu. Nodwyd bod y pandemig wedi effeithio ar gynlluniau i hyfforddi ffermwyr. Pwysleisiodd y

²⁴¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 70

²⁴² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 129

²⁴³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 131

²⁴⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 150-155

Gynghrair hefyd fod llawer o dystiolaeth a gyflwynwyd ynghylch difrod a achosir gan faglau yn ymwneud â maglau hen ffasiwn. Dywed ei fod yn bwysig iawn tynnu sylw at y ffaith bod y gwaith o ddatblygu'r ataliadau cebl modern bellach yn bell o'r math o faglau amrwd a diwahaniaeth yn y gorffennol.²⁴⁵

293. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y cynigion i barhau i ddefnyddio'r hyn y mae GWCT ac eraill yn ei ddisgrifio fel 'ataliadau cebl trugarog modern', dan drwydded, roedd yn glir wrth ddweud nad oedd o'r farn bod pethau wedi symud ymlaen ddigon. Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i chyflwyno iddi, nac i swyddogion. Cred ei fod union yr un fath ym mhob ffordd.²⁴⁶

294. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i fynd ar drywydd y ddadl ynghylch sut y gallai gwaharddiad llwyr, yn hytrach na dull trwyddedig, effeithio ar brosiectau cadwraeth ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghymru. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru ac RSPB Cymru nad ydynt yn defnyddio maglau. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru:

*"NRW does not use snares or glue traps on the Welsh Government Woodland Estate. NRW's general licences do not include the use of snares, so we do not actively permit them. In some cases, predator control may be a requirement for species management on protected sites and within species conservation projects, although in such cases we do not stipulate the method of control."*²⁴⁷

295. Croesawodd RSPB Cymru y gwaharddiad gan ddweud ei fod yn disgwyl y byddai wedi cael ei ymestyn i gynnwys gwerthiant. Dywedodd:

"The RSPB does not use snares because they are non-selective and risk catching non-target mammals such as hares, badgers and deer. In addition, we do not consider that snares are a humane way of controlling predators. Where deemed necessary, and where non-lethal methods are judged to be unsuitable or ineffective, the RSPB may control predators on RSPB reserves and as part of some projects, but not through snaring. The RSPB believes that landscape-scale habitat restoration is necessary to sustainably reduce predation impacts on ground-nesting birds. We don't expect the

²⁴⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 150-152

²⁴⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 160

²⁴⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

*measures in the Bill to negatively impact on RSPB's conservation work.*²⁴⁸

296. Yn ei ail sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog gofynnodd y Pwyllgor yn benodol am bryderon a fynegwyd ynghylch prosiectau adfer ar gyfer rhywogaethau â blaenoriaeth, gan gynnwys adar sy'n nythu ar y ddaear fel y gylfinir. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud bod yn well ganddi weld dull cyfannol o amddiffyn anifeiliaid—nythwyr, er enghraifft—a bod dulliau lladd a ganiateir yn cael eu defnyddio fel dewis olaf yn unig. Pan ofynnwyd iddi pa asesiadau penodol a oedd wedi'u gwneud o ran yr hyn y byddai cael gwared â maglau yn ei wneud i niferoedd y boblogaeth, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi edrych ar dystiolaeth o brosiect Curlew Action yn yr Alban, gan ddefnyddio camerâu, lle canfuwyd mai da byw oedd y dinistriwr mwyaf o nythod. Ychwanegodd y Gweinidog:

*"We certainly looked, as I say, at curlews, and we had a discussion with NRW around the use of snares to protect curlews from foxes, for instances. What came forward, I think, was that the most efficient method of fox control was rifles, with thermal imaging scopes at night, particularly during the winter and the early spring."*²⁴⁹

297. Nodwyd nad oedd y dull hwn yn addas i'w ddefnyddio ar bob adeg o'r flwyddyn pan fo adar yn nythu, fel yr eglurodd Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain a'r Gynghrair Cefn Gwlad yn eu tystiolaeth lafar²⁵⁰, oherwydd gorchudd trwchus, ond atebodd y Gweinidog fod cyfres o fesurau ar gael o hyd, gan gynnwys ffensys trydan.²⁵¹

Cynigion i ymestyn y gwaharddiad i gynnwys meddiant, gweithgynhyrchu neu werthu

298. Roedd sawl grŵp lles anifeiliaid a Chymdeithas Filfeddygol Prydain yn galw am ymestyn y gwaharddiad ar faglau i gynnwys gweithgynhyrchu, meddu a gwerthu maglau (yn ogystal â'u defnyddio). Roedd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon²⁵² yn tynnu sylw at y ffaith bod Papur Gwyn y Bil wedi nodi y ceisid gwaharddiad ar werthu a defnyddio maglau pe bai tystiolaeth yn dangos nad oedd pobl yn cadw at y cod gwirfoddol arfer gorau. Dywedodd y Gynghrair y

²⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR45 (Saesneg yn unig)

²⁴⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 176

²⁵⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 140-142

²⁵¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 178

²⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR36 (Saesneg yn unig)

byddai lledu'r gwaharddiad yn sicrhau bod maglau ar gael yn llai rhwydd ac yn helpu gyda gorfodi. Dywedodd na ddylai pobl allu gwneud elw drwy werthu maglau sy'n achosi dioddefaint. Darparodd y Gynghrair dystiolaeth fanwl ar y dadleuon i ymestyn i werthu a gweithgynhyrchu yng Nghymru, ac i dynhau meddiant at ddibenion gorfodi fel gyda gwenwynau rhagnodedig o dan Ddeddf 1981. Roedd tystiolaeth y Gynghrair hefyd yn cwestiynu rôl Deddf y Farchnad Fewnol 2020 mewn perthynas â'r potensial i wahardd gwerthu maglau yng Nghymru. Dywedodd yr Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau hefyd y dylai geiriad y ddeddfwriaeth fod yn 'Gwahardd cynhyrchu, gwerthu neu ddefnyddio maglau.'²⁵³

299. Cydnabu'r Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau anhawster wrth ddeddfu ynghylch 'meddiant', ond dywedodd:

*"...I think it's completely right for the gin traps that are still being used 60 years afterwards, but what is a snare? People use snares that are made up of garden wire. Is a cable tie a snare? I would have thought there was some difficulty legislation-wise with possession. But, otherwise, obviously, I completely support including sale and manufacture. You wouldn't want to see snares being sold in garden centres here, you wouldn't want to see a manufacturing unit making them, so it's quite appropriate that that's included."*²⁵⁴

300. Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at y pwynt hwn ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â magl mewn perthynas â'r cynnig i gynnwys gwaharddiad ar 'werthu', gan ddweud bod llawer o faglau ansoffistigedig yn cynnwys deunyddiau y gellid eu defnyddio at wahanol ddibenion, ac felly byddai anawsterau gorfodi ar gyfer gwahardd gwerthu, er enghraifft i wahardd gwerthu gwifren.²⁵⁵

301. Roedd Cymdeithas Milfeddygon Prydain yn cefnogi defnydd cyfrifol o'r dulliau rheoli mwyaf trugarog sydd ar gael, ac yn cefnogi'r cynnig am bŵer i alluogi mwy o reolaethau ar gyfer gweithgynhyrchu, gwerthu a defnyddio maglau a thrapiau glud.²⁵⁶

Ymestyn y gwaharddiad i fathau eraill o drapiau

302. Gofynnodd y Pwyllgor i sefydliadau lles anifeiliaid a oeddent yn credu y dylid ymestyn y gwaharddiad i fathau eraill o drapiau, megis Larsen a thrapiau ysgol a

²⁵³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022 - papur tystiolaeth

²⁵⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 17

²⁵⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 166

²⁵⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022 - papur tystiolaeth

allai ddal brain ac adar ysglyfaethus. Dywedodd Simon Wild o'r Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau na fyddai eisiau achosi dryswch na gweld unrhyw oedi yn y ddeddfwriaeth i wahardd maglau, ond roedd yn ei weld fel rhywbeth ar gyfer ymgynghoriad yn y dyfodol.²⁵⁷ Roedd RSPCA Cymru yn cytuno:

*"We'd agree that this piece of legislation is quite revolutionary in what it's doing. As I said, Wales would be the first country to ban snares. I think let's get that in place and then have a consultation and get evidence on how that is working. Because obviously this is going to be down to enforcement. It's all very well putting legislation in place, but enforcement is going to be crucial. We've seen that before with the code of practice on snares, which, let's face it, hasn't really worked in actually improving animal welfare or, indeed, enforcement of that particular piece of legislation. So let's get this in place and then look at how to build on that in the future."*²⁵⁸

303. Nid oedd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon ychwaith am fentro oedi cyn gweithredu'r darpariaethau yn y Bil ar faglau, ond roedd yn ei weld fel un sy'n cynnig dull profedig i'w ddefnyddio wrth edrych ar waharddiad ar fathau eraill o drapiau yn y dyfodol.²⁵⁹

Geiriad darpariaethau yn adrannau 43-45

304. Roedd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon yn pryderu efallai nad yw'r geiriad 'sets in position' yn cwmpasu pob achos o ddefnyddio magl, a allai fod yn her o ran gorfodi. Er enghraifft, mae achosion wedi bod lle mae diffnyddion wedi honni bod maglau wedi'u gadael yn eu lle ond heb eu gosod. Dywedodd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon er mwyn osgoi amwysedd a bylchau anfwriadol, y byddai'n well diwygio adrannau 43(ba) a (bb) o'r Bil i ddarllen 'sets in position or otherwise uses'.²⁶⁰

Diffiniad o 'fagl'

305. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth am y diffiniad o fagl, ac am wahanol fathau o 'faglau', 'ataliadau cebl', 'ataliadau cebl trugarog' a 'maglau/ataliadau sy'n cydymffurfio â'r cod' yn erbyn 'maglau/ataliadau nad ydynt yn cydymffurfio'. Fel y nodwyd eisoes uchod, mae'n bosibl y gellir llunio dyfais neu fecanwaith sy'n gallu

²⁵⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 26

²⁵⁸ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 28

²⁵⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 29

²⁶⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022 - papur dystiolaeth

atal anifail mewn nifer o ddeunyddiau gwahanol. Nid oes diffiniad penodol o fagl yn Neddf 1981.

306. Dywedodd yr Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau y dylai'r diffiniad yn y ddeddfwriaeth fod fel a ganlyn: *“Any wire or other loop designed to catch an animal by its neck, foot or any other part of its body.”*²⁶¹ Rhybuddiodd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon y gallai diffiniad greu bylchau anfwriadol os yw'n rhygul.

307. Yn ei hail sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ar 16 Tachwedd, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod adrannau 42-45 o'r Bil wedi'u drafftio'n ofalus iawn er mwyn osgoi bylchau neu ganlyniadau anfwriadol:

*“We deliberately didn't define snares in the Bill, as the intent is a blanket ban on any device that fits the description of a snare or of a cable restraint. I think if we'd have defined snares, that could have created a loophole to avoid the ban, so we deliberately didn't do that. Rwy'n meddwl bod geiriad y Bil wedi'i ddewis a'i ddrafftio'n ofalus iawn, iawn i sicrhau nad oes unrhyw ganlyniadau bwriadedig a fyddai'n atal y defnydd o offer trugarog sydd, yn amlwg, yn cael eu defnyddio hefyd—y pegynau achub, er enghraifft, y defnydd RSPCA.”*²⁶²

308. Aeth y Gweinidog ymlaen i roi sylw i'r geiriad “ataliadau cebl trugarog”:

*“Officials included ‘cable restraints’ in the definition as snare user groups use the term ‘humane cable restraint’ interchangeably with ‘code-compliant snare’. We need to be very clear that they are exactly the same device and they're not different in any way. The code-compliant snare was developed 10 years ago and it's been used by the industry from just before I came into the portfolio actually—probably about seven years now. So, any claim that there have been recent developments in snare design making it more humane or more efficient have not been evidenced. We've asked to see that and, for me, there is no evidence that has persuaded me that's the case.”*²⁶³

²⁶¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022 - papur tystiolaeth

²⁶² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 158

²⁶³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 158

Cosbau

309. Mae unigolyn sy'n euog o drosedd o dan Ran 5 o'r Bil yn agored i uchafswm o chwe mis o garchar neu ddirwy anghyfngedig, y mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi "sy'n gyson â Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981". Mewn tystiolaeth lafar, cododd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon y cwestiwn a ddylai pobl wynebu treial o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) 2021 a gododd uchafswm y ddedfryd o garchar i bum mlynedd.²⁶⁴ Galwodd yr Ymgyrch Genedlaethol Atal Maglau hefyd am ddedfrydau llymach i droseddwyd mynych.²⁶⁵ Dywedodd RSPCA Cymru fod cydraddoldeb o ran cosbau yn rhywbeth i'w ystyried:

*"if you're convicted of kicking a cat downstairs you could get up to five years, but if you're convicted of setting a snare and a cat gets caught in that and dies horribly over a long period of time, your sentence is much, much lower. So, I think that is something that perhaps the Senedd should be looking at in the future to try and get parity between these two very different sentencing regimes, depending on whether it's a wild animal offence or a domestic animal offence."*²⁶⁶

310. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch y drefn ddedfrydu ar 16 Tachwedd, dywedodd:

*"That Act [The Animal Welfare (Sentencing) Act 2021] dealt with increasing penalties for offences under the Animal Welfare Act 2006. This Bill will create new offences under the Wildlife and Countryside Act 1981, so I'm content that the punishment for those convicted of using a snare to capture a wild animal or using a glue trap would be in line with those of the Act, which as you say is imprisonment for a term not longer than six months or an unlimited fine. So, this offence really is to deal with the setting of snares and other cable restraints."*²⁶⁷

Barn y Pwyllgor

311. Mae mwyafrif clir o Aelodau'r Pwyllgor wedi'u darbwyllo gan y dystiolaeth sy'n cefnogi gwaharddiad llwyr ar faglau. Fodd bynnag, nododd dau Aelod fod

²⁶⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 37

²⁶⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 38

²⁶⁶ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 39

²⁶⁷ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 168

gwaharddiad cyffredinol yn cael gwared ar unrhyw gyfle i ddefnyddio maglau fel dull o reoli ysglyfaethwyr ar gyfer adfer rhywogaethau, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Argymhelliad 29. Mae mwyafrif clir o'r Pwyllgor yn cefnogi darpariaethau Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio maglau, er bod cefnogaeth gan ddau Aelod i'r Gweinidog roi ystyriaeth bellach i system drwyddedu hynod reoledig.

Trapiau glud

312. Mae trapiau glud yn cynnwys arwyneb wedi'i orchuddio â glud nad yw'n sychu sydd wedi'i ddylunio i ddal cnofilod fel llygod a llygod mawr. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi eu bod yn cael eu defnyddio'n aml gan y cyhoedd a rheolwyr plâu proffesiynol. Mae hefyd yn nodi y gall pobl fod yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 os nad ydynt wedyn yn gallu lladd yr anifail yn drugarog. **Dywed yr RSPCA (briff 25 Mai 2022)** fod tua 73 y cant o achosion o drapiau glud (a welwyd gan yr RSPCA) wedi dal rhywogaethau nad oeddent yn darged, megis anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys adar.

313. Cafodd **Deddf Trapiau Glud (Troseddau) 2022** y DU Gydsyniad Brenhinol yng ngwanwyn 2022. Mae'r Ddeddf (o fis Ebrill 2024) yn gwahardd y defnydd o drapiau glud yn Lloegr, ac eithrio ar sail eithriadol. Bydd yn sicrhau bod trwyddedau i ddefnyddio trapiau glud yn cael eu rhoi i reolwyr plâu proffesiynol yn unig pan nad oes dewis arall addas i ddiogelu iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd. **Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban yn ddiweddar** ei bwriad i wahardd gwerthu a defnyddio trapiau glud yn llwyr (heb eithriad), ond tynnodd sylw at oblygiadau *Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020*.

314. Yn y **briff ar 25 Mai** roedd RSPCA Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda gwledydd eraill y DU i sicrhau y gall gwaharddiad fod yn berthnasol i werthu a defnyddio trapiau glud yn y dyfodol. Nid oedd trapiau glud wedi'u cynnwys ym Mhapur Gwyn y Bil. Ond yn dilyn y bwriad i gyflwyno gwaharddiad yn Lloegr, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Ionawr 2022. Mae'r ddau brif gorff masnach rheoli plâu yn y DU, Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain a Chymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu yn cefnogi gwaharddiad ar y cyhoedd (gan gynnwys rheolwyr plâu amatur) rhag gallu defnyddio trapiau glud. Fodd bynnag, maent wedi galw am eithriad i reolwyr plâu proffesiynol. Maent o'r farn y gall trapiau glud fod yn ddull cyflymach lle mae bygythiad i iechyd y cyhoedd a lle mae cyflymder yn flaenoriaeth (e.e. ysbytai). Roedd y ddau

sefydliad yn cydnabod pa mor brin oedd yr amgylchiadau hyn. Nodwyd os yw cynllun trwyddedu yn cael ei ddefnyddio, na ddylai arafu camau gweithredu cyflym. Ceir rhagor o safbwyntiau am yr ymarfer ymgynghori hwn gan Lywodraeth Cymru ar dudalen 87 y Memorandwm Esboniadol.

315. Roedd UKHospitality Cymru, er ei fod yn cydnabod y pryderon o ran lles anifeiliaid ac yn gwrthwynebu unrhyw ddefnydd amatur o drapiau glud, hefyd am i reolwyr plâu proffesiynol allu defnyddio maglau glud fel 'dewis olaf' i ymdrin â phlâu o gnofilod mewn safleoedd bwyd:

"As a trade association, UKHospitality Cymru does not actively use glue boards, however, we do represent a large number food businesses operators who employ pest control organisations and individual pest control technicians who use them periodically in accordance with the relevant codes of practice.

We have consulted with members who are of the opinion that glue boards should only be used as a last resort and only where there is a risk to health and where other methods have proved to be ineffective. We believe that public health would suffer should a complete ban on glue traps be introduced. Rodents would, in some situations, become extremely difficult to control and treatment programmes prolonged unnecessarily. This may result in the closure of members' businesses either temporarily or permanently.

*We recognise that glue boards, if not used correctly, can cause suffering and our members rely on the competency of our pest contractors and the relevant codes of practice to ensure the most humane practises are used. Our members do not use the boards themselves or allow amateur use of the boards."*²⁶⁸

316. Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, tynnodd Cymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu sylw at gyfyngiadau dulliau amgen - gan gynnwys ymwrthedd ymddygiadol - a phryderon ynghylch peryglon gwenwyn llygod a'r ffaith na fydd y gwenwyn ar gael mor hawdd yn y dyfodol.²⁶⁹ Dywedodd Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain os cyflwynir gwaharddiad yna bydd rhaglenni rheoli cnofilod yn cymryd mwy o amser mewn meysydd hanfodol, sy'n golygu cau safleoedd sensitif dros dro (o leiaf pythefnos), megis busnesau bwyd a lletygarwch bach; wardiau ysbytai

²⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig - AGR29 (Saesneg yn unig)

²⁶⁹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 207-212

a chartrefi gofal; ffatrioedd bwyd ac ardaloedd paratoi; a seilwaith hanfodol ac adeiladau'r llywodraeth. Dywedodd Ian Andrew o Gymdeithas Rheoli Plâu Prydain:

*"Absolutely, we can capture and deal with rats and mice without glue traps, if you're willing to have hospital wards closed, school canteens closed, small businesses closed, for up to two weeks. Os dyna'r lefel o dderbynioldeb, yna gallwn yn llwyr ddelio â phlâu o gnoflod trwy wenwyn llygod, tra bod gennym ni nhw o hyd, a thrwy faglau torri'n ôl. What we cannot do, however, is deal with an infestation quickly without the glue trap. It's the only means of rapid capture."*²⁷⁰

Awgrym o system drwyddedu amgen at ddefnydd proffesiynol

317. Dywedodd Ian Andrew o Gymdeithas Rheoli Plâu Prydain fod aelodau o'r cyrff masnach proffesiynol yn gymwys i ddefnyddio byrddau glud yn effeithiol ac y byddai system drwyddedu yn gymharol syml i'w rhoi ar waith:

"We have an European definition of [a professional pest controller] that covers the training, the qualifications, the continued professional development and the competence levels of professionals, which, certainly, the BPCA members would adhere to. I think that that level of trust—it depends how bureaucratic, and I'm sure that the last thing you want is a bureaucratic licensing system, but if it was Natural Resources Wales, for example, they are accustomed to licensing professional pest controllers for the bird licensing and for the gull licensing. So, there are models in place.

*Equally, there are models where you could license ourselves and NPTA to actually do the licensing scheme for you; that would reduce your bureaucracy. As I say, it is, absolutely, about ensuring that those who are using them are trained, qualified and competent in their use."*²⁷¹

²⁷⁰ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraff 177

²⁷¹ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 9 Tachwedd 2022, paragraffau 182-183

318. Ar y llaw arall, nodir yn y Memorandwm Esboniadol fod gan rai gwasanaethau rheoli plâu waharddiad eu hunain ar ddefnyddio trapiau glud, gan ddweud eu bod yn gallu dal y pla ym mhob amgylchiad.

319. Dywedodd **cyrff lles anifeiliaid** nad oes amgylchiadau lle mai trapiau glud yw'r unig ddull hyfyw. Maent eisiau gweld gwaharddiad ar werthu yn ogystal â defnyddio trapiau glud. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod coleri sioc drydanol wedi'u gwahardd drwy wahardd eu defnyddio (nid eu gwerthu) o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Coleri Electronig) (Cymru) 2010.

320. Yn dilyn tystiolaeth gymhellol gan y cyrff masnach rheoli plâu ar oblygiadau posibl gwaharddiad llwyr i iechyd y cyhoedd, **ysgrifennodd** y Pwyllgor at Iechyd Cyhoeddus Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth, cyn ail sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog.

321. Yn ei **ymateb**, cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod plâu yn cael effeithiau andwyol, megis trosglwyddo clefydau heintus, ac felly, mae er budd iechyd y cyhoedd i gael mesurau rheoli plâu effeithiol lle mae risg. Dywedodd ei bod yn fater o ddefnyddio'r opsiwn mwyaf trugarog ac effeithiol ond nid oedd yn gallu gwneud sylw ar rinweddau dulliau amgen o reoli plâu a byddai'n troi at arbenigwyr yn y maes ymarfer hwn i roi cyngor. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro gweithgarwch ac felly nid oedd yn gallu darparu gwybodaeth am y defnydd o drapiau glud mewn adeiladau cyhoeddus yng Nghymru. Mewn ail sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog ar 16 Tachwedd, cafodd yr Aelodau wybod nad oedd awdurdodau lleol yn eu defnyddio, ac nid oeddent hwy na gwasanaethau rheoli plâu wedi mynegi unrhyw bryderon ynghylch gwaharddiad.²⁷² Cafodd yr Aelodau wybod bod Rentokil wedi darparu tystiolaeth nad oedd yn eu defnyddio ar gyfer rheoli plâu, a chafodd ei contractio i ymdrin â lleoliadau iechyd cyhoeddus. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan Gymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu a Chymdeithas Rheoli Plâu Prydain ar 9 Tachwedd. Dywedodd y Gweinidog hefyd wrth yr Aelodau ar 16 Tachwedd fod DEFRA wedi cael rhai problemau gwirioneddol gyda datblygu cyfundrefn drwyddedu ar gyfer Lloegr, a'i bod yn credu mai gwaharddiad oedd y dull cywir i Gymru.²⁷³

322. **Ymatebodd** y Gweinidog i gais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth ynghylch y defnydd o drapiau glud gan awdurdodau lleol a chan contractwyr y GIG mewn byrddau iechyd lleol ar 7 Rhagfyr. Dywedodd y llythyr: "*Ni ellir gwadu y gall cnofilod beri risg iechyd cyhoeddus difrifol mewn mannau y mae bodau dynol*

²⁷² Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 181

²⁷³ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 16 Tachwedd 2022, paragraff 183

ynddynt. Mae hefyd yn rhesymol tybio bod yna sefyllfaoedd sy'n gofyn am ateb cyflym fel, mewn ysbytai, o gwmpas yr ifanc ac yn agored i niwed fel arall, ac mewn unrhyw fath o wasanaeth bwyd." Fodd bynnag, aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud bod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac nad oedd trapiau glud yn drugarog hyd yn oed yn nwylo gweithwyr proffesiynol. Aeth ymlaen i ddweud:

*"Ceir ffurfiau digonol, effeithlon, a mwy trugarog o reoli cnofilod sy'n cael eu defnyddio yn rheolaidd yng Nghymru. Mae dulliau o'r fath yn lleihau'r risg o ddal neu ladd anifeiliaid sydd ddim yn cael eu targedu yn ogystal â gwella safonau lles anifeiliaid. Mae cwmnïau rheoli plâu yn y DU gyda'u gwaharddiad eu hunain ar ddefnyddio trapiau glud yn gallu dal cnofilod problemus ym mhob amgylchiadau. Mae'r profiad hwnnw'n cael ei adleisio dramor mewn gwledydd lle mae byrddau glud wedi'u gwahardd a dulliau rheoli amgen wedi eu mabwysiadwyd yn gyflym."*²⁷⁴

323. Tynnodd y Gweinidog sylw at y defnydd cyfyngedig iawn o drapiau glud yng Nghymru, a dywedodd mewn ymgynghoriad nad oedd yr un awdurdod lleol wedi nodi eu bod yn ddull hanfodol o reoli cnofilod. Nododd hefyd anawsterau DEFRA gyda gweithredu cynllun trwyddedu ar gyfer rheolwyr plâu proffesiynol "yn fwyaf arbennig gyda'r ffaith nad oes Cod Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) ar gyfer rheolwyr plâu ac nid oes angen cymwysterau na thrwydded i weithio yn y math hwnnw o rôl. Felly, byddai penderfynu ar gais dilys am drwydded i ddefnyddio trap glud yn broblematig iawn, gan gyfleu'r diffiniad o bwy sydd wedi'i eithrio yn y rheoliadau yn anodd iawn."²⁷⁵

Barn y Pwyllgor

324. Ar ôl ystyried llythyr y Gweinidog ochr yn ochr â thystiolaeth arall a ddaeth i law, nid yw'r Pwyllgor yn gwrthwynebu'r cynigion yn y Bil ar wahardd y defnydd o drapiau glud.

Argymhelliad 30. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil i wahardd defnyddio trapiau glud.

²⁷⁴ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2023, Papur i'w nodi 2.2

²⁷⁵ Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2023, Papur i'w nodi 2.2

8. Rhan 6 – Cyffredinol

Mae'r rhan hon o'r Bil yn darparu, ymhlith pethau eraill, i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau i roi effaith lawn i'r Bil. Mae'n darparu ar gyfer diffiniadau o "amaethyddiaeth" a "gweithgareddau ategol" at ddibenion y Bil, ac ar gyfer diwygio'r diffiniadau hynny drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Rhan 6 hefyd yn ymdrin â dehongli, gan roi effaith i Atodlenni, darpariaethau dod i rym ac enw byr y Bil.

325. Mae adran 46 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau atodol, canlyniadol neu drosiannol yn ôl yr angen er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil.

326. Mae adran 47 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Bil, ac mae'n nodi gweithdrefn berthnasol y Senedd ar gyfer rheoliadau o'r fath.

327. Gofynnwyd am dystiolaeth ynghylch priodoldeb y pwerau gwneud rheoliadau a'r weithdrefn i'w defnyddio (negyddol yn erbyn cadarnhaol). Barn Cyswllt Amgylchedd Cymru oedd y dylai rheoleiddio gan amlaf fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.²⁷⁶ Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad hwn, ystyriodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Bil ar 21 Tachwedd a rhoddodd y Gweinidog ymateb yn amlinellu ei bwriadau ar gyfer defnyddio'r pwerau. Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn nodi (Tabl 5.1 ar dudalen 94) y bydd y rhan fwyaf o bwerau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yr eithriadau i hyn yw'r pwerau yn adrannau 15-18 sy'n ymwneud ag addasu cymorth amaethyddol presennol (Cynllun y Taliad Sylfaenol, y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gwenynyddiaeth, Datblygu Gwledig ac ymyrraeth marchnad gyhoeddus a chymorth storio preifat) ac yn adran 46 ar gyfer darpariaeth ganlyniadol, drosiannol ac ati. Ar adrannau 15-18 mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y rhain yn bennaf yn dechnegol/gweithdrefnol eu natur

²⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR46 (Saesneg yn unig)

a/neu eu bod yn gwneud newidiadau i reolau cynllun manwl cyfredol sydd wedi'u cynnwys yng nghyfraith yr UE a ddargedwir.

Diffiniad o amaethyddiaeth

328. Mae adran 48 yn diffinio “amaethyddiaeth” at ddibenion y Bil. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad (Pennod 2, Paragraff 23), roedd safbwyntiau cryf ynghylch priodoldeb y diffiniad o “amaethyddiaeth” yn cael ei ddiwygio gan is-ddeddfwriaeth o dan adran 50. Dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru fod yn rhaid i unrhyw welliant i'r diffiniad o amaethyddiaeth fod yn destun gwaith craffu dwys er mwyn sicrhau nad yw ffermwyr actif gwirioneddol yn cael eu heithrio ac nad yw gweithgareddau ymylol yn cael eu cwmparu mewn ffordd a fyddai'n lleihau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu bwyd a gweithgareddau ffermio ar lawr gwlad.²⁷⁷ Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru y dylai fod dyletswydd i ymgynghori ar adran 50.²⁷⁸

329. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru fod posibilrwydd y gallai'r termau ‘coetir fferm’ ac ‘amaeth-goedwigaeth’ yn y diffiniad o amaethyddiaeth achosi dryswch.²⁷⁹ Dywedodd fod Deddf Amaethyddiaeth 1967 yn diffinio “coetir” fel un sy'n cynnwys “*all land used primarily for the growing of trees*” ac mae **polisi adnoddau naturiol** Llywodraeth Cymru yn nodi “*Mae hefyd angen gwneud rhagor i integreiddio coetiroedd a dulliau eraill o ddefnyddio tir a chael gwared ar y duedd hanesyddol i wahaniaethu rhwng rheoli tir amaethyddol a choetiroedd*”. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru yr ymddengys mai'r bwriad polisi yw dod â'r ddau ddefnydd tir ynghyd o ran y swyddogaethau amrywiol a roddir i Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn. Fodd bynnag, pan ddaw'n fater o arfer pwerau o dan ddarnau eraill o ddeddfwriaeth (megis coedwigaeth, cynllunio a thenantiaeth) nid oes gan ddiffiniadau'r Bil unrhyw statws, a allai arwain at ddryswch.

330. Mae adran 49 yn diffinio “gweithgaredd ategol” at ddibenion y Bil. Mae adran 8(1) uchod, ar gymorth ar gyfer “gweithgareddau ategol”, yn nodi safbwyntiau ar adran 49.

331. Mae adran 50 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniadau o “amaethyddiaeth” a “gweithgaredd ategol” drwy reoliadau, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

²⁷⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR27; AGR37 (Saesneg yn unig)

²⁷⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR37 (Saesneg yn unig)

²⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig – AGR53 (Saesneg yn unig)

332. Darpariaeth ddehongli yw adran 51 sy'n diffinio rhagor o eiriau a thermau a ddefnyddir yn y Bil.

333. Mae adran 52 yn rhoi effaith i Atodlenni 2 a 3 sy'n cynnwys cyfres o ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau.

334. Mae adran 53 yn nodi pryd y daw pob un o ddarpariaethau'r Bil i rym.

335. Mae adran 54 yn darparu mai enw byr y Bil yw "Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023".

Atodlenni

336. Mae Atodlen 1 (a gyflwynir gan adran 32) yn gwneud darpariaeth ynghylch cynhyrchion amaethyddol sy'n berthnasol i'r darpariaethau safonau marchnata yn y Bil.

337. Mae Atodlen 2 (a gyflwynir gan adran 52) yn gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhannau 1-3 o'r Bil.

338. Mae Atodlen 3 (a gyflwynir hefyd gan adran 52) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol (y "Rheoliad CMO").

339. Ac eithrio egluro cynnwys Atodlen 1, a nodir yn Rhan 3 uchod, nid oes gan y Pwyllgor unrhyw sylwadau o sylwedd ar adrannau 51 i 53 o'r Bil, na'r Atodlenni.

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
29 Medi 2022	James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Hannah Fernandez, Prif Swyddog Polisi, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Fiona McFarlane, Polisi – Coedwigaeth, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Claire Lawson, Polisi – Maglau a Thrapiau Glud, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Dorian Brunt, Uwch-gyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Materion Gwledig Llywodraeth Cymru William (Bill) Cordingley, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru
5 Hydref 2022	Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Llywodraeth Cymru James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Hannah Fernandez, Prif Swyddog Polisi, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Dorian Brunt, Uwch-gyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Materion Gwledig Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Enw a sefydliad
	William (Bill) Cordingley, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol – Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru
12 Hydref 2022	Dylan Morgan, Dirprwy Gyfarwyddwr a Phennaeth Polisi Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru Huw Thomas, Cyngorydd Gwleidyddol Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru Dr Hazel Wright, Uwch-swyddog Polisi Undeb Amaethwyr Cymru Libby Davies, Swyddog Materion y Senedd a Materion Seneddol Undeb Amaethwyr Cymru
20 Hydref 2022	Arfon Williams, Pennaeth Polisi Tir a Môr RSPB Cymru Rhys Evans, Arweinydd Ffermio Cynaliadwy Cymru Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur Alexander Phillips, Arbenigwr Polisi ac Eiriolaeth WWF Cymru (yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru) Dr Jonathan Davies, Uwch-ecolegydd, Adfer Natur Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (yn cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru) George Dunn, Prif Weithredwr Cymdeithas y Ffermwyr Tenant Andrew Tuddenham, Cyngorydd Defnydd Tir a Ffermio Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol John Lloyd, aelod o'r Pwyllgor Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol Eleanor Jarrold, Ysgrifennydd Cymdeithas Cominwyr Mynydd Eglwysilan Mynydd Meio a Chraig-Evan-Leyshon
27 Hydref 2022	Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru Gwyn Howells, Prif Swyddog Gweithredol Hybu Cig Cymru Simon Wright, Cyfarwyddwr Bwyd a'r Economi Wledig Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant a Pherchennog Wright's Independent Foods Ltd Jerry Langford, Rheolwr Materion Cyhoeddus (Cymru) Coed Cadw

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Anthony Geddes, Rheolwr Cenedlaethol Cymru Confor
9 Tachwedd 2022	David Bowles, Pennaeth Materion Cyhoeddus RSPCA Cymru Billie-Jade Thomas, Uwch-swyddog Materion Cyhoeddus - Cymru Y Gyngrhair yn erbyn Chwaraeon Creulon Simon Wild, Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd Yr Ymgrych Genedlaethol yn erbyn Maglau Collin Willson, Llywydd Cangen Cymru Cymdeithas Milfeddygon Prydain Glynn Evans, Pennaeth Anifeiliaid a Chŵn Hela Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain Rachel Evans, Cyfarwyddwr Cymru Y Gyngrhair Cefn Gwlad Ian Andrew, Prif Weithredwr Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain John Hope, Rheolwr Technegol Cymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu Dr Ludivine Petitin, Darllenydd yn y Gyfraith Prifysgol Caerdydd Dr Mary Dobbs, Darlithydd, Ysgol y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Maynooth
16 Tachwedd 2022	Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd Llywodraeth Cymru James Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Hannah Fernandez, Prif Swyddog Polisi, Is-adran Diwygio Rheoli Tir Llywodraeth Cymru Dorian Brunt, Uwch-gyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol - Materion Gwledig Llywodraeth Cymru William (Bill) Cordingley, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol - Bywyd Gwyllt Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
AGR 01	Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru
AGR 02	Coed Cadw
AGR 03	RSPCA Cymru
AGR 04	Cymdeithas Milfeddygon Prydain
AGR 05	Yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt
AGR 06	Cymdeithas Genedlaethol y Technegwyr Plâu
AGR 07	Christine Topping
AGR 08	Andrew Pedrazzoli
AGR 09	Peter Morrow
AGR 10	Julia a Neil Anderson
AGR 11	Brigid Glanville
AGR 12	Kay Oliver a Bill Upda
AGR 13	Rose Shortland
AGR 14	Janet M Griffith
AGR 15	Jane Hurley
AGR 16	Y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd
AGR 17	Michael Burrridge
AGR 18	Shaun Ankers
AGR 19	S Smith
AGR 20	Rob Bowles
AGR 21	Susanna Feder

Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor

Cyfeirnod	Sefydliad
AGR 22	WAWC (Pwyllgor Lles Anifeiliaid Gwyllt)
AGR 23	Ros Berrington
AGR 24	Grŵp Moch Daeor Ceredigion
AGR 25	Lianna Jones
AGR 26	Comisiynydd y Gymraeg
AGR 27	Undeb Amaethwyr Cymru
AGR 28	Wild Moors
AGR 29	UKHospitality Cymru
AGR 30	AIC Cymru (Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol)
AGR 31	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
AGR 32	WWF Cymru
AGR 33	Four Paws
AGR 34	Michele Presacane
AGR 35	Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru
AGR 36	Y Gynghrair yn Erbyn Chwaraeon Creulon
AGR 37	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
AGR 38	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
AGR 39	Cynghrair Tirweddau Cynlluniedig Cymru / Ymgyrch Parciau Cenedlaethol
AGR 40	Confor
AGR 41	Animal Aid
AGR 42	Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
AGR 43	Cerddwyr Cymru
AGR 44	Plantlife
AGR 45	RSPB Cymru
AGR 46	Cyswllt Amgylchedd Cymru
AGR 47	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
AGR 48	Solar Energy UK
AGR 49	Continuous Cover Forestry Group (Cymru)

Cyfeirnod	Sefydliad
AGR 50	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
AGR 51	Y Rhwydwaith Ffermio Er Lles Natur
AGR 52	Maint Cymru
AGR 53	Cyfoeth Naturiol Cymru
AGR 54	Cynghrair Gweithwyr Tir Cymru
AGR 55	Michael Sharratt

Gwybodaeth ychwanegol

Teitl	Dyddiad
RSPB Cymru: Papurau briffio	20 Hydref 2022
Cyswllt Amgylchedd Cymru: Papur briffio argraffiadau cyntaf	20 Hydref 2022
Coed Cadw: papur tystiolaeth	27 Hydref 2022
Confor: papur tystiolaeth	27 Hydref 2022
Y Gynghrair Cefn Gwlad: Papurau briffio	9 Tachwedd 2022
Yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Chadwraeth Bywyd Gwyllt: Papurau briffio	9 Tachwedd 2022
Yr Ymgrych Genedlaethol yn Erbyn Maglau: Crynodeb o'r pwyntiau allweddol i gefnogi tystiolaeth lafar	9 Tachwedd 2022
Cymdeithas Rheoli Plâu Prydain: Nodyn briffio	9 Tachwedd 2022
Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cwestiynau am GDPR y DU - y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) - Sesiwn dystiolaeth 1: 5 Hydref	9 Tachwedd 2022
Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Cywiriadau i'r Memorandwm Esboniadol	9 Tachwedd 2022
Llythyr gan y Cadeirydd at lechyd Cyhoeddus Cymru: Cynigion i wahardd defnyddio trapiau glud yng Nghymru	24 Tachwedd 2022

Teitl	Dyddiad
Llythyr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cynigion i wahardd defnyddio trapiau glud yng Nghymru	24 Tachwedd 2022
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd	25 Tachwedd 2022
Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rhan 3 ac Atodlen 1	28 Tachwedd 2022
RSPB Cymru – papur atodol ar drosglwyddo	30 Tachwedd 2022
Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Trapiau glud	7 Rhagfyr 2022
Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rhan 3 ac Atodlen 1	19 Rhagfyr 2022